**Rhif: WG47098**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol

Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol 978-1-80535-740-7

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol.

Awdur: Alma Economics

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnal dadansoddiad gwrthrychol a systematig o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac sydd wedi pasio dulliau sicrhau ansawdd Llywodraeth Cymru.

Ar gael yn: Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

## Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae’r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Tîm yr Ardoll Ymwelwyr
Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bostiwch: YmgynghoriadArdollYmwelwyr@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol ........................................................................ 2
2. Cyflwyniad ........................................................................................ 11
3. Dull gweithredu a methodoleg ........................................................ 13
4. Crynodeb o'r canfyddiadau ............................................................. 16
5. Atodiadau ........................................................................................ 169

# 1. Crynodeb gweithredol

## Diben yr ymgynghoriad

1.1 Ar 20 Medi 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i roi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd. Roedd hyn yn cynnwys ceisio adborth ar yr opsiynau dylunio posibl ar gyfer ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion hyn, ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd.

## Themâu cyffredinol

1.2 Adlewyrchwyd nifer o themâu cyffredinol yn gyson mewn sawl cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Roedd sicrhau y caiff ardoll ei roi ar waith mewn ffordd deg yn thema a welwyd mewn nifer o ymatebion. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai'r ardoll gael ei ddylunio mewn ffordd sy'n osgoi effeithiau a allai fod yn wrthgynyddol, megis effeithio'n anghymesur ar unigolion ar incwm isel a rhoi baich sylweddol o ran cost a gwaith gweinyddol ar ddarparwyr llety bach, nad yw mor hawdd iddynt ymdopi â hyn.

1.3 Roedd sicrhau bod dyluniad a phroses weithredu'r ardoll yn syml ac yn glir yn thema gyffredinol arall, gan y byddai hyn yn helpu i leihau'r baich gweinyddol a roddir ar ddarparwyr llety ac awdurdodau lleol, yn ogystal â gwella cydymffurfiaeth.

1.4 Trydedd thema gyffredinol a welwyd oedd ffafriaeth gan lawer o ymatebwyr i ardoll gael ei weinyddu ar sail rannol ganoledig o leiaf. Cydnabuwyd y gallai pennu ardoll ar sail gwbl leol arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys ychwanegu cymhlethdod ac achosi cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol a allai fod yn niweidiol i rai economïau ymwelwyr lleol. Cydnabu ymatebwyr eraill fanteision gweinyddu'r ardoll yn lleol, gan gynnwys rhoi ardoll ar waith sydd wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion lleol yn y ffordd orau.

1.5 Ceir crynodeb manylach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fesul maes pwnc isod.

## Diben a chwmpas y dreth

1.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno â rhoi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol i godi ardoll ymwelwyr oherwydd y baich gweinyddol a'r anghysondebau y byddai hyn yn eu creu, a'r posibilrwydd o greu cystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig yn gwerthfawrogi sut y byddai hyn yn galluogi'r ardoll i addasu yn unol ag amgylchiadau lleol.

1.7 Mewn perthynas â chwmpas yr ymwelwyr a fyddai'n gymwys i dalu ardoll, mynegodd yr ymatebwyr a oedd yn erbyn cynnwys ymwelwyr undydd o fewn y cwmpas bryderon ynglŷn ag ymarferoldeb estyn yr ardoll i gynnwys ymwelwyr dydd. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn dadlau o blaid cynnwys ymwelwyr undydd yn y cwmpas y byddai hyn yn deg o ystyried y ffaith bod ymwelwyr undydd hefyd yn defnyddio gwasanaethau ac asedau ymwelwyr a'u bod, fel rheol, yn cyfrannu llai at yr economi ymwelwyr nag ymwelwyr dros nos.

## Fframwaith treth

1.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn erbyn annibyniaeth leol o fewn y fframwaith treth, gan nodi y gallai annibyniaeth leol gyflwyno anghysondebau ar draws ardaloedd gwahanol a chymell cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig yn gwerthfawrogi hyblygrwydd annibyniaeth leol wrth addasu dyluniad yr ardoll yn unol ag amgylchiadau lleol, gan gynnwys y math o gyfradd a bennir, ei lefel a lle y caiff refeniw ei wario.

## Dyluniad y dreth ac atebolrwydd i'w thalu

1.9 Roedd anghytundeb cyffredinol â'r cynnig y byddai'r ardoll yn cael ei hunanasesu gan ddarparwyr llety ymwelwyr, gyda sefydliadau busnes yn arbennig yn mynegi pryderon ynghylch y baich gweinyddol y byddai hyn yn ei roi ar ddarparwyr llety, gan dynnu sylw at amrywiaeth o bryderon ymarferol.

1.10 Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ardoll gael ei gasglu ymlaen llaw lle y bo modd, am resymau a oedd yn cynnwys cyfleuster, y

gallu i fanteisio ar systemau archebu llety presennol, a lleihau'r risg i ddarparwyr na fyddai ymwelwyr yn talu digon.

1.11 Roedd anghytundeb cyffredinol hefyd â'r cynnig y byddai darparwyr llety ymwelwyr yn gyfrifol am gasglu a thalu'r ardoll i'r awdurdod treth. Prif bryder y rhai a oedd yn anghytuno oedd y baich gweinyddol ac ariannol a fyddai'n deillio o hyn, yn enwedig i ddarparwyr bach na fyddai ganddynt y systemau na'r gweithlu i allu cydymffurfio'n hawdd o bosibl.

## Ymwelwyr sydd o fewn y cwmpas

1.12 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai pob ymwelydd mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol fod o fewn cwmpas yr ardoll ond, ar y cyfan, ni chynigiwyd rheswm am hyn. Roedd rhesymau'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig yn cynnwys tegwch ac eglurder, er i rai awgrymu mai dim ond os bydd esemptiadau a bennir yn genedlaethol y dylai'r cynllun ond fynd rhagddo.

## Esemptiadau

1.13 Roedd cefnogaeth amrywiol i'r esemptiadau a gynigiwyd i'r ardoll ymwelwyr. Y prif reswm roedd rhai o blaid yr esemptiadau oedd eu bod yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb drwy gefnogi grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol (gan osgoi torri Deddf Cydraddoldeb 2010), tra bo eraill yn dadlau bod rhai grwpiau y tu hwnt i'r hyn a ddylai gael ei ddiffinio fel ymwelydd (e.e. mae ymweliadau â llochesi i bobl ddigartref, ac ymweliadau am driniaeth feddygol oherwydd anghenraid yn hytrach na dymuniad).

1.14 Fel rheol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r esemptiadau o'r farn y gallai hyn arwain at anghysondebau yn y fframwaith a allai ei wneud yn llai eglur a pheri baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety. Roedd eraill o'r farn y byddai esemptiadau yn annheg, o ystyried y ffaith bod pob ymwelydd yn cael budd o wasanaethau a seilwaith i ymwelwyr ac felly y dylai pob un gyfrannu at eu cynnal.

1.15 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid pennu unrhyw esemptiadau o fewn fframwaith gorfodol a nodir mewn deddfwriaeth. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros gytuno â'r esemptiadau oedd y farn y byddai

hyn yn hyrwyddo eglurder, cysondeb, tegwch, ac yn hwyluso prosesau monitro a gorfodi.

1.16 Roedd cryn anghytuno â'r cynnig i roi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol, oherwydd bod pobl yn ffafrio proses weithredu gyson a chlir, a phryderon ynghylch y baich gweinyddol a fyddai'n deillio o hyn a heriau wrth orfodi.

**Mathau o lety sydd o fewn y cwmpas**

1.17 Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno i raddau helaeth y dylai pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol fod o fewn cwmpas yr ardoll ymwelwyr oherwydd diffyg gwybodaeth am y diffiniadau a'r prosesau, diffyg cynllun cofrestru cenedlaethol, a'r tebygolrwydd y byddai'r ardoll yn cael effaith anghymesur ar ddarparwyr llety bach.

1.18 Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai darparwyr llety a osodir yn fasnachol fod wedi'u hesemptio rhag codi a chasglu'r ardoll. Roedd yr esemptiadau a awgrymwyd amlaf yn cynnwys busnesau nad oeddent yn cyrraedd trothwy penodol o ran trosiant, llety arbenigol, a llety rhad.

**Cynigion trwyddedu statudol**

1.19 Roedd mwyafrif bach o’r ymatebwyr yn anghytuno â’r syniad o ddarparu rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr i’r awdurdod treth, gan gynnwys pryderon ynghylch effeithiolrwydd y rhestr arfaethedig, a’r farn y gellid defnyddio systemau a chofrestrau presennol yn lle hynny. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn cytuno o'r farn y byddai rhestr yn golygu y byddai modd monitro a gorfodi'r ardoll yn effeithiol, gan sicrhau bod darparwyr llety yn atebol am eu cydymffurfiaeth.

1.20 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn helpu awdurdodau lleol i nodi darparwyr llety ymwelwyr lleol a gweithredu'r ardoll. Y rhesymau dros y farn hon a nodwyd amlaf oedd y byddai cofrestrau presennol yn fwy addas i ddiwallu anghenion awdurdodau lleol, a phryderon ynghylch effeithiolrwydd a thegwch y cynllun arfaethedig. Fel rheol, roedd y rhai a oedd yn cytuno o'r farn y byddai hyn yn golygu y gellid gweinyddu'r ardoll yn effeithiol ac yn sicrhau cysondeb â rheoliadau eraill.

**Math o gyfradd**

1.21 Nid oedd consensws clir ymhlith ymatebwyr ynghylch y math o gyfradd y dylid ei defnyddio ar gyfer ardoll ymwelwyr, er bod cytundeb cyffredinol y dylai'r gyfradd a ddewisir adlewyrchu egwyddorion tegwch, er mwyn osgoi unrhyw effeithiau gwrthgynyddol, a symlrwydd, er mwyn osgoi rhoi baich gweinyddol ar ddarparwyr llety.

1.22 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r syniad o roi'r un gyfradd ar waith ym mhob awdurdod lleol, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai hyn yn hyrwyddo cysondeb ac eglurder, yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn osgoi cystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd o blaid annibyniaeth leol o ran y math o gyfradd yn dadlau y byddai hyn yn helpu'r ardoll i addasu i amodau lleol.

1.23 Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros gefnogi ardoll fesul person, fesul noson yn cynnwys symlrwydd a rhwyddineb gweinyddu, ei gymesuredd â nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio gwasanaethau a seilwaith lleol, a chysondeb â chynsail rhyngwladol. Y baich ariannol a gweinyddol anghymesur a fyddai'n cael ei roi ar ddarparwyr llety rhad, a allai godi cost llety a ddefnyddir gan ymwelwyr ar incwm isel yn anghymesur hefyd, oedd y rhesymau a nodwyd amlaf gan y rhai a oedd yn erbyn y math hwn o gyfradd.

1.24 Fel rheol, rhwyddineb gweinyddu oedd y rhesymau a nodwyd gan y rhai a oedd o blaid cyfradd fesul noson, fesul ystafell. Roedd dadleuon yn erbyn y math hwn o gyfradd yn cynnwys yr effaith andwyol ar deithwyr unigol, a fyddai'n talu llawer mwy nag ymwelwyr mewn grŵp, a phryderon iechyd a diogelwch pe bai ymwelwyr yn cael eu cymell i roi mwy o bobl mewn ystafelloedd.

1.25 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid cyfradd ardoll ar sail canran o'r tâl am lety o'r farn bod y math hwn o gyfradd yn fwy blaengar ei natur ac y byddai modd ei addasu yn unol â phris yr ystafell. Fel rheol, roedd y rhai a oedd yn erbyn y math hwn o gyfradd yn bryderus y gallai atal darparwyr llety rhag buddsoddi mewn gwella ansawdd eu llety, yn ogystal â phryderon ynghylch y baich gweinyddol a fyddai'n deillio o hyn.

**Cyfradd drethadwy**

1.26 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn, i raddau amrywiol, y dylid ystyried galw tymhorol, amgylchiadau economaidd ehangach, ac elastigedd pris wrth bennu lefel cyfradd yr ardoll. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai fod yn werth cynnig hyblygrwydd o ran lefel y gyfradd mewn argyfyngau neu yn dibynnu ar y tymor.

1.27 At ei gilydd, roedd yn well gan yr ymatebwyr nifer byrrach o nosweithiau dilynol pan na fyddai'r ardoll yn gymwys mwyach, am y rheswm y gallai hyn annog pobl i aros am gyfnodau hwy ac, o ganlyniad, roi hwb i economïau ymwelwyr lleol. Fel rheol, roedd y rhai a oedd o blaid trothwy uwch o'r farn y byddai hyn yn fwy cymesur â defnydd ymwelwyr o adnoddau lleol.

1.28 Roedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn cytuno y dylai'r un gyfradd fod yn gymwys ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn gwneud y broses weithredu yn fwy cyson a deall nodau'r ardoll, hyrwyddo tegwch, lleihau cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol, a lleihau'r baich gweinyddol. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn credu y gellid addasu'r gyfradd yn unol ag amgylchiadau lleol.

1.29 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r un gyfradd gael ei chodi beth bynnag fo'r lleoliad o fewn yr ardal awdurdod lleol. Y prif resymau dros hyn oedd lleihau'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol, triniaeth gyson i bob darparwr, a gwell eglurder a dealltwriaeth o ddyluniad yr ardoll. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn dadlau y gallai amrywio'r gyfradd o fewn awdurdodau lleol wasgaru ymwelwyr mewn ffordd decach ar draws yr ardal, gan rannu effaith twristiaeth yn ehangach.

1.30 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â phennu cap neu ystod ar lefel y gyfradd gan y byddai hyn yn gwneud y broses gymhwyso yn fwy cyson, yn sicrhau chwarae teg ymhlith darparwyr, ac yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf eu cymunedau.

1.31 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio adolygiad blynyddol o gyfradd yr ardoll ymwelwyr, sef yr opsiwn amlaf a oedd ar gael, oherwydd eu bod o'r farn y byddai hyn yn golygu y gellid addasu'r gyfradd yn rheolaidd yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid ac amgylchiadau lleol ehangach.

### Cadw cofnodion a chyflwyno ffurflenni

1.32 Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr effaith darparu gwybodaeth, gan gynnwys yr adnoddau cyffredinol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r gofynion data angenrheidiol, megis buddsoddi mewn diweddaru a chysoni systemau gweinyddol ac archebu llety, a chostau staff ychwanegol. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod llawer o'r wybodaeth ofynnol eisoes yn cael ei chasglu yn y systemau archebu llety presennol.

1.33 Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr opsiynau i gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu yn llai aml, ac roedd y mwyafrif yn ffafrio'r opsiwn i'w cyflwyno'n flynyddol. Roedd y rhesymau o blaid ffurflenni blynyddol yn cynnwys cysondeb ag amlder y drefn bresennol ar gyfer dychwelyd ffurflenni treth a lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr llety.

### Gorfodi a chydymffurfio

1.34 O'r tri phŵer gorfodi a gynigiwyd, roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r awdurdod treth feddu ar bwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled er mwyn gorfodi cydymffurfiaeth. Yn fwyaf cyffredin, nododd ymatebwyr y byddai pwerau i ryddhau o ddyled yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol i addasu i gyfnodau o galedi economaidd i ddarparwyr, ac i amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ehangach.

### Defnyddio refeniw

1.35 Roedd ymatebwyr yn aml o blaid ymrwymo refeniw i gynnal a gwella'r seilwaith a'r gwasanaethau a ddefnyddir gan ymwelwyr. Roedd yr awgrymiadau penodol yn eang, gan gynnwys gwella rhwydweithiau trafnidiaeth, rheoli ecosystemau, marchnata cyrchfannau a hyrwyddo'r Gymraeg. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i glustnodi refeniw at y dibenion hyn, yn hytrach na rhoi disgresiwn llawn i awdurdodau lleol.

### Tryloywder ac ymgysylltu

1.36 Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref o blaid gweithgareddau ymgysylltu lleol er mwyn helpu i benderfynu sut y byddai refeniw o'r ardoll yn cael ei glustnodi. Y sefydliadau mwyaf cyffredin yr awgrymwyd y dylid ymgynghori â nhw oedd byrddau twristiaeth ac aelodau o'r diwydiant twristiaeth, Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau, busnesau a phreswylwyr yr effeithir arnynt, a chynghorau cymuned a thref.

1.37 Roedd cefnogaeth gref ar y cyfan o blaid cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r refeniw a gasglwyd a manteision ardoll ymwelwyr ar lefel leol hefyd. Roedd y rhesymau a roddwyd dros hyn yn cynnwys annog rhanddeiliaid i gefnogi'r ardoll a chreu amgylchedd o atebolrwydd.

**Amserlenni gweithredu**

1.38 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r defnydd o brosesau llywodraethu lleol i benderfynu ar sut i weithredu'r ardoll ymwelwyr, gan eu bod yn bryderus y gallai'r cynnig hwn arwain at anghysondebau o ran rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu, a dryswch ymhlith ymwelwyr a darparwyr llety. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr y gallai prosesau llywodraethu lleol helpu i ennyn cefnogaeth leol i'r ardoll.

1.39 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid cynnal ymgynghoriad lleol cyn cyflwyno'r ardoll. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai ymgynghoriad lleol yn gwella ymgysylltiad lleol a dealltwriaeth o effeithiau andwyol posibl, gan gynnig ffyrdd o'u lliniaru.

1.40 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid dyddiad gweithredu penodol ar gyfer cyflwyno'r ardoll gyda chyfnod sylweddol o rybudd ymlaen llaw. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai cyfnod rhybudd yn rhoi amser i ddarparwyr llety baratoi ar gyfer cyflwyno'r ardoll, ac i ymwelwyr gael gwybod sut y bydd yr ardoll yn effeithio arnynt.

**Modelau gweithredu**

1.41 Nid oedd dewis amlwg o ran y model cyflwyno a ffefrir, er y byddai'n well gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r broses o weithredu a gweinyddu'r ardoll fod yn rhannol ganoledig o leiaf.

1.42 O blith yr opsiynau a gynigiwyd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio proses weithredu a gweinyddu cwbl ganoledig. Y manteision a godwyd amlaf mewn perthynas â phroses weithredu a gweinyddu ganoledig oedd costeffeithiolrwydd, cysondeb a symlrwydd y broses weithredu, ac effeithiau cadarnhaol ar ddarparwyr sy'n gweithredu mewn sawl awdurdod lleol.

1.43 Ar y llaw arall, nododd rhai ymatebwyr fanteision elfen rannol leol o leiaf o'r broses o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu. Y manteision a nodwyd amlaf oedd gallu gwell i addasu i anghenion lleol.

**Y Gymraeg**

1.44 Er nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn benodol o ran effaith yr ardoll ymwelwyr ar y Gymraeg, mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryder y gallai unrhyw ddirywiad mewn twristiaeth o ganlyniad i ardoll leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â chael effaith negyddol bosibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar y llaw arall, nododd rhai ymatebwyr y gellid defnyddio refeniw a godir drwy ardoll i hyrwyddo'r Gymraeg.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir i'r ymgynghoriad

2.1 Mae'r economi ymwelwyr yn ffynhonnell bwysig ledled Cymru o ran swyddi a thwf economaidd. Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru drwy gefnogi cymunedau lleol mewn ffordd sy'n gynaliadwy i dir ac amgylchedd Cymru, gan ddatblygu fframwaith sydd o fudd i ymwelwyr a dinasyddion.

2.2 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 – a gynhelir mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio – yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ar ymwelwyr â Chymru.

2.3 Byddai cyflwyno ardoll o'r fath, a'i ddefnyddio wedi hynny, yn galluogi awdurdodau lleol i godi refeniw pellach i ailfuddsoddi yn yr amodau sy'n gwneud twristiaeth yn llwyddiant. Byddai'r ardoll yn cael ei roi ar waith fel treth leol a byddai'r pwerau i godi'r ardoll yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol. Byddai hyn yn golygu y gellid gwneud penderfyniadau yn lleol, yn unol ag anghenion cymunedau yng Nghymru.

## Ffurf yr ymgynghoriad

2.4 Ar 20 Medi 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i roi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd. Roedd hyn yn cynnwys ceisio adborth ar yr opsiynau dylunio posibl ar gyfer ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Drwy'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dylunio a gweithredu treth sy'n gyson â'i hegwyddorion treth craidd:

- Yn codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl.
- Yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
- Yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
- Yn cael ei datblygu drwy gydweithio a chynnwys pobl.
- Yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

2.5 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Rhagfyr 2022.

2.6 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein drwy borth ar-lein ac roedd yn cynnwys 35 o gwestiynau fformat caeedig a 51 o gwestiynau fformat agored testun rhydd (yn ogystal â dau gwestiwn am gefndiroedd a busnesau ymatebwyr). Yn ogystal, gallai ymatebwyr ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad drwy e-bost neu drwy'r post.

2.7 Comisiynwyd Alma Economics i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad hwnnw, gan gynnwys disgrifiad o'r fethodoleg, a chrynodeb fesul cwestiwn o farn a theimladau'r ymatebwyr.

# 3. Dull gweithredu a methodoleg

## Prosesu data

3.1 Cafwyd 1,286 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 1,005 o ymatebion i'r prif arolwg a gyflwynwyd yn electronig, 155 o ymatebion copi caled a gafwyd drwy e-bost a thrwy'r post mewn ymateb i'r prif arolwg, a 126 o ymatebion i fersiwn Ieuenctid a Chymunedol o'r ymgynghoriad â fformat wedi'i addasu. Ymdriniwyd â phob ymateb yn gyfartal ni waeth sut y daeth i law. Dim ond atebion rhannol a gafwyd gan y mwyafrif o ymatebwyr (79%), am na wnaethant ateb yr holl gwestiynau meintiol.

3.2 Wrth adolygu'r ymatebion â llaw, sgriniodd y tîm ymchwil ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch wedi'i threfnu neu a oedd yn amlwg wedi'u bwriadu i fod yn sarhaus, yn ddifrïol neu'n ddi-chwaeth. Nododd y tîm nifer bach o ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch, ond nid digon i ystumio ein canfyddiadau, felly ni wnaed addasiad.

## Dull dadansoddi meintiol

3.3 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 35 o gwestiynau fformat caeedig, ac ymgymerwyd â dadansoddiad disgrifiadol o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn gan ddefnyddio Python. Mae'r prif destun yn dadansoddi'r ymatebion i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Mae pob cwestiwn yn cynnwys siart sy'n crynhoi'r ymatebion fel canran yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r fersiwn Ieuenctid a Chymunedol o holiadur yr ymgynghoriad yn Atodiad 1.

## Dull dadansoddi thematig ansoddol

3.4 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 51 o gwestiynau fformat agored â meysydd testun rhydd. Er mwyn dadansoddi'r ymatebion hyn, defnyddiodd y tîm ymchwil ddull a oedd yn cyfuno prosesau codio awtomataidd ac â llaw.

### Datblygu llyfr codau cychwynnol o themâu

3.5 Gan ddilyn y dull gweithredu a ddatblygwyd gan Fereday a Muir-Cochrane (2007), datblygodd y tîm set gychwynnol o themâu a syniadau yn seiliedig ar yr ymgynghoriad, dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi a geiriad cwestiynau penodol (y cam casgliadol), ac ychwanegwyd themâu pellach fel rhan o'r

broses adolygu (y cam sefydlu). Ffurfiodd y set hon o themâu sail llyfr codau a ddefnyddiwyd i sicrhau cysondeb ymhlith aelodau'r tîm ymchwil, ac adolygwyd pob thema yn y llyfr codau nes i'r tîm gytuno ar feini prawf ac enghreifftiau o'r themâu.

### Codio cychwynnol â llaw

3.6 Ar gyfer ymatebion a gafwyd a oedd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad, cafodd sampl o oddeutu 100 o ymatebion testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn fformat agored ei hadolygu â llaw a'i chodio yn themâu, ac ychwanegodd aelodau'r tîm at y llyfr codau yn ôl yr angen. Adolygwyd y codau gan ail godydd fel rhan o broses sicrhau ansawdd. Cafodd ymatebion unigol a gafwyd drwy e-bost a oedd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad eu trin yn yr un ffordd â'r rhai a gyflwynwyd drwy borth yr ymgynghoriad.

### Dadansoddiad awtomataidd ac â llaw integredig o destun

3.7 Oherwydd bod nifer mawr o ymatebion, defnyddiwyd dull dadansoddi testun awtomataidd i efelychu'r broses godio â llaw, gan alluogi'r tîm ymchwil i neilltuo sgôr i bob thema yn ôl pa mor aml roedd yn codi. Roedd y dull gweithredu hwn yn dilyn proses tri cham:

- Yn gyntaf, defnyddiodd y tîm ymchwil fodel dysgu peirianyddol dan oruchwyliaeth a oedd yn allosod y themâu a nodwyd yn y sampl o ymatebion testun rhydd er mwyn “labelu” pob ymateb arall i'r cwestiwn.
- Yn ail, edrychodd y tîm dros yr ymatebion a labelwyd yn awtomatig a rhoi adborth ar ba ymatebion a labelwyd yn gywir neu'n anghywir.
- Yn drydydd, ymgorfforwyd yr adborth hwn yn y model dysgu peirianyddol fel rhan o broses dysgu gweithredol i lunio set ddiwygiedig o “labeli” themâu ar gyfer ymatebion (gan ystyried mewnbwn y tîm ymchwil o'r gwaith a wnaed â llaw).
- Ailadroddwyd y broses tri cham hon nes bod y tîm ymchwil yn gytûn ar 80% o'r themâu a neilltuwyd gan y broses dadansoddi testun awtomataidd o fewn y sampl o ymatebion. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â thystiolaeth academaidd ac arferion gorau o ran dadansoddi testun.

## Dadansoddiad thematig

3.8 Ar gyfer pob cwestiwn penagored, ceir crynodeb disgrifiadol o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad awtomataidd ac â llaw integredig o'r testun, yn ogystal ag ymatebion a roddwyd i'r naill ochr yn ystod y cam glanhau data. Mae'r themâu a nodwyd yn adlewyrchu themâu a godwyd yn y prif arolwg, mewn copïau caled ac yn yr holiadur Ieuenctid a Chymunedol. Er ei bod yn anodd nodi'r union nifer o ymatebion a glustnodwyd i bob thema, cyflwynir y themâu yn nhrefn fras nifer yr ymatebion cyfatebol.


3.9 Mae dyfyniadau unigol wedi'u cynnwys lle y bo'n briodol er mwyn dangos y naratif mewn perthynas â themâu penodol, a dim ond gan ymatebwyr a roddodd ganiatâd i'w safbwyntiau gael eu cyhoeddi y dewiswyd dyfyniadau, a dilëwyd unrhyw fanylion adnabod posibl (megis enw sefydliad penodol). Dewisodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (59%) a atebodd y cwestiwn ar gyfrinachedd data aros yn ddienw.

# 4. Crynodeb o'r canfyddiadau

4.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith o ddadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ddechrau gyda dadansoddiad o broffil yr ymatebwyr a symud ymlaen i grynhoi'r ymatebion i bob cwestiwn. Mae'r ymatebion wedi'u dadansoddi yn nhrefn y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, a'u grwpio yn ôl y pwnc y maent yn ymwneud ag ef.

## Proffil yr ymatebwyr

Ffigur 1. Dosbarthu busnesau ymatebwyr yn ôl nifer y cyflogeion




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 700 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 64% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.2 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebawyr a atebodd y cwestiwn hwn (81% neu 570 o ymatebwyr) fod eu busnes o faint micro, sef busnes â llai na 10 cyflogai. Yr ail faint busnes mwyaf cyffredin (10% neu 67 o ymatebwyr) oedd bach, sef busnes â 10-49 o gyflogeion. Nodwyd busnesau canolig a mawr yr un nifer o weithiau fwy neu lai, sef 5% (neu 32 o ymatebwyr) a 4% (neu 31 o ymatebwyr) o ymatebwyr, yn y drefn honno.

Tabl 1. Dosbarthiad ymatebwyr yn ôl y math o lety ymwelwyr

| Math o lety | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| **Llety hunanddarpar** | 64% |
| **Maes neu barc gwersylla** | 10% |
| **Gwely a brecwast** | 8% |
| **Gwesty** | 7% |
| **Parc gwyliau** | 6% |
| **Llety glampio** | 5% |
| **Parc teithio** | 4% |
| **Tŷ llety** | 4% |
| **Ffermdy** | 3% |
| **Hostel neu lety tebyg** | 2% |
| **Bwyty ag ystafelloedd** | 1% |
| **Pentref gwyliau** | 1% |
| **Cwch camlas, cwch modur neu gwch hwylio** | 1% |
| **Llety ar gampws** | 1% |
| **Arall** | 15% |

Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 653 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 65% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.3 Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn ymateb ar ran sefydliad a atebodd y cwestiwn hwn (64% neu 421 o ymatebwyr),[1] mai llety hunanddarpar oedd ganddynt. Yr ail fath mwyaf cyffredin o lety (10% neu 64 o ymatebwyr) oedd maes neu barc gwersylla, ac yna lety gwely a brecwast (8% neu 51 o ymatebwyr), gwestai (7% neu 45 o ymatebwyr), a pharciau gwyliau (6% neu 41 o ymatebwyr).

[1] Nid yw'r canrannau a ddyfynnir yn y paragraff hwn ac a gyflwynir yn y tabl yn ffurfio cyfanswm o 100%. Mae hyn oherwydd bod hwn yn gwestiwn amlddewis, sy'n golygu y gallai pob ymatebydd ddewis mwy nag un ateb. Cyfrifir y canrannau a ddyfynnir mewn perthynas â nifer yr ymatebwyr, yn hytrach na nifer yr ymatebion.

4.4 Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr (15% neu 95 o ymatebwyr) hefyd o'r farn nad oedd yr un o'r categorïau a oedd ar gael yn addas i'w sefydliad. Mae hyn yn cynnwys y 15 awdurdod lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad, elusennau, sefydliadau sector cyhoeddus, parciau cenedlaethol ac unigolion.

## Diben a chwmpas y dreth


4.5 Mae'r bennod hon yn cyflwyno barn ar godi ardoll ar ymwelwyr undydd a gweithgareddau eraill a sut y gallai hyn weithio'n ymarferol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar y mater hwn.

---

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr er mwyn cynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr?

---

Ffigur 2. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno y dylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 1,019 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 94% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (78% neu 799) yn anghytuno y dylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr er mwyn cynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a ymhelaethodd ar y rhesymau y tu ôl i’w barn ar y cwestiwn hwn

ar yr agwedd leol neu ganolog ar weithredu, yn hytrach na gweithredu’r ardoll ei hun.

## Themâu yn erbyn pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr

### Mwy o faich gweinyddol

4.7 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn erbyn y cynnig i roi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr am eu bod o'r farn y byddai defnyddio dull gweithredu lleol i roi'r ardoll ar waith yn cynyddu'r baich gweinyddol a'r baich o ran cydymffurfio yn sylweddol i bob rhanddeiliad. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn bryderus pe bai'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei ysgwyddo gan awdurdodau lleol, yna byddai'n rhaid iddynt goladu ffurflenni gan bob darparwr llety o fewn y cwmpas a gorfodi cydymffurfiaeth. Awgrymodd rhai y gallai hyn olygu y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol gyflogi personél ychwanegol neu symud gweithwyr presennol i swyddi gweinyddol, gan amharu ar swyddogaethau eraill awdurdodau lleol o bosibl. Yn yr un modd, nododd rhai darparwyr llety y byddai ardoll ymwelwyr a weinyddir yn ganolog yn haws ei reoli a chydymffurfio ag ef hefyd.

> *“Rhwyddineb gweinyddol: dylai talu rhwymedigaethau treth fod yn broses syml nad yw'n feichus i'r trethdalwr na'r sawl sy'n ei chasglu” (Sefydliad o'r diwydiant busnes)*

> *“Credwn yn gryf y dylai unrhyw ardoll ymwelwyr fod yn Gynllun Canoledig ar gyfer Cymru gyfan, fel bod pawb dan sylw yn gweithio o fewn yr un ffiniau. Bydd hyn yn gwneud y cynllun yn haws ei ddeall i'r cwsmer terfynol ac yn symleiddio'r broses o'i weinyddu” (Awdurdod lleol)*

### Rhoi'r ardoll ar waith yn gyson

4.8 Yr ail thema fwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad yn y cwestiwn oedd y farn y dylid rhoi'r ardoll ar waith mewn ffordd gyson ledled y wlad. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai dull cenedlaethol cyson o roi'r ardoll ar waith yn hyrwyddo symlrwydd, prosesau monitro effeithiol a thryloywder yr ardoll ar lefel genedlaethol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai dull gweithredu cenedlaethol yn hyrwyddo

tegwch, gan y byddai fframwaith cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob darparwr llety yng Nghymru. Yn olaf, awgrymodd rhai ymatebwyr a oedd o blaid cysondeb y byddai rhoi'r ardoll ar waith ar lefel genedlaethol yn hyrwyddo camau i greu partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, gan arwain at weinyddu'r ardoll yn fwy effeithlon.

*“Mae'r trethi twristiaeth gorau yn hawdd eu deall a'u gweinyddu. Cael fframwaith cyson ledled Cymru fyddai'r ffordd orau o godi treth o'r fath ac osgoi cymhlethdodau diangen sy'n arwain at godi neu gyfrifo'r dreth yn anghywir.” (Ymateb dienw)*

*“Gallai prosiectau trawsranbarthol (neu hyd yn oed ledled Cymru) sicrhau bod yr ardoll yn cael cymaint o effaith â phosibl, ond mae prosiectau cydweithredol a chydweithio rhanbarthol yn annhebygol oni bai eu bod yn rhan amlwg o ganllawiau statudol. Hyd yn oed wedyn gallai dyraniad teg arwain at wrthdaro. Yn olaf, o ystyried pryderon y diwydiant, byddai ardoll canolog yn rhoi gwell eglurder a chysondeb i fusnesau yn ogystal â dull gweithredu mwy cydgysylltiedig o gyfathrebu a marchnata. ” (Elusen)*

**Cystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol**

4.9 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan y rhai a oedd yn anghytuno â’r datganiad hwn oedd cymhellion anffafriol posibl i awdurdodau lleol gystadlu yn erbyn ei gilydd am ddarparwyr llety ac ymwelwyr. Nododd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y gallai gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol o ran sut y caiff ardoll ei roi ar waith gymell darparwyr llety i symud i ardaloedd â llai o faich gweinyddol a chost ariannol. Awgrymwyd hefyd y gallai gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff yr ardoll ei roi ar waith yn lleol wyrdroi patrymau ymwelwyr ar draws ardaloedd awdurdod lleol, gydag ymwelwyr yn cael eu denu gan lety mwy fforddiadwy wrth ddewis ymweld ag ardal. Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r gystadleuaeth hon beri i awdurdodau lleol benderfynu peidio â rhoi'r ardoll ar waith. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu y gallai awdurdodau lleol gamddefnyddio'r pwerau disgresiynol er budd gwleidyddol byrdymor, er enghraifft, denu mwy o ymwelwyr wrth anwybyddu'r effeithiau hirdymor posibl ar wasanaethau lleol.

*“Yn yr un modd, mae risgiau yn gysylltiedig â phrosesau gwneud penderfyniadau lleol mewn perthynas â buddiant busnes unigolion a gwleidyddiaeth leol, a ddaeth i'r amlwg i raddau yn ystod y digwyddiadau ymgynghori. Gallai ardoll canolog ddefnyddio data gwrthrychol mewn ffordd fwy llym a thecach mewn perthynas â'r nifer amcangyfrifedig o ymwelwyr, yn ogystal â nodi meysydd allweddol ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.” (Elusen)*

*“Gallai canlyniad anfwriadol posibl natur ddewisol yr ardoll gynnwys defnyddio'r penderfyniad i beidio â chodi’r ardoll er mwyn hyrwyddo manteision aros mewn un ardal yn hytrach nag ardal arall lle codir yr ardoll, gan greu ystumiadau economaidd rhwng ardaloedd awdurdod lleol o bosibl (a gyda darparwyr llety yn Lloegr, yn agos at y ffin, efallai).” (Ymateb dienw)*

## Themâu o blaid pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr

### Rhoi hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer amgylchiadau lleol

4.10 Y thema fwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw oedd y farn y byddai pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr yn galluogi awdurdodau lleol i addasu yn unol ag amgylchiadau penodol ardaloedd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn, ac awdurdodau lleol yn benodol, fod pob ardal yn denu gwahanol fathau o ymwelwyr a darparwyr llety, ac felly fod angen dull gweithredu wedi'i deilwra er mwyn sicrhau bod yr ardoll yn cael cymaint o effaith â phosibl, gan sicrhau cynaliadwyedd y sector twristiaeth ar yr un pryd. Nododd rhai ymatebwyr nad yw eu hardal yn denu llawer o ymwelwyr, felly byddai peidio â rhoi'r ardoll ar waith o fudd iddynt, a theimlai eraill y byddai'r ardoll yn rhoi ffordd iddynt fynd i'r afael ag effeithiau negyddol twristiaeth yn ystod cyfnodau brig. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon fod datblygiadau megis pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi cael effeithiau anghyson ledled awdurdodau lleol, a thrwy hynny greu'r angen am bolisïau lleol er mwyn mynd i'r afael â nhw. Yn olaf, awgrymwyd y byddai pwerau disgresiynol i godi ardoll yn galluogi awdurdodau lleol i roi'r ardoll ar waith yn ddiweddarach, pan fydd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi adfer.

*"Rydym yn cydnabod y bydd y manteision a'r costau sy'n gysylltiedig â derbyn ymwelwyr yn amrywio ledled Cymru. Bydd llawer iawn o ymwelwyr yn ymweld â rhai rhannau o Gymru ar adegau prysur (h.y. yn ystod yr haf) sy'n peri straen i wasanaethau a seilwaith lleol. Yr ardaloedd hynny a fyddai'n cael y budd mwyaf o ardoll. […] Ein nod yw rhoi'r awdurdod i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau yn unol ag anghenion eu cymunedau. Mae hyn yn cyd-fynd â dull polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi lleol." (Ymateb dienw)*

*"Yn ystod y cyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw, a'r cynnydd enfawr mewn costau ynni. Bydd rhoi'r dreth hon ar waith nawr neu yn y dyfodol agos yn niweidiol i'n busnes/diwydiant hunanddarpar." (Darparwr llety)*

---

**Cwestiwn 2:** Oes gennych chi farn ynghylch a ddylid codi ardoll ar unrhyw fath arall o weithgaredd yn ogystal ag ymwelwyr dros nos (e.e. ymwelwyr undydd) a, os felly, pe weithgaredd rydych chi'n credu y dylid codi ardoll arno a sut rydych chi'n credu y byddai hyn yn gweithio yng nghyd-destun Cymru?

---

**Pryderon ymarferol ynghylch codi'r ardoll ar unrhyw weithgaredd arall**

4.11 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd anghytundeb â chodi'r ardoll ar unrhyw fathau eraill o weithgareddau heblaw am ymwelwyr dros nos (e.e. ymwelwyr undydd). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd hyn o'r farn na fyddai'n ymarferol trethu unrhyw weithgaredd arall, gan y byddai nodi mathau eraill o ymwelwyr yn anymarferol ac yn ychwanegu'n sylweddol at faich gweinyddol ardoll. Yn ogystal, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai trethu gweithgareddau eraill gael effaith andwyol ar drigolion a allai gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn hefyd.

*"O'n profiad ni, byddai bron yn amhosibl trethu gweithgareddau eraill (e.e. ymwelwyr undydd). Ardollau ar arosiadau dros nos yw bron pob treth dwristiaeth a godir ym mhedwar ban byd. Mae hyn oherwydd bod modd dilysu a chasglu'r dreth wrth gofnodi i mewn/allan, pan fydd darparwr llety*

*yn rhyngweithio â theithwyr wyneb yn wyneb fel arfer." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

*"Ni fyddai'n ymarferol codi treth o'r fath ar ymwelwyr undydd – sut mae nodi pwy yw'r bobl hyn pan allent fod yn mynd am dro ar lan y môr fel ffordd o fwynhau cyrchfan i dwristiaid? Gallai ymwelwyr undydd orfod talu sawl ardoll neu ddim o gwbl yn dibynnu ar yr hyn y maent yn ei wneud." (Darparwr llety)*

**Dylid codi'r ardoll ar ymwelwyr undydd, o ystyried eu bod yn cyfrannu llai at economïau lleol**

4.12 Yr ail thema a gododd amlaf oedd y farn y dylai ymwelwyr undydd dalu'r ardoll ymwelwyr hefyd gan eu bod yn cyfrannu llai at economïau ymwelwyr lleol nag ymwelwyr dros nos. Nododd rhai ymatebwyr nad yw ymwelwyr undydd yn aros mewn ardal yn ddigon hir i wario swm sylweddol yn lleol, tra bo cysylltiad rhwng ymwelwyr dros nos a hybu gwariant ar fusnesau llety, adloniant a bwytai, ymhlith eraill.

*"Mae tystiolaeth bod ymwelwyr dros nos yn cyfrannu llawer mwy at economïau ymwelwyr lleol nag ymwelwyr undydd. Mae ymwelwyr dros nos yn fwy tebygol o wario arian mewn siopau a thafarndai lleol, ac aros mewn llety lle mae angen staff cynnal a chadw. […] I'r gwrthwyneb, mae cyfartaledd tair blynedd a adroddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod y teithiwr undydd cyfartalog wedi gwario £42 rhwng 2017 a 2019, tra bo'r ymwelydd dros nos cyfartalog yn gwario £184 dros yr un cyfnod." (Ymateb dienw)*

*Byddai'n hurt cosbi'r categori mwyaf buddiol o ymwelwyr yn unig (h.y. y rhai sy'n aros dros nos) a pheidio â chasglu unrhyw refeniw gan y rheini sy'n effeithio ar y cyrchfan heb gynnig y budd mwyaf – h.y. ymwelwyr undydd." (Corff o'r diwydiant busnes)*

**Dylid codi'r ardoll ar ymwelwyr undydd, o ystyried eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd**

4.13 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y dylid codi ardoll ar ymwelwyr undydd, o ystyried eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r straen ar yr amgylchedd. Dadleuodd yr ymatebwyr a

gododd y thema hon fod ymwelwyr undydd yn cael cryn effaith ar wasanaethau a seilwaith lleol (gan gynnwys sbwriel, toiledau cyhoeddus a phriffyrdd), ac felly y dylent hwythau gyfrannu at eu cynnal. Nododd rhai ymatebwyr mai ymwelwyr undydd a gaiff eu denu i Gymru gan mwyaf, gan amlygu effaith ymwelwyr undydd ymhellach a'r angen i godi'r ardoll arnynt.

*"Mae rhai cyrchfannau yn denu'r farchnad ymwelwyr undydd yn bennaf, gan roi pwysau difrifol ar wasanaethau lleol ond gan gynhyrchu adenillion llai o fuddsoddi fesul ymwelydd na'r farchnad ymwelwyr sy'n aros. Mewn achosion o'r fath, os caiff yr ardoll ymwelwyr ei roi ar waith, dylid ystyried y posibilrwydd o godi ardoll ar y farchnad ymwelwyr undydd yn ogystal â'r farchnad ymwelwyr sy'n aros." (Awdurdod lleol)*

*"Mae ymwelwyr undydd yn cael effaith sylweddol o ran pwysau ar wasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â phriffyrdd, trafnidiaeth, hawliau tramwy, toiledau, arwyddion iechyd a diogelwch ac ati, ac ati. Yn aml, ychydig y bydd ymwelwyr undydd yn ei gyfrannu at yr economi leol, os o gwbl, ond eto maent yn cael effaith sylweddol o ran eu defnydd o adnoddau." (Sefydliad rheoli tir)*

**Dylai ardoll fod yn gymwys i bob math o lety ac ymweliad**

4.14 Y thema nesaf a gododd amlaf oedd y farn y dylid ystyried pob math o lety ac ymweliad o fewn cwmpas yr ardoll. Nododd rhai ymatebwyr y byddai ehangu cwmpas yr ardoll yn hyrwyddo tegwch drwy osgoi gorlwytho mathau penodol o ddarparwyr llety, wrth hefyd sicrhau bod pob ymwelydd yn cyfrannu at gynnal gwasanaethau a seilwaith cyhoeddus.

*"Mae'n rhaid codi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros ym mhob math o lety twristiaeth yn gyffredinol. Mae'n rhaid cynnwys gwestai, llety gwely a brecwast, hostelau, llety gwyliau, meysydd gwersylla, a phob math arall o lety twristiaeth o fewn y cwmpas er mwyn i'r dreth fod yn deg ac yn effeithiol." (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Os yw Llywodraeth Cymru yn chwilio am fargen 'deg' rhwng preswylwyr ac ymwelwyr, yna rhaid iddi fod yn 'deg' fel rhwng gwahanol fathau o ymwelwyr. Nid yw ymwelydd sy'n aros am ychydig nosweithiau mewn llety*

*gwyliau proffesiynol, nad yw'n defnyddio llawer ar ei gar ac sy'n cyfrannu at goffrau'r cyngor drwy gynnal y galw am fusnesau lleol yn fwy cyfrifol na phreswylwyr am ymwelydd sy'n gwersylla mewn cilfan, yn gadael ei wastraff personol mewn toiled cyhoeddus neu ar y traeth ac yn dod â'i fwyd gydag ef." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Awgrymiadau eraill**

4.15 Awgrymodd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fathau eraill o weithgareddau a allai gael eu cynnwys o fewn cwmpas ardoll ymwelwyr. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys codi ardoll ar ffioedd parcio, tâl mynediad i gyrchfannau poblogaidd, digwyddiadau masnachol, a'r defnydd o brif ffyrdd. Roedd y rhai a awgrymodd y gweithgareddau arfaethedig o'r farn y byddent yn hwyluso sylfaen drethu uwch, rhwyddineb gweithredu, ac yn cyfyngu ar effeithiau andwyol ar wasanaethau lleol.

*"Fodd bynnag, gall fod yn bosibl cyflwyno ardoll ar dâl mynediad i safleoedd penodol yng Nghymru sy'n cael nifer mawr o ymwelwyr. Mae'n bosibl y byddai codi ardoll fel hyn yn ffordd well o dargedu ymwelwyr sy'n defnyddio adnoddau lleol heb gyfrannu at yr economi leol." (Ymateb dienw)*

*"Fodd bynnag, efallai y byddai codi cyfradd (tymhorol) uwch am wasanaethau presennol y telir amdanynt, megis parcio, mewn ardaloedd â llawer o ymwelwyr yn opsiwn i'w ystyried ynghyd ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol, megis cynnydd mewn parcio byrdymor ac anghyfreithlon ar ochr y ffordd (neu gostau gorfodi uwch er mwyn atal hyn)." (Ymateb dienw)*

*"Os yw Llywodraeth Cymru yn benderfynol o drethu ymwelwyr, pam ddim cyflwyno cynllun tollau ar y prif ffyrdd i mewn ac allan o Gymru sy'n codi tâl ar bob cerbyd sy'n dod i mewn i'r wlad (ac nad yw wedi'i gofrestru yng Nghymru)." (Darparwr llety hunanddarpar)*

**Cymhellion anffafriol i ymwelwyr a darparwyr**

4.16 Y thema fwyaf cyffredin olaf a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y gallai codi'r ardoll ar ymwelwyr dros nos yn unig gael effaith andwyol ar

ymddygiadau darparwyr llety ac ymwelwyr. Nododd ymatebwyr a gododd y thema hon y gallai codi ardoll ar ymwelwyr dros nos yn unig eu datgymell rhag aros yn eu cyrchfannau dros nos, gan olygu y byddai'n rhaid i ddarparwyr addasu eu cynnig er mwyn darparu ar gyfer ymwelwyr undydd.


> *"Yn aml caiff trethi eu defnyddio'n fwriadol i newid ymddygiad defnyddwyr (er enghraifft, lleihau'r defnydd o danwydd, tybaco neu siwgr). Gallai trethu ymwelwyr dros nos gael yr un effaith a chynyddu cyfran yr ymwelwyr undydd, y gwyddys bod eu heffaith economaidd yn llawer llai nag ymwelwyr sy'n aros." (Awdurdod lleol)*

## Fframwaith treth (deddfwriaeth)

4.17 Mae'r bennod hon yn cyflwyno barn ynghylch a ddylid gwneud mwy o benderfyniadau'n lleol ar agweddau eraill ar yr ardoll.

**Cwestiwn 3:** Ein barn ni yw y byddai'r fframwaith treth (deddfwriaeth) sy'n nodi sut y byddai'r ardoll yn cael ei roi ar waith a'i weithredu yn sicrhau y caiff yr ardoll ei roi ar waith yn gyson ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, ceir rhai agweddau, megis pennu cyfraddau ac esemptiadau a phenderfynu sut y caiff refeniw ei ddefnyddio, lle y gall annibyniaeth leol fod yn fuddiol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r safbwynt hwn?

Ffigur 3. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod annibyniaeth leol mewn perthynas â rhai agweddau ar y fframwaith treth




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 950 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 87% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (66% neu 630 o ymatebwyr) yn anghytuno bod rhai agweddau ar ardoll, megis pennu cyfraddau ac esemptiadau a phenderfynu sut y caiff refeniw ei ddefnyddio, lle y gall annibyniaeth leol fod yn fuddiol.

## Themâu yn erbyn annibyniaeth leol yn y fframwaith treth

### Gallai annibyniaeth amharu ar gysondeb a phrosesau gorfodi'r ardoll

4.19 Y rheswm a godwyd amlaf dros anghytuno ag annibyniaeth leol yn y fframwaith treth oedd yr angen awgrymedig am gysondeb a phrosesau i orfodi'r ardoll. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai annibyniaeth leol yn arwain at roi'r ardoll ar waith mewn ffordd anghyson ar draws awdurdodau, a thrwy hynny, amharu ar ddulliau monitro a gorfodi effeithiol. Nododd ymatebwyr eraill y gallai dulliau gweithredu anghyson greu baich afreolaidd i ddarparwyr llety mewn awdurdodau lleol gwahanol a fyddai'n defnyddio'r ardoll.

> *"Awgrymwn y dylai agweddau megis y math o gyfradd ac esemptiadau gael eu nodi mewn fframwaith treth cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau elfennau amwys. Byddai cael fframwaith cenedlaethol yn helpu busnesau sy'n gweithredu mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol ac yn ei gwneud yn haws i ymwelwyr ddeall yr ardoll." (Ymateb dienw)*

> *"Fodd bynnag, wrth edrych yn benodol ar gyfraddau ac esemptiadau, [...] dylai'r rhain fod yn gyson ym mhob awdurdod lleol sy'n dewis rhoi'r ardoll ar waith. Byddai caniatáu i awdurdodau lleol bennu cyfraddau unigol yn creu cryn broblemau o ran cystadleuaeth rhwng ardaloedd lleol, gan gynyddu anghydraddoldeb rhanbarthol." (Ymateb dienw)*

### Cymhellion anffafriol yn peri cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol

4.20 Yr ail reswm a grybwyllwyd amlaf dros wrthwynebu annibyniaeth leol oedd y pryder y gallai arwain at gystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol i ddenu darparwyr llety ac ymwelwyr. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys nifer o awdurdodau lleol, o'r farn y gallai rhai awdurdodau lleol ddewis peidio â rhoi'r ardoll ar waith o gwbl, creu esemptiadau amrywiol, neu godi cyfradd is nag awdurdodau cyfagos er mwyn cael mantais gystadleuol.

> *"Er mwyn osgoi'r risg a'r posibilrwydd o ganlyniadau nas rhagwelwyd ar ffurf 'cystadleuaeth fewnol', dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu'r un cyfraddau ac esemptiadau (h.y. un ardal awdurdod lleol*

*yn codi ardoll is nag un arall er mwyn ennill 'cyfran o'r farchnad')." (Awdurdod lleol)*

*"Er mwyn bod yn gyson ac yn deg, a sicrhau nad oes effaith andwyol ar gystadleuaeth a thrwy hynny, gydymffurfio â rheoliadau cymhorthdal, byddem yn dadlau o blaid rhoi un math o gyfradd ar waith ledled Cymru ac i esemptiadau gael eu nodi'n fanwl yn y ddeddfwriaeth." (Awdurdod lleol)*

**Gallai annibyniaeth leol arwain at ddiffyg eglurder i ymwelwyr a darparwyr llety**

4.21 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno ag annibyniaeth leol oedd y farn y gallai fframwaith cyfreithiol a oedd yn darparu ar gyfer annibyniaeth leol arwain at ddiffyg eglurder a thryloywder ynghylch fframwaith cymwys yr ardoll mewn perthynas ag ymwelwyr a darparwyr llety.

*"Rydym yn cytuno y dylai'r fframwaith treth gael ei osod yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, ond nid ydym yn credu y dylai awdurdodau lleol allu amrywio agweddau ar y dreth, megis cyfraddau ac esemptiadau. Byddai system o'r fath yn gymhleth ac yn ddryslyd heb fod angen, gan arwain at anawsterau o ran sut y caiff y dreth ei chyfrifo a'i chasglu." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

*"Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu bwrw ati gyda'r dull gweithredu hwn, ystyrir y gallai arwain at ddryswch ac ansicrwydd i ymwelwyr, busnesau twristiaeth ac awdurdodau lleol." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid annibyniaeth leol yn y fframwaith treth

**Annibyniaeth leol yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau lleol**

4.22 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd ymhlith ymatebwyr a oedd o blaid mwy o annibyniaeth leol yn y fframwaith treth oedd y farn y byddai annibyniaeth leol o ran agweddau eraill ar y fframwaith treth yn galluogi awdurdodau lleol i ymdrin ag anghenion a heriau lleol. Nododd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ac awdurdodau lleol yn arbennig, fod gan awdurdodau lleol wybodaeth fanwl am eu sector twristiaeth lleol a'u bod mewn sefyllfa unigryw i benderfynu ar y

math a'r lefel briodol o gyfradd er mwyn mynd i'r afael â heriau penodol eu hardal.

> *"Mae annibyniaeth yn golygu y gellir defnyddio'r ardoll i dargedu materion allweddol mewn ardaloedd penodol, yn hytrach na dull gweithredu cyffredinol." (Awdurdod lleol)*

> *"[…] credwn fod gan bob ardal ofynion gwahanol o ran penderfynu sut i gyflwyno'r ardoll fel bod gan awdurdodau lleol lefel uchel o annibyniaeth a hyblygrwydd i'w galluogi i fynd i'r afael â'r heriau cyrchfan penodol a wynebir gan yr ardal benodol honno." (Awdurdod lleol)*

**Annibyniaeth leol o ran sut y caiff refeniw ei wario**

4.23 Yr ail thema a grybwyllwyd amlaf o blaid annibyniaeth leol oedd y farn y dylai fod gan awdurdodau lleol y gallu i benderfynu ar y defnydd o'r refeniw a gesglir o'r ardoll ymwelwyr. Yn aml, crybwyllwyd y thema hon ynghyd â'r farn fod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth unigryw o'u hamgylchiadau lleol. O ganlyniad, ystyriwyd y gallant sicrhau bod y refeniw a gesglir yn cael ei wario mewn ffordd mor effeithiol â phosibl, yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

> *"Yr hyn a fyddai'n sicr yn cael budd o annibyniaeth leol fyddai dyrannu refeniw a gesglir gan yr ardoll a fydd yn golygu y gellir ei wario ar yr anghenion a'r pwysau penodol a brofir gan bob awdurdod lleol. Mae gwerth i wneud penderfyniadau yn lleol er mwyn i awdurdodau lleol allu nodi mannau lle mae pwysau a blaenoriaethau lleol o ran gwariant – ac i unrhyw gyllid a glustnodwyd fod â ffocws priodol." (Darparwr llety)*

**Dylai annibyniaeth leol gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol**

4.24 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â mwy o annibyniaeth leol oedd y farn y dylid cynnwys rhanddeiliaid lleol yn y broses benderfynu. Nododd rhai ymatebwyr os caiff agweddau ar y fframwaith treth eu crybwyll yn lleol, y dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad agos â phob grŵp yr effeithir arno, gan gynnwys trigolion, darparwyr llety a llwyfannau archebu llety. Crybwyllodd rhai ymatebwyr y

byddai ymgynghori yn y ffordd hon yn hyrwyddo tegwch o ran rhoi'r ardoll ar waith, wrth ystyried barn arbenigwyr.

"*Mae model cenedlaethol ar gyfer sut y dylid codi ardoll yn fuddiol, ond mae materion yn ymwneud â rheoli ymwelwyr a'u heffeithiau yn amrywio'n helaeth ar draws cyrchfannau a rhanbarthau. Felly dylai'r penderfyniad ynghylch sut y caiff ardoll arfaethedig ei ddyrannu gael ei bennu ar lefel leol mewn ymgynghoriad â thrigolion a'r sector twristiaeth." (Awdurdod lleol)*

> *"Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i bennu cyfraddau lleol, heriau a risgiau o fewn eu hardal. Fodd bynnag, dylid eu hannog i ymgynghori'n lleol er mwyn creu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu a defnyddio refeniw." (Ymateb dienw)*

---

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw agweddau eraill ar y fframwaith treth lle y byddai'n fuddiol cael mwy o annibyniaeth leol? Er enghraifft: (i) Esemptiadau neu ryddhadau; (ii) Y math o gyfradd; (iii) Lefel(au) y gyfradd; (iv) Defnyddio refeniw; (v) Gofynion adrodd.

---

**Dim angen mwy o annibyniaeth leol ar unrhyw agweddau eraill**

4.25 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o'r farn nad oes agweddau ychwanegol ar y fframwaith treth lle y byddai annibyniaeth leol yn fuddiol. Soniodd ymatebwyr a gododd y thema hon amlaf y byddai mwy o annibyniaeth leol yn gwneud y fframwaith treth yn anghyson ac yn gymhleth. Roedd rhesymau eraill yn erbyn annibyniaeth leol yn cynnwys yr effaith andwyol bosibl ar gystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol – fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai awdurdodau lleol gael eu cymell i godi cyfradd isel iawn er mwyn denu ymwelwyr a darparwyr llety o awdurdodau lleol cyfagos. I raddau llai, nododd ymatebwyr eraill y baich gweinyddol sylweddol a oedd yn gysylltiedig â phrosesau gwneud penderfyniadau lleol, ac roedd rhai yn bryderus y gallai awdurdodau lleol wneud penderfyniadau er budd gwleidyddol byrdymor.

> *"I grynhoi, dylai'r broses o roi Ardoll Ymwelwyr ar waith gael ei rheoleiddio gymaint â phosibl ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i ymwelwyr a busnesau, ac i amddiffyn rhag tuedd a buddiannau gwleidyddol ac unigol posibl." (Elusen)*

*“Dylai'r sector cyhoeddus fod yn creu diwylliant o chwarae teg y gall busnesau ffynnu ynddo. Bydd cynghorau yn cael eu temtio i gamddefnyddio'r system er eu budd eu hunain sy'n annheg i'r busnesau yr effeithir arnynt a'r teuluoedd niferus sy'n dibynnu ar y busnesau hyn i dalu eu costau byw eu hunain." (Elusen)*

*"Bydd unrhyw annibyniaeth leol mewn perthynas â'r ardoll hwn yn cymhlethu'r cynllun yn fawr, gan arwain at fwy o faich i fusnesau o ran cydymffurfio." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Manteision annibyniaeth leol o ran defnyddio refeniw**

4.26 Defnyddio refeniw oedd yr agwedd ar y fframwaith treth a godwyd amlaf gan ymatebwyr fel rhywbeth a fyddai'n debygol o elwa ar fwy o annibyniaeth leol. Yn aml, nododd ymatebwyr a gododd y thema hon fod gan awdurdodau lleol yr arbenigedd a’r ddealltwriaeth ofynnol o anghenion lleol i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithlon o glustnodi arian, sy’n amrywio ar draws ardaloedd. Roedd eraill o'r farn y byddai annibyniaeth leol o ran defnyddio refeniw yn sicrhau bod cyllid sy'n deillio o economi ymwelwyr cyrchfan yn cael ei ailfuddsoddi yno, gan helpu i hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor y sector a gwrthbwyso effeithiau camystumiol yr ardoll. Roedd rhai ymatebwyr a gododd y thema hon hefyd o'r farn y byddai annibyniaeth leol o ran defnyddio refeniw yn gwella eglurder a thryloywder ynghylch sut roedd y cyllid a gesglir yn cael ei ddefnyddio a'i effaith.

*"Yr awdurdod lleol ddylai benderfynu ar y ffordd y defnyddir refeniw, gan y bydd pob un yn wynebu pwysau gwahanol a bydd ganddynt flaenoriaethau gwahanol y gallai ardoll ymwelwyr eu cefnogi." (Awdurdod lleol)*

*“Byddai'n well delio â'r defnydd o refeniw a gofynion adrodd ar lefel leol fel bod mwy o eglurder i drigolion lleol a'r sector twristiaeth o ran sut y byddai'r refeniw arfaethedig yn cael ei wario." (Awdurdod lleol)*

*"Byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw awdurdod lleol sy'n rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith yn nodi ar wahân faint godwyd bob blwyddyn ariannol ac ar beth y gwariwyd yr arian. Yn fras, dylid neilltuo'r cyllid bob blwyddyn.*

*Gallai awdurdodau lleol benderfynu ymlaen llaw ar beth y byddai'r arian yn cael ei wario – gallai hyd yn oed fynd tuag at brosiectau penodol sydd o fudd i dwristiaeth yn lleol […].” (Preswylydd)*

**Manteision annibyniaeth leol o ran pennu lefel y gyfradd**

4.27 Lefel y gyfradd oedd yr ail agwedd ar y fframwaith treth a grybwyllwyd amlaf fel un lle roedd angen mwy o annibyniaeth leol. Nododd ymatebwyr a gododd y thema hon natur unigryw pob economi ymwelwyr, bod angen addasu lefel y gyfradd ar gyfer mathau gwahanol o lety, y defnydd o wasanaethau cyhoeddus, ac anghenion. Crybwyllodd rhai ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol gael yr opsiwn i godi cyfradd is os nad yw ardal yn denu llawer o ymwelwyr, er enghraifft, neu os na all darparwyr llety lleol wrthsefyll pwysau ariannol a gweinyddol rhoi'r ardoll ar waith.

*"Rwy'n credu y gallai annibyniaeth leol fod o fudd i lefel y gyfradd o ystyried bod rhai siroedd yn agosach at y ffin ac felly bod angen iddynt gystadlu â Lloegr yn fwy na'r rhai ymhellach i ffwrdd o'r ffin. Ond, i bwysleisio, nid wyf o blaid cyflwyno ardoll." (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Fodd bynnag, gallai mwy o annibyniaeth leol fod o fudd i rai agweddau ar yr ardoll, megis pennu cyfraddau. Y prif resymau dros hyn, yn gyntaf, yw mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth fyddai cost rhoi ardoll ar waith iddyn nhw a busnesau lleol, ac felly beth fyddai'n gyfradd hyfyw i gwmpasu'r costau hyn mewn cyfnod ad-dalu penodol. […]. Yn ail, byddai annibyniaeth leol wrth bennu cyfraddau yn rhoi mwy o berchnogaeth a rheolaeth dros y penderfyniad i awdurdodau lleol, trigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill, gan annog cefnogaeth o blaid y cynllun. […]. Fodd bynnag, mewn egwyddor, gallai rhyw elfen o bennu cyfraddau yn lleol fod yn fuddiol tu hwnt a byddai'n golygu y gellid ymateb yn well i fygythiadau a chyfleoedd a allai godi'n lleol ac yn genedlaethol." (Elusen)*

**Rhesymau eraill dros anghytuno ag annibyniaeth leol**

4.28 Y thema fwyaf cyffredin olaf a gododd wrth ymateb i'r cwestiwn hwn oedd anghytundeb cyffredinol â rhoi mwy o annibyniaeth leol mewn perthynas ag agweddau ar y fframwaith treth. Mynegodd ymatebwyr a gododd y thema

hon bryderon y gallai annibyniaeth leol gael effeithiau andwyol ar effeithiolrwydd yr ardoll, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis elfennau amwys, a allai leihau'r refeniw a gesglir. Nododd ymatebwyr eraill y byddai gwahaniaethau o ran agweddau ar y fframwaith treth rhwng awdurdodau lleol yn arwain at ddiffyg eglurder i ymwelwyr yn ogystal â darparwyr sy'n gweithredu mewn sawl ardal awdurdod lleol.

> *"[…] er ein bod yn cydnabod bod annibyniaeth leol yn llawn bwriadau da, mae ein profiad mewn marchnadoedd eraill yn dangos y byddai rhoi'r gallu i bob awdurdod lleol newid esemptiadau neu ryddhadau, neu i amrywio cyfradd y dreth dwristiaeth a'r ffordd y caiff ei chyfrifo, yn arwain at system ddryslyd ac aneffeithlon." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Dyluniad y dreth ac atebolrwydd i'w thalu


4.29 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar y cynnig i ddarparwyr llety ymwelwyr fod yn gyfrifol (yn atebol) yn y pen draw am dalu'r dreth i'r awdurdod treth.

---

**Cwestiwn 5:** Rydym yn cynnig y byddai'r ardoll yn dreth a hunanasesir ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr (yn seiliedig ar nifer yr arosiadau dros nos) ac y byddai'n rhaid iddynt godi'r ardoll ar ymwelwyr am aros dros nos, ei gasglu ganddynt ac yna ei dalu i'r awdurdod treth. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

---

Ffigur 4. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â gwneud yr ardoll yn dreth a hunanasesir a gaiff ei godi a'i gasglu gan ddarparwyr llety ymwelwyr




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 957 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 88% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.30 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (74% neu 711 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r cynnig y dylai'r ardoll fod yn dreth a hunanasesir ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr (yn seiliedig ar nifer yr arosiadau dros nos) a fyddai'n gyfrifol am godi'r ardoll ar ymwelwyr am aros dros nos, ei gasglu ganddynt ac yna ei dalu i'r awdurdod treth.

## Themâu yn erbyn gwneud yr ardoll yn dreth a hunanasesir i ddarparwyr llety ymwelwyr

### Pryderon ynghylch y baich y byddai hunanasesu yn ei roi ar ddarparwyr

4.31 Y rheswm a grybwyllwyd amlaf dros anghytuno â'r cynnig oedd y farn y byddai'n creu baich gweinyddol sylweddol i ddarparwyr llety ymwelwyr. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon y baich gweinyddol a roddir ar ddarparwyr llety a fyddai'n deillio o fod yn gyfrifol am asesu, gorfodi, codi a chasglu'r ardoll, yn ogystal â'i dalu i'r awdurdod lleol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y baich ariannol sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn, o ystyried y byddai angen symud cyflogeion i ymgymryd â'r tasgau hyn, cyflogi rhai newydd, a rhoi systemau ar waith neu eu diweddaru. Awgrymodd rhai y gallai'r canlyniadau andwyol hyn fod yn waeth pe bai'r ardoll yn cael ei roi ar waith yn annibynnol gan bob awdurdod lleol. Hefyd, mynegodd ychydig o ymatebwyr bryderon ynghylch tegwch hunanasesu, gan eu bod o'r farn y gallai hyn gael effaith anghymesur ar ddarparwyr llety bach sydd â llai o allu i addasu i ymdopi â'r baich gweinyddol a fyddai'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth.

> *"Mae hwn yn fater heriol am ei fod yn creu cost arall ac yn rhoi baich gweinyddol ar fusnesau sydd eisoes â nifer o ofynion rheoleiddiol a thrwyddedu i'w cyflawni, gan gynnwys casglu TAW. […]. I fusnesau mawr, byddai hyn yn golygu addasu neu gyflwyno systemau archebu llety a chael staff i weinyddu'r broses gasglu – ond eto i fusnesau bach a/neu annibynnol, gallai hyn fod yn faich anghymesur na allant ymdopi ag ef a gallai hyn fygwth eu gweithrediad o ganlyniad." (Darparwr llety)*

> *"Byddai hyn yn faich gweinyddol enfawr ar weithredwyr llety gwyliau bach. Ni all y busnesau bach hyn ymdopi â'r baich gweinyddol hwn; mae eu hadnoddau, o ran personél a chyllid, yn gyfyngedig yn aml, ac maent yn rhedeg y busnes ochr yn ochr â ffermio, felly gall amser fod yn rhwystr i weinyddu, casglu a datgan ardoll ymwelwyr hefyd. Yn ogystal â'r baich gweinyddol, mae cost ariannol ychwanegol y byddai'n rhaid i'r busnesau ymdopi â hi: o'r hyfforddiant ar gyfer casglu'r ardoll, i gyflwyno dogfennau*

*treth, i uwchraddio systemau cyfrifiadurol neu eu system archebu llety gyfan, er mwyn bodloni disgwyliadau." (Ymateb dienw)*

**Pryderon ymarferol mewn perthynas â hunanasesu**

4.32 Yr ail reswm a godwyd amlaf dros wrthwynebu'r cynnig dan sylw oedd pryderon ymarferol ynghylch rhoi treth a hunanasesir ar waith a'r cyfrifoldebau a roddir ar ddarparwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon yn bryderus y gallai fod heriau i orfodi a sicrhau atebolrwydd pe bai darparwyr llety yn gyfrifol am asesu, codi, casglu a thalu'r ardoll. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'n heriol i'r awdurdod treth fonitro pob darparwr llety annibynnol, gan arwain o bosibl at gamddefnyddio neu gamgymhwyso'r ardoll. Nododd ymatebwyr eraill a gododd y thema hon na fyddai'n bosibl neilltuo'r cyfrifoldebau hyn i ddarparwyr heb gael cofrestr genedlaethol gadarn o ddarparwyr llety ymwelwyr. Yn olaf, mynegodd ychydig o ymatebwyr bryderon ynghylch y risg y byddai prosesau cadw cofnodion darparwyr llety yn anghyson, a allai amharu ar brosesau monitro effeithiol a thryloywder wrth gasglu ac adrodd ar ddata ar lefel awdurdod lleol a lefel genedlaethol.

*"O ystyried nad oes cofrestr ganolog o ddarparwyr llety, byddai'n amhosibl casglu hwn yn gywir. Nes y gall Llywodraeth Cymru greu a chynnal cofrestr, ynghyd â chosbau i'r rhai sy'n rhedeg busnes answyddogol, bydd y busnesau gwirioneddol yn cael eu cosbi eto." (Ymateb dienw)*

*"Os bydd awdurdodau lleol (neu ai Trysorlys Cymru ydynt?) yn gallu olrhain pob gweithredwr. Ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld unrhyw system a allai wneud hyn yn effeithiol, heb roi Cynllun Cofrestru Statudol cadarn ar waith." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Mae angen gwybodaeth ychwanegol i lunio barn**

4.33 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig dan sylw oedd bod angen gwybodaeth ychwanegol er mwyn llunio barn ar sail gwybodaeth. Nododd rhai ymatebwyr a gododd y thema hon na all darparwyr llety gyflawni'r cyfrifoldebau arfaethedig heb ganllawiau statudol clir a chyfarwyddiadau manwl ar sut y byddai'r prosesau casglu a thalu yn gweithio yn ymarferol. Gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurhad o

ran y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan ystyried y bydd y rhain yn bwysig i roi'r ardoll ar waith yn effeithiol.

*"Mae materion ymarferol eraill i'w hystyried ynglŷn â gweinyddu i ddarparwyr llety ymwelwyr, megis sut y gellir integreiddio'r ardoll â'u meddalwedd cyfrifyddu, sut y gellir casglu'r ardoll o lwyfannau archebu llety (os na chaiff ei gasglu ar wahân), neu sut i ad-dalu'r tâl os na fydd arosiadau yn mynd rhagddynt." (Ymateb dienw)*

**Llwyfannau archebu llety ddylai fod yn gyfrifol am asesu**

4.34 Y thema fwyaf cyffredin olaf a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd y farn y dylai darparwyr trydydd parti fod yn gyfrifol am asesu'r dreth. Yn aml roedd y thema hon yn gysylltiedig â'r dewis i godi'r ardoll ar adeg archebu. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn ei bod yn fwy effeithlon i lwyfannau archebu llety fod yn gyfrifol am gasglu, a thalu'r ardoll i'r awdurdod, o ystyried bod ganddynt yr holl wybodaeth ofynnol o'r archeb.

*"Ffordd symlach a haws o godi'r ardoll fyddai i ddarparwyr trydydd parti […] ychwanegu cyfradd ardoll ragddiffiniedig pan gaiff llety ei archebu. Byddai hyn yn debyg o ran cysyniad i doll tanwydd ychwanegol meysydd awyr, a godir yn awtomatig wrth archebu." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid gwneud yr ardoll yn dreth a hunanasesir i ddarparwyr llety ymwelwyr

**Hunanasesu yw'r ateb mwyaf ymarferol**

4.35 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw yn credu mai hunanasesu fyddai'r ateb mwyaf ymarferol ac effeithlon. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn, ac awdurdodau lleol yn arbennig, o'r farn mai dim ond darparwyr llety sy'n meddu ar yr wybodaeth ofynnol, gan y gallant ryngweithio ag ymwelwyr yn uniongyrchol pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael er mwyn ymdrin â bylchau mewn gwybodaeth yn effeithiol.

*"Mae darparwyr llety eisoes yn ymdrin â'r rhan fwyaf o archebion a thrafodion yn uniongyrchol gyda'u cwsmeriaid a dylid casglu trethi twristiaeth yn yr un ffordd. […]. Mae manteision eraill yn gysylltiedig â'r dull gweithredu hwn a gall helpu i leihau swm y dreth a gollir oherwydd*

*gall darparwyr llety ddilysu nifer y teithwyr sy'n aros yn yr eiddo a gwybodaeth arall sydd ei hangen i gyfrifo'r dreth." (Ymateb dienw)*

*"Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu mai'r ffordd orau o godi ardoll ymwelwyr yw fesul gwely, gofyniad treth a hunanasesir i ddarparwyr llety fyddai'r dull mwyaf priodol. Byddai'n anodd pennu opsiwn amgen oherwydd dim ond y darparwyr llety fyddai'n gwybod eu ffigurau o ran defnydd gwely ac mewn sefyllfa i gyflwyno'r data hyn i'r awdurdod treth." (Awdurdod lleol)*

**Awgrymiadau i leihau baich gweinyddol hunanasesu**

4.36 Yr ail thema a godwyd amlaf ymhlith ymatebwyr o blaid treth a hunanasesir oedd cynnig awgrymiadau ar sut y byddai'r dreth a hunanasesir yn gweithio yn ymarferol, wrth leihau'r baich gweinyddol ac ariannol ar ddarparwyr llety. Yr awgrym mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr oedd i integreiddio'r broses o godi, casglu a thalu'r ardoll â meddalwedd a systemau presennol sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n gyffredin gan ddarparwyr. Dadleuwyd bod posibilrwydd y byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol a fyddai'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hunanasesu arfaethedig yn sylweddol. Yr awgrym mwyaf cyffredin nesaf a gynigiwyd oedd rhoi iawndal ariannol i ddarparwyr llety er mwyn gwrthbwyso cost y llwyth gwaith mwy o ganlyniad i hunanasesu, gan sicrhau bod yr ardoll yn cael ei weithredu'n deg, neu sicrhau mai ymwelwyr yn uniongyrchol sy'n gyfrifol am dalu'r ardoll. Yr awgrym mwyaf cyffredin olaf a godwyd oedd i Lywodraeth Cymru greu porth ar-lein canolog y gallai pob darparwr llety ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ofynnol, gan hwyluso gwell cysondeb ac effeithlonrwydd wrth fonitro'r ardoll.

*"Bydd angen ystyried yn ofalus sut y bydd busnesau yn rhoi tystiolaeth o incwm o'r ardoll i Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw systemau ar gyfer gwneud hynny gael eu hintegreiddio o fewn systemau adrodd presennol a heb unrhyw gost i fusnesau." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

*"Bydd ei gwneud yn ofynnol i fusnesau yng Nghymru fod yn gyfreithiol gyfrifol am gofnodi a chasglu math newydd o refeniw treth gan ymwelwyr yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r sector llety yng Nghymru.*


*Gofynnwn i Lywodraeth Cymru/awdurdodau lleol sut maent yn cynnig ad-dali'r gymuned fusnes am y baich ychwanegol hwn o ran costau." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*"Byddai rhai pryderon yn ymwneud ag atebolrwydd a phwyslais ar wybodaeth ffug a ddarperir gan ymwelwyr y byddai gan rai mathau o lety lai o oruchwyliaeth drostynt (megis archebu ar-lein ar gyfer llety hunanarlwyo a meysydd carafanau) pe bai'r system yn cael ei chodi Fesul Person, Fesul Noson. O dan yr amgylchiadau hyn, yr ymwelydd ddylai fod yn atebol am wybodaeth ffug, nid y busnes, gan mai'r ymwelydd sy'n efadu'r dreth, nid y busnes." (Sefydliad nid-er-elw)*

*"Mae'r llywodraeth wedi cynnig y dylai'r ardoll ymwelwyr gael ei gasglu gan ddarparwyr llety, ond argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn llwyfan talu ar-lein hawdd ei ddefnyddio, darparu opsiynau amgen addas i'r rhai nad ydynt mor hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, a sicrhau bod system orfodi effeithiol ar waith nad yw'n rhoi unrhyw atebolrwydd ar fusnesau neu weithredwyr unigol." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Cwestiwn 6:** Pryd y dylid casglu'r ardoll fel rhan o'r broses archebu?

Ffigur 5. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn ffafrio opsiynau i gasglu'r ardoll fel rhan o'r broses archebu llety




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 487 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 45% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.37 Roedd yn well gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn i'r ardoll gael ei gasglu ymlaen llaw (64% neu 312 o ymatebwyr). Yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd oedd casglu wrth i'r ymwelwyr adael (20% neu 96 o ymatebwyr), ac yna gasglu wrth iddynt gyrraedd (16% neu 79 o ymatebwyr). Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddewis yr opsiwn casglu ymlaen llaw, roedd y dadansoddiad thematig o'u hymatebion yn awgrymu mai'r opsiwn a ffefrir ganddynt oedd casglu wrth dalu, ni waeth pryd y mae hynny'n digwydd.

## Themâu o blaid casglu wrth dalu

### Eglurder a dull gweithredu hawdd ei ddeall

4.38 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr dros ffafrio casglu wrth dalu oedd y farn bod y dull gweithredu hwn yn glir ac yn ddealladwy i bawb dan sylw. Roedd y rhai a oedd o blaid yr opsiwn hwn o'r farn y byddai pob parti yn gallu deall y bydd yr ardoll yn rhan o'r taliad terfynol, boed hynny ymlaen llaw, wrth gyrraedd, neu wrth adael.

*“Awgrymwn fod yr ardoll yn cael ei gasglu pan delir am y llety, boed hynny wrth gyrraedd neu ymlaen llaw. Byddai hyn yn lleihau dryswch i'r ymwelydd pe bai ardoll yn cael ei godi ar adeg wahanol, a gwrthwynebiad posibl i gost annisgwyl." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Dull gweithredu hyblyg**

4.39 Yr ail thema a godwyd amlaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn ffafrio casglu wrth dalu oedd y farn ei bod yn ddull gweithredu hyblyg, a bod casglu wrth dalu yn darparu ar gyfer amrywiaeth o ddewisiadau talu.

*“Dylid casglu'r dreth wrth dalu am y llety. P'un a fydd rhywun yn talu fisoedd ymlaen llaw, neu'n talu wrth gofnodi i mewn neu allan, dylid casglu'r dreth wrth dalu am y llety." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Themâu o blaid casglu ymlaen llaw

**Dull gweithredu cyfleus**

4.40 Y rheswm mwyaf cyffredin dros ffafrio'r opsiwn i gasglu'r ardoll ymlaen llaw oedd y farn mai dyma'r opsiwn mwyaf cyfleus i bawb dan sylw, gyda llawer o'r ymatebwyr yn awgrymu y byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr llety, a bod ymwelwyr eisoes yn gyfarwydd â thaliadau ar-lein fel rhan o'r broses archebu llety.

*“Dyma'r system hawsaf i'w gweinyddu, ac mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr eisoes yn gyfarwydd â'r cysyniad hwn wrth drefnu gwyliau.” (Awdurdod lleol)*

*"Ymlaen llaw fyddai'r unig opsiwn posibl i'r mwyafrif o weithredwyr heb dderbynfa wyneb yn wyneb pan fydd ymwelwyr yn cofnodi i mewn/allan." (Awdurdod lleol)*

**Mae'r dull gweithredu yn manteisio ar systemau presennol**

4.41 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr a oedd o blaid casglu ymlaen llaw oedd y farn y dylai llwyfannau archebu llety fod yn rhan weithredol o'r broses dalu, a nododd llawer o'r ymatebwyr hyn fod systemau cadarn eisoes ar waith gan lwyfannau archebu llety trydydd parti i godi'r ardoll fel rhan o'r broses archebu llety.

*"O ystyried y caiff cyfran sylweddol o archebion eu gwneud drwy drefnwyr gwyliau ar-lein ac asiantaethau archebu, mae'n anodd gweld na fyddai rôl ganddynt." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

*"Byddai'n gwneud synnwyr, lle bo'n bosibl a lle mae llwyfannau'n cael eu defnyddio ar gyfer archebion ymlaen llaw, y dylent fod yn gyfrifol am gynnwys y dreth lle bo modd." (Sefydliad nid-er-elw)*

**Mae'r dull gweithredu yn lleihau risg i ddarparwyr**

4.42 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr o blaid casglu ymlaen llaw oedd y farn y byddai'r dull gweithredu hwn yn lleihau atebolrwydd darparwyr llety. Nododd rhai ymatebwyr y gallai darparwyr llety fod yn atebol am dalu o leiaf ran o'r ardoll pe bai ymwelwyr yn canslo arosiadau neu'n darparu gwybodaeth ffug, ac y gallai casglu ymlaen llaw eu gwneud yn llai agored i'r risg hon.

*"Gallai ardoll ymwelwyr fesul person a delir wrth adael wneud y busnes yn agored i dandaliad o'r dreth gan ymwelydd, ond byddai disgwyl iddo drosglwyddo'r dreth i'r awdurdod treth o hyd." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*"Os caiff ardoll ei gasglu, yna os na chaiff ei dalu wrth archebu llety (ymlaen llaw) bydd achosion pan gaiff y tâl ei herio ond bydd y darparwr llety yn atebol o hyd." (Ymateb dienw)*

## Themâu o blaid casglu wrth dalu

**Rhwyddineb gorfodi a chymhwyso**

4.43 Y rheswm mwyaf cyffredin dros ddewis yr opsiwn casglu wrth gyrraedd oedd y farn y byddai'n haws codi a gorfodi'r ardoll. Yn aml, roedd ymatebwyr â'r farn hon yn awgrymu y byddai rhyngweithio wyneb yn wyneb yn helpu i gefnogi camau i gasglu'r ardoll yn effeithiol ac y byddai'n galluogi darparwyr llety i orfodi ymwelwyr i dalu'r symiau sy'n ddyledus.

*"[…] dylid ei dalu wrth gyrraedd er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle a) mae pobl yn archebu llety ymlaen llaw ond nid ydynt yn teithio, gan arwain at orfod ad-dalu'r ardoll ymwelwyr (mwy o faich ar y darparwr llety), neu b)*

*mae twristiaid yn gadael heb dalu'r ardoll wrth adael (mwy o faich ar y darparwr llety i fynd ar eu hôl am daliad." (Preswylydd)*

**Hwyluso prosesau monitro a dilysu effeithiol**

4.44 Yr ail reswm a roddwyd amlaf gan ymatebwyr o blaid casglu wrth gyrraedd oedd y farn y byddai'n helpu darparwyr i ddilysu nifer yr ymwelwyr. Nododd llawer o'r ymatebwyr hyn, yn dibynnu ar y math o ardoll y penderfynir arno, gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety roi amcangyfrif cywir o nifer yr ymwelwyr fesul arhosiad dros nos. Roedd rhai o'r ymatebion hyn o'r farn y gellid cyfrifo'r amcangyfrif mwyaf cyfleus a dibynadwy drwy godi'r ardoll wrth i ymwelwyr gyrraedd, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd fod yn bresennol.

*"Os bydd yn gynharach, bydd archebion yn dweud 1 oedolyn a bydd 3 yn cyrraedd, gan osgoi'r dreth ar gyfer 2 ohonynt." (Sefydliad nid-er-elw)*

*"Dylid talu / casglu'r dreth wrth gofnodi ymwelwyr i mewn neu allan, fel y gall y darparwr ddilysu nifer y bobl yn yr eiddo yn gywir, eu hoedrannau (os yw'n berthnasol) a darparu ar gyfer unrhyw newidiadau a wnaed ers archebu." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Themâu o blaid dull gweithredu hyblyg wrth gasglu

**Gellir teilwra'r dull gweithredu i bob math o ddarparwr**

4.45 Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y byddai dull gweithredu hyblyg yn rhoi cyfrif am ddarparwyr llety â modelau busnes gwahanol a allai fod â dewisiadau gwahanol o ran y dull talu. Er enghraifft, nododd rhai ymatebwyr ei bod yn bosibl nad oes gan ddarparwyr bach lwyfannau archebu llety ar-lein, ac felly byddai casglu ymlaen llaw yn fwy heriol.


*"Mae'n anodd ateb gan fod pob gweithredwr yn gweithio mewn ffordd wahanol, felly nid oes un ateb sy'n addas i bawb. Mae'n bosibl na fydd rhai busnesau yn gweld eu hymwelwyr wyneb yn wyneb hyd yn oed, tra bo eraill yn rhan o'r broses gwrdd/cyfarch/gadael." (Awdurdod lleol)*

---

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r darparwr llety ymwelwyr a ddylai fod yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu'r ardoll a'i dalu i'r awdurdod treth?

---

Ffigur 6. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y byddai darparwyr llety ymwelwyr yn gyfrifol am gasglu a thalu'r ardoll i'r awdurdod treth




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 894 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 82% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.46 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (74% neu 658 o ymatebwyr) yn anghytuno mai'r darparwyr llety ymwelwyr ddylai fod yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu'r ardoll a'i dalu i'r awdurdod treth.

## Themâu yn erbyn gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu a thalu'r ardoll

### Pryderon ynghylch y baich a'r atebolrwydd ariannol

4.47 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig dan sylw oedd y farn bod risg a chost ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r cyfrifoldebau arfaethedig. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y thema hon bryderon y byddai darparwyr llety yn agored i'r risg o dalu'r awdurdod treth pe na bai'r ymwelydd yn talu. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd nifer bach o ymatebwyr gynnig iawndal ariannol i ddarparwyr am dderbyn y cyfrifoldebau arfaethedig.

*“Credwn fod cynifer o gymhlethdodau a chostau yn gysylltiedig â chasglu ardoll ymwelwyr dros nos, byddai'n peryglu hyfywedd ariannol nifer mawr o fusnesau llety bach y wlad yn ddifrifol.” (Awdurdod lleol)*

*“Mae'n faich ychwanegol eto ar ddarparwyr llety sydd eisoes dan bwysau. Os na fydd y darparwr llety wedi gallu casglu'r dreth, am ba reswm bynnag, bydd yn rhaid iddo dalu'r bil o hyd.” (Darparwr llety)*

**Pryderon ynghylch baich gweinyddol**

4.48 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y byddai gwneud darparwyr llety yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu a thalu'r ardoll yn rhoi cryn faich gweinyddol arnynt. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai angen i ddarparwyr neilltuo cryn dipyn o amser gwaith i gasglu a thalu'r ardoll, a fyddai'n gwrthdaro â chyfrifoldebau eraill. Crybwyllodd ymatebwyr eraill y byddai angen i ddarparwyr llety fuddsoddi mewn diweddariadau drud i'w systemau gweinyddu yn ogystal â thalu am adnoddau llafur ychwanegol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol i ddarparwyr llety bach, nad oes ganddynt y seilwaith a'r personél angenrheidiol o bosibl.

*“[…], baich gweinyddol ychwanegol ar fusnesau bach, bydd ond yn annog pobl newydd i beidio ag ymuno â'r diwydiant twristiaeth, a buddsoddiad gan berchnogion eiddo yn eu heiddo nas defnyddir er mwyn creu mentrau newydd.” (Ymateb dienw)*

*“Trethu'r darparwr llety yn uniongyrchol yw'r opsiwn dichonadwy ond, yn y pen draw, bydd y cyfrifoldeb hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gweithredwyr. Yn ogystal â chyfrifoldebau gweinyddol, byddai gweithredwyr yn wynebu taliadau uwch am drafodion banc a byddai angen technoleg a systemau ychwanegol arnynt er mwyn gweinyddu'r ardoll." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu a thalu'r ardoll

### Dull gweithredu cydweithredol

4.49 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymatebwyr dros gytuno â'r cynnig oedd yr awgrym y byddai dull gweithredu mwy cydweithredol yn cefnogi darparwyr llety pan fyddant yn casglu'r ardoll. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon y dylai llwyfannau archebu llety trydydd parti helpu i gasglu'r ardoll, gan rannu'r atebolrwydd terfynol. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylai'r awdurdod treth chwarae rhan sylweddol wrth gasglu'r dreth hefyd.

> *"Os caiff y llety ei archebu drwy asiant/llwyfan archebu llety trydydd parti, yna'r rhain ddylai fod yn gyfrifol am gasglu'r ardoll a'i dalu i'r awdurdod treth, ar yr amod nad oes darpariaeth iddynt godi comisiwn ar yr ardoll hefyd." (Ymateb dienw)*

> *"Dylid defnyddio dull gweithredu cydweithredol a deallgar rhwng y darparwyr llety ymwelwyr a'r awdurdod treth lleol ar gyfer casglu a thalu'r ardoll, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau." (Ymateb dienw)*

### Hyrwyddo eglurder a symlrwydd

4.50 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynnig oedd y farn mai gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn gyfrifol yn y pen draw yw'r dull gweithredu gorau o ran eglurder a symlrwydd.

> *"Y ffordd fwyaf ymarferol o gyflwyno ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos fyddai i fusnesau llety ei gasglu a'i dalu i'r awdurdod treth, felly rydym yn cytuno â'r cynnig uchod pe bai ardoll yn cael ei gyflwyno." (Awdurdod lleol)*

> *"Credwn y byddai'n anodd i unrhyw un arall y tu allan i'r cytundeb trafodiad archebu rhwng y gweithredwr llety a'r ymwelydd roi'r ardoll a gyflwynir ar waith." (Awdurdod lleol)*

### Cysondeb â threthi eraill

4.51 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynnig oedd y farn bod rhoi'r cyfrifoldeb am gasglu a thalu i ddarparwyr llety yn deg

ac yn rhesymol o ystyried bod cynsail i drethi eraill gael eu casglu mewn ffordd debyg.

*“Credwn mai’r darparwr llety ymwelwyr ddylai fod yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu’r ardoll gan ymwelwyr dros nos, yn yr un modd ag y byddai darparwyr yn trafod ac yn darparu ffurflenni treth i asiantaethau eraill fel CThEF.” (Awdurdod lleol)*

*"Credwn y dylai'r broses o gasglu'r ardoll, a'r cyfrifoldeb am ei dalu i'r awdurdod treth, weithredu mewn ffordd debyg i'r broses TAW ac felly'r darparwr llety ymwelwyr fyddai'n gyfrifol am hyn." (Awdurdod lleol)*

## Ymwelwyr sydd o fewn y cwmpas


4.52 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar y cynnig y dylid ystyried bod yr holl ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol (os nad ydynt wedi'u hesemptio) o fewn cwmpas yr ardoll, gan gynnwys y rhai sy'n teithio am resymau heblaw gwyliau.

---

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ystyried bod yr holl ymwelwyr sy'n aros mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll (oni bai eu bod wedi'u hesemptio fel arall)?

---

Ffigur 7. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno y dylai'r holl ymwelwyr sy'n aros mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol fod o fewn cwmpas yr ardoll




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 926 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 85% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.53 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (67% neu 617 o ymatebwyr) yn anghytuno y dylid ystyried bod yr holl ymwelwyr sy'n aros mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll (oni bai eu bod wedi'u hesemptio fel arall). Er gwaethaf hyn, esboniadau cyfyngedig a gafwyd ar y cyfan o'r rhesymau pam roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, a chafwyd yr esboniadau mwyaf penodol gan y rhai a oedd yn cytuno.

### Hyrwyddo tegwch

4.54 Y thema a godwyd amlaf oedd cytuno â'r cynnig dan sylw, lle roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'n hyrwyddo tegwch drwy drin llety ymwelwyr o bob math a maint yn gyfartal.

> *"Dylai ardoll fod yn gymwys i bob math o lety twristiaeth. Mae'n rhaid codi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros ym mhob math o lety twristiaeth yn gyffredinol." (Corff o'r diwydiant llety)*

> *"Mae hwn yn faich treth ychwanegol ar sector sydd eisoes wedi'i drethu'n helaeth. Mae felly'n hanfodol bod chwarae teg a bod pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

### Hyrwyddo eglurder a dealltwriaeth

4.55 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd y farn y byddai dull gweithredu cyson i bob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol yn helpu darparwyr ac ymwelwyr i ddeall yn well sut mae'r ardoll yn gymwys i'w hamgylchiadau penodol. Roedd llawer o'r ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y gallai cymhwyso ardoll mewn ffordd wahanol ar gyfer mathau gwahanol o lety arwain at ddiffyg eglurder i ymwelwyr o ran pa rai sy'n codi'r ardoll. Yn yr un modd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai darparwyr llety fod yn ansicr a ddylent godi'r ardoll ai peidio, neu efallai y byddant yn ceisio manteisio ar elfennau amwys.

> *"Os byddwch yn dechrau gwneud esemptiadau yna (a) Bydd y system yn gymhleth iawn ac yn anodd ei chyfleu yn glir i bobl; (b) Bydd pobl yn ceisio osgoi'r dreth drwy ddefnyddio elfennau amwys." (Awdurdod lleol)*

### Cefnogi esemptiadau cenedlaethol

4.56 Y drydedd thema fwyaf cyffredin mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y farn mai dim ond os caiff esemptiadau eu pennu'n genedlaethol y dylai'r cynnig fynd rhagddo. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai esemptiadau fod yn gymwys i amgylchiadau pan fo'r ymweliad o ganlyniad i anghenraid, yn hytrach na dewis, megis ymweliadau meddygol. Hefyd, roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid rhoi'r esemptiadau hyn ar waith yn genedlaethol.

*“Os mai'r penderfyniad fydd codi ardoll, yna dylai fod yn gymwys i bob arhosiad heblaw bod esemptiad mewn ychydig iawn o achosion penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.” (Ymateb dienw)*

*“Awgrymwn y dylai pob arhosiad gan ymwelwyr mewn llety a osodir yn fasnachol fod o fewn cwmpas yr ardoll, yn amodol ar nifer cyfyngedig o esemptiadau y dylid eu pennu mewn fframwaith cenedlaethol.” (Corff o'r diwydiant treth)*

**Angen rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr**

4.57 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y byddai angen rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr pe bai'r ardoll yn gymwys i bob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol. Nododd ymatebwyr o'r fath bod posibilrwydd nad yw awdurdodau treth yn ymwybodol o bob darparwr sy'n gweithredu ym mhob ardal, gan amharu ar fesurau gorfodi a phrosesau i fonitro'r ardoll a gaiff ei gasglu a'i dalu, a allai alluogi darparwyr i fanteisio ar elfennau amwys, yn ogystal â lleihau derbynebau treth.

*"Ni all Llywodraeth Cymru honni ei bod yn "deg" heb restr gynhwysfawr o ddarparwyr llety a gaiff ei diweddaru'n gyson."  (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Llai o faich gweinyddol**

4.58 Y thema gyffredin olaf a welwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd cytuno â'r cynnig ar y sail y byddai'n arwain at lai o faich gweinyddol. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y byddai angen cryn amser ac adnoddau ar ddarparwyr pe bai gofyn iddynt roi eu hesemptiadau eu hunain ar waith neu gymhwyso set gymhleth o esemptiadau. O ganlyniad, roedd yn well gan lawer o'r ymatebwyr gynnwys pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn y cwmpas, gan wneud y fframwaith esemptiadau yn syml ac yn haws cydymffurfio ag ef.

*"Rydym yn cytuno y dylid ystyried bod yr holl ymwelwyr sy'n aros mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll. Byddai'n anodd gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n defnyddio llety ar gyfer gwyliau,*

*gwaith neu ymweld â theulu a ffrindiau a byddai gwneud hynny yn cymryd llawer o amser swyddogion awdurdodau lleol." (Corff o'r diwydiant llety)*


*"At hynny, nid 'treth ar wyliau" yw'r ardoll ymwelwyr. Ardoll i godi arian ydyw er mwyn gwrthbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau lleol pan fyddant yn yr ardal. Bydd person yn defnyddio'r gwasanaethau lleol hyn ni waeth beth fo'r rheswm am eu hymweliad." (Preswylydd)*

## Esemptiadau

4.59 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar b'un a oes amgylchiadau penodol lle byddai codi'r ardoll ar unrhyw fathau eraill o arhosiad yn anghymesur, ac a ddylid ystyried cymhwyso esemptiadau mewn unrhyw senario arall.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r esemptiadau arfaethedig canlynol

Ffigur 8. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig




Nodyn: Atebodd 872 o ymatebwyr y cwestiwn hwn

4.60 Yr esemptiad arfaethedig mwyaf cyffredin a gefnogwyd gan ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (55% neu 477 o ymatebwyr)[2] oedd arosiadau mewn llety a ddarperir gan elusennau a sefydliadau nid-er-elw ar sail anfasnachol. Yr ail esemptiad yr oedd y nifer mwyaf o ymatebwyr yn cytuno

[2] Nid yw'r canrannau a ddyfynnir yn y paragraff hwn ac a gyflwynir yn y graff yn ffurfio cyfanswm o 100%. Mae hyn oherwydd bod hwn yn gwestiwn amlddewis, sy'n golygu y gallai pob ymatebydd ddewis mwy nag un ateb. Cyfrifir y canrannau a ddyfynnir mewn perthynas â nifer yr ymatebwyr, yn hytrach na nifer yr ymatebion.

ag ef (53% neu 463 o ymatebwyr) oedd arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol, ac yna arosiadau a drefnir drwy'r Swyddfa Gartref wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â cheisiadau am loches a rhoi llety dros dro i ffoaduriaid (48% neu 420 o ymatebwyr). Yr esemptiad a gefnogwyd leiaf oedd arosiadau o fewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr (35% neu 306 o ymatebwyr).

---

**a. Arosiadau o fewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr**
**(lle mae arosiadau byrhoedlog yn rhan hanfodol o'r diwylliant)**

---

## Themâu o blaid esemptio arosiadau o fewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

### Cefnogi ffordd o fyw a diwylliant y gymuned

4.61 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd o blaid esemptio arosiadau o fewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr oedd y farn bod arosiadau byrhoedlog yn rhan hanfodol o ddiwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Roedd ymatebwyr o'r fath yn credu y byddai esemptio'r arosiadau hyn yn helpu i amddiffyn eu ffordd o fyw a'u hunaniaeth unigryw.

> *"Mae arosiadau byrhoedlog yn rhan hanfodol o ddiwylliant y grŵp hwn ac felly byddai'n amhriodol ac yn annheg cynnwys y grŵp hwn o fewn cwmpas yr ardoll." (Awdurdod lleol)*

### Dull gweithredu teg yn hyrwyddo cydraddoldeb

4.62 Yr ail reswm a nodwyd amlaf gan ymatebwyr dros esemptio arosiadau mewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr oedd y farn y byddai'n hyrwyddo tegwch. O ystyried bod arosiadau byrhoedlog yn rhan o'u diwylliant, nododd rhai ymatebwyr y gellid ystyried bod codi ardoll yn annheg ac yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010.

> *"Fel y nodwyd yn y cwestiwn, mae 'arosiadau byrhoedlog yn rhan hanfodol o'r diwylliant' ac felly bydd codi ardoll ar grŵp o bobl yr effeithir yn anghymesur arnynt oherwydd arferion diwylliannol o bosibl yn niweidio'r diwylliant ei hun ymhen amser. Mae'n bur debyg y byddai ardoll o'r fath yn mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010." (Awdurdod lleol)*

## Themâu yn erbyn esemptio arosiadau o fewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

### Hyrwyddo nod yr ardoll

4.63 Roedd y thema a godwyd amlaf yn erbyn esemptio arosiadau mewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ymwneud â nodau'r ardoll ymwelwyr, a nododd rhai ymatebwyr fod y cymunedau hyn yn defnyddio gwasanaeth a seilwaith lleol, ac felly y dylent gyfrannu at eu cynnal.

> *“Am nad ydynt yn talu'r dreth gyngor ond yn amlwg […] yn rhoi pwysau ar wasanaethau lleol, dylent dalu.” (Preswylydd)*

> *"Os ydych yn bwriadu codi tâl ar ymwelwyr busnes, h.y. pobl nad oes ganddynt ddewis o ran aros, yna dylech godi tâl ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn yr un modd. Maent yn rhoi'r un faint o straen ar gyfleusterau lleol." (Ymateb dienw)*

### Cymhwyso'r ardoll yn gyson

4.64 Yr ail thema fwyaf cyffredin a nodwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno ag esemptio arosiadau mewn safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr oedd yr angen am ddull gweithredu cyson mewn perthynas â phob math o ymwelwyr. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y dylid cymhwyso'r ardoll yn gyson mewn perthynas â phob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, neu fel arall byddai cryn faich gweinyddol, elfennau amwys a phryderon o ran tegwch.

> *“Os bydd yr ardoll yn berthnasol i ymwelwyr mewn cyd-destunau eraill, pam byddai'r gymuned teithwyr yn cael ei hesemptio? Os mai cyfrannu at wasanaethau lleol yw'r pwynt, yna dylai gael ei godi'n gyfartal ar bob teithiwr." (Darparwr llety)*

b. **Arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol (megis dyletswyddau a gyflawnir fel rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) (e.e. darparu llety dros dro i bobl ddigartref).**

## Themâu o blaid esemptio arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol

### Dull gweithredu teg

4.65 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd o blaid esemptio arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol oedd y farn y byddai hyn yn cyfrannu at hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb. Roedd llawer o'r ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn nad dewis yr ymwelwyr yw'r arosiadau hyn, ac y gallent fod yn ddigartref fel arall – felly, byddai esemptiad rhag talu'r ardoll am arosiadau o'r fath yn cyfrannu at atal digartrefedd, gan arwain at fanteision cymdeithasol felly.

*"I’r rhai sy’n cael eu cartrefu o dan y ddeddf hon nid yw ble y cânt eu hadleoli fel rhan o’r broses yn fater o ddewis bob amser." (Awdurdod lleol)*

*“Nid 'twristiaid' yw'r rhai a gaiff eu lletya o dan drefniadau o'r fath, maent yn bobl agored i niwed sydd angen cymorth cyhoeddus ac ni ddylent orfod talu'r ardoll.” (Sefydliad rheoli tir)*

### Cysondeb â chwmpas arfaethedig yr ardoll

4.66 Yr ail thema a godwyd amlaf o blaid esemptio'r arosiadau dan sylw oedd y farn y byddai'n unol â chwmpas awgrymedig yr ardoll, o ystyried y dylai pobl a gaiff eu cartrefu yn unol â dyletswyddau statudol awdurdodau lleol gael eu hystyried yn breswylwyr ac nid ymwelwyr.

*“Preswylwyr yw'r rhain, nid ymwelwyr.” (Awdurdod lleol)*

*“Ni chaiff arosiadau dros 28 diwrnod eu hystyried yn wyliau ac nid ydynt yn cyfrif tuag at dargedau (182/252) ar ffurflenni Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Os cymerir archebion o'r fath i gefnogi Cynghorau a'r Llywodraeth, dylent gael eu hesemptio rhag talu'r ardoll a dylid gwneud addasiad pro rata ar reolau 182/252.” (Darparwr llety)*

## Themâu yn erbyn esemptio arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol

**Heriau wrth nodi'r grŵp hwn**

4.67 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn yr esemptiad arfaethedig oedd pryderon y byddai heriau wrth geisio nodi'r unigolion perthnasol, ac roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai angen datgelu gwybodaeth gyfrinachol ynglŷn â budd-daliadau a statws tai er mwyn gwneud hyn.

*"Ni fyddai'n ymarferol nodi pobl ddigartref heb ddatgelu gwybodaeth sensitif ac, fel arfer, ni fydd ganddynt ffordd o dalu." (Awdurdod lleol)*

---

a. **Arosiadau a drefnir drwy'r Swyddfa Gartref wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â cheisiadau am loches a rhoi llety dros dro i ffoaduriaid**

---

## Themâu o blaid esemptio arosiadau a drefnir drwy'r Swyddfa Gartref wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau statudol

**Cysondeb â chwmpas arfaethedig yr ardoll**

4.68 Y thema a godwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y farn nad yw arosiadau a drefnir gan y Swyddfa Gartref yn unol â'i swyddogaethau statudol o fewn cwmpas arfaethedig yr ardoll, gyda'r ymatebwyr hyn yn nodi na ddylid ystyried bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ymwelwyr ac felly dylent gael eu hesemptio rhag talu'r ardoll ymwelwyr.

*“Nid yw'r ymweliadau hyn yn ymwneud â thwristiaeth.” (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb**

4.69 Yr ail thema a welwyd amlaf oedd y farn y byddai codi'r ardoll ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn annheg. Nododd ymatebion o'r fath nad dewis yw aros mewn llochesi a llety i ffoaduriaid, ac felly byddai'n annheg codi'r ardoll ar arosiadau sy'n angenrheidiol am resymau dyngarol. At hynny, nododd rhai ymatebwyr hyd yn oed pe bai'r ardoll yn cael ei godi, ni fyddai'r unigolion sy'n defnyddio'r mathau hyn o lety yn gallu talu.

*“Nid 'twristiaid' yw'r rhai a gaiff eu lletya o dan drefniadau o'r fath, maent yn bobl agored i niwed sydd angen cymorth cyhoeddus ac ni ddylent orfod talu'r ardoll.” (Sefydliad rheoli tir)*

### Themâu yn erbyn esemptio arosiadau a drefnir drwy'r Swyddfa Gartref wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau statudol

**Mae pob ymwelydd yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus**

4.70 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn erbyn esemptio arosiadau a drefnir drwy'r Swyddfa Gartref oedd y farn bod pob ymwelydd yn defnyddio seilwaith a gwasanaeth cyhoeddus, ac felly'n elwa ar gamau i ailfuddsoddi'r cyllid. Awgrymodd llawer o'r ymatebion hyn nad oes angen esemptiadau gan y bydd y refeniw a godir drwy'r ardoll yn gwella seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus, a gaiff eu defnyddio'n gyffredinol gan bob unigolyn a ystyrir yn ymwelydd.

*“[…] os ydych am godi'r ardoll, ni ddylai fod unrhyw esemptiad. Mae ymwelwyr, ni waeth beth fo natur eu hymweliad, yn dal i ddefnyddio gwasanaethau lleol.” (Darparwr llety)*

**Pryderon ynghylch effeithiolrwydd yr ardoll**

4.71 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y byddai hyd yn oed Llywodraeth Cymru yn talu amdano'n anuniongyrchol drwy'r system budd-daliadau pe na bai esemptiad ar waith. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn mai mynediad cyfyngedig sydd gan geiswyr lloches a ffoaduriaid at adnoddau, sy'n golygu y gallai'r ardoll gael ei dalu drwy'r system budd-daliadau.

*“Mynediad cyfyngedig at gyllid fydd gan geiswyr lloches. Ac, fel uchod, fel arfer caiff costau'r lleoliadau hyn eu hariannu gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru.” (Awdurdod lleol)*

---

a. **Arosiadau mewn llety a ddarperir gan elusennau a sefydliadau nid-er-elw ar sail anfasnachol (e.e. at ddibenion lloches, seibiant neu noddfa – llochesi i bobl ddigartref)**

---

**Hyrwyddo tegwch ac effaith ar y gymdeithas**

4.72 Y thema a godwyd amlaf o blaid yr esemptiad hwn oedd y farn bod llety a ddarperir gan elusennau a sefydliadau nid-er-elw yn cael effaith gadarnhaol ar gymdeithas ac felly y dylid eu cefnogi. Nododd llawer o'r ymatebwyr hyn fod llety a ddarperir at ddibenion lloches, seibiant neu noddfa yn cefnogi unigolion agored i niwed y mae angen cymorth arnynt ac yn rhoi cyfleoedd cyfartal iddynt, a thrwy hynny, hyrwyddo tegwch, a mynegwyd pryderon y byddai codi'r ardoll yn yr achosion hyn yn creu rhwystrau ariannol ac felly'n eithrio'r unigolion mwyaf agored i niwed rhag defnyddio rhai mathau o lety.

> *"Sefydliadau anfasnachol yw'r rhain; nid ydynt yn ceisio gwneud elw ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig at gymdeithas a'i llesiant, ac felly dylid eu hesemptio." (Corff o'r diwydiant llety)*

> *"Hefyd, ni fyddem am greu rhwystr ariannol i'r unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n atal neu'n lleihau'r risg o niwed." (Awdurdod lleol)*

**Cysondeb â chwmpas arfaethedig yr ardoll**

4.73 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn bod esemptio arosiadau mewn llety a ddarperir gan elusennau yn gyson â chwmpas yr ardoll a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn nad yw arosiadau o'r fath yn dod o fewn cwmpas arosiadau ymwelwyr ac felly na ddylai ardoll ymwelwyr fod yn gymwys iddynt.

> *"Ni ellir ystyried y bobl hyn fel twristiaid ac efallai nad oes ganddynt unrhyw ddewis o ran ble y cânt eu lleoli." (Ymateb dienw)*

**Eglurder ynghylch statws elusennol**

4.74 Y drydedd thema a godwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd cais am eglurhad o ran y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad, lle roedd ymatebwyr yn gofyn am ganllawiau cliriach ar ba sefydliadau a ystyrir yn elusennau er mwyn sicrhau y codir yr ardoll mewn ffordd gadarn ac y cymhwysir esemptiadau teg.

*“Mae perygl o ran sut y caiff elusennau eu diffinio a gallai o bosibl arwain at ddadleoli neu gystadleuaeth annheg. Er enghraifft, mae ''llety a ddarperir gan elusennau a sefydliadau nid-er-elw ar sail anfasnachol' yn cwmpasu llawer mwy na llochesi (sy'n annadleuol). […] A fyddai'n cael ei ddiffinio yn ôl gweithgarwch neu yn ôl statws elusennol a sut y byddai hyn yn cael ei orfodi a'i wirio, yn enwedig i ddarparwyr llety?” (Corff o'r diwydiant busnes)*

**Cwestiwn 10:** A oes unrhyw esemptiadau eraill y dylem eu hystyried? Dewiswch bob un a ddylai fod yn gymwys yn eich barn chi:

Tabl 2. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r opsiynau am esemptiadau eraill

| Esemptiadau eraill i'w hystyried | % yr ymatebion a oedd yn cytuno |
|---|---|
| **Arosiadau dros nos ar gyfer triniaeth feddygol** | 41% |
| **Plant a phobl ifanc** | 36% |
| **Pobl anabl** | 22% |

Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 876 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 80% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.75 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (41% neu 361 o ymatebion)[3] yn cytuno ag esemptio arosiadau dros nos ar gyfer triniaeth feddygol. Yr ail esemptiad a ddewiswyd amlaf oedd plant a phobl ifanc (36% neu 318 o ymatebion), ac yna bobl anabl (22% neu 197 o ymatebion).

## Themâu yn erbyn ystyried esemptiadau ychwanegol

### Pryderon gweinyddol

4.76 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd pryderon y byddai esemptiadau ychwanegol yn creu baich gweinyddol

[3] Nid yw'r canrannau a ddyfynnir yn y paragraff hwn ac a gyflwynir yn y tabl yn ffurfio cyfanswm o 100%. Mae hyn oherwydd bod hwn yn gwestiwn amlddewis, sy'n golygu y gallai pob ymatebydd ddewis mwy nag un ateb. Cyfrifir y canrannau a ddyfynnir mewn perthynas â nifer yr ymatebwyr, yn hytrach na nifer yr ymatebion.

ychwanegol. Yn gyffredinol, nododd yr ymatebion hyn y byddai angen penderfynu ar esemptiadau ychwanegol, eu dilysu ac yna eu cymhwyso, ac y byddai angen adnoddau sylweddol i wneud hyn.

4.77 Crybwyllwyd y thema hon yn aml ochr yn ochr â'r angen am ddull gweithredu cyson o ran cymhwyso'r ardoll. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y dylai'r ardoll fod yn gymwys i bob darparwr llety er mwyn sicrhau tegwch a lleihau baich gweinyddol.

> *“Dylid cael cyn lleied o esemptiadau â phosibl neu ni fydd modd rheoli'r system a bydd pobl yn chwilio am elfennau amwys i'w camddefnyddio." (Awdurdod lleol)*

> *“Byddai'r broses weithredu yn creu gwaith gweinyddol ychwanegol i ddarparwyr llety hefyd.” (Awdurdod lleol)*

> *“Bydd yn anodd rhoi'r ardoll ar waith os bydd gormod o esemptiadau.” (Preswylydd)*

**Pryderon ynghylch dilysu a thystiolaeth**

4.78 Yr ail thema a grybwyllwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn esemptiadau ychwanegol oedd y farn y byddai'n heriol dilysu nifer o esemptiadau a darparu tystiolaeth ar eu cyfer. Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr hyn bryderon nad oes gan y darparwyr yr wybodaeth ofynnol i ddilysu'r esemptiadau arfaethedig mewn ffordd ddibynadwy. O ganlyniad, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai fod yn heriol darparu tystiolaeth o'r esemptiadau i'r awdurdod treth.

> *“Sut y byddai unrhyw un o'r esemptiadau ychwanegol a awgrymwyd yn cael eu diffinio a sut y darperir tystiolaeth ar eu cyfer?” (Corff o'r diwydiant llety)*

> *“Nid yw'r darparwr llety mewn sefyllfa i bennu'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'w ymwelwyr.” (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Pryderon cyfreithiol**

4.79 Y drydedd thema a godwyd amlaf yn erbyn esemptiadau ychwanegol oedd pryderon ynghylch materion cyfreithiol mewn perthynas â'r esemptiadau

arfaethedig. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus na fyddai darparwyr yn gallu gorfodi'r esemptiadau arfaethedig yn effeithiol, oherwydd cyfyngiadau cyfrinachedd a diogelu data. Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys sawl darparwr llety, yn bryderus ynghylch y risg y byddai ymwelwyr yn darparu gwybodaeth anghywir gan y byddent yn atebol am ddarparu tystiolaeth o esemptiadau yn y pen draw.

> *"Hefyd mae materion tra phwysig yn ymwneud â diogelu data ac agweddau meddygol, ac mae pob un o'r rhain yn ychwanegu at faich busnesau bach a chanolig o ran hyfforddiant a chapasiti. Fel y cyfryw, er bod angen ystyried y rhain, rhaid bod disgwyliad cymesur ar fusnesau bach a chanolig. Gall atebolrwydd cyfreithiol ar ddarparwyr llety beri problemau hefyd, gan ei fod yn annheg mai nhw sy'n gyfrifol am roi tystiolaeth yn hytrach na bod cyfrifoldeb ar unigolion dros ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth gywir – ac yn atebol am ddarparu gwybodaeth ffug." (Sefydliad nid-er-elw)*

## Themâu o blaid ystyried esemptiadau ychwanegol

### Yr angen am ymweliadau meddygol

4.80 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd o blaid yr esemptiadau ychwanegol arfaethedig oedd tegwch esemptio ymweliadau meddygol. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn pwysleisio bod yr ymweliadau meddygol hyn yn angenrheidiol ac felly byddai'n deg peidio â'u cynnwys o fewn cwmpas yr ardoll ymwelwyr.

> *"Ar gyfer achosion pan fo'r arhosiad am driniaeth feddygol, ni ddylid codi'r ardoll. Yr egwyddor yma yw nad mater o ddewis yw ymweld am driniaeth feddygol, h.y. fel yn achos ymweliadau at ddibenion hamdden neu fusnes." (Awdurdod lleol)*

### Pryderon ynghylch trethu plant

4.81 Yr ail thema a godwyd amlaf gan y rhai a oedd o blaid yr esemptiadau ychwanegol oedd pryderon na fyddai codi'r ardoll ar blant yn briodol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai'n annheg codi ardoll ar blant, o ystyried bod llawer o'u hymweliadau yn debygol o fod at ddibenion addysgol.

*“[…] cefnogi nifer o sefydliadau gyda gweithgareddau a arweinir gan wirfoddolwyr ar gyfer pobl ifanc gan eu helpu i fwynhau'r awyr agored – a dylid esemptio'r gweithgareddau/pobl ifanc hyn rhag talu'r ardoll hefyd. Er enghraifft, ymweliadau addysgol ac ymweliadau preswyl; Cynllun Dug Caeredin; Sgowtiaid a Geidiaid." (Darparwr llety)*

*“Mae angen teithiau preswyl ar blant fel rhan o'u haddysg ac felly ni ddylid codi ardoll arnynt er mwyn osgoi ychwanegu rhagor o gostau at y teithiau hyn.” (Ymateb dienw)*

**Hyrwyddo tegwch**

4.82 Y drydedd thema a godwyd amlaf o blaid yr esemptiadau ychwanegol oedd y farn bod esemptiadau yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb os ydynt yn cefnogi grwpiau agored i niwed. Nododd rhai ymatebwyr fod diffyg adnoddau a llety amgen gan y grwpiau a gefnogir drwy'r esemptiadau arfaethedig yn aml, ac felly bod aros mewn llety ymwelwyr yn atal digartrefedd. Hefyd, nododd ymatebwyr eraill y gallai peidio â chymhwyso'r esemptiadau arfaethedig arwain at wahaniaethu yn erbyn y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol isel.

*"Ni fyddem am greu rhwystr ariannol ychwanegol a allai effeithio ar deuluoedd mwy a'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol is sydd â llai o incwm gwario.” (Awdurdod lleol)*

*“At hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debyg mai'r llety ar gyfer yr unigolion / teuluoedd hyn pan fyddant yn aros mewn ardal fydd eu prif breswylfa a'u hunig breswylfa ar y pryd, sy'n golygu na fydd ganddynt lety arall ble y gallent aros. Byddai codi'r ardoll ymwelwyr o dan yr amgylchiadau hyn yn annheg ac mae'n debygol y bydd yn wahaniaethol." (Sefydliad rheoli tir)*

**Esemptiadau eraill a awgrymwyd**

4.83 Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer esemptiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried. Yr esemptiad a grybwyllwyd amlaf oedd esemptio gweithwyr a phreswylwyr pe bai argyfwng, megis pan fo angen i feddygon ymweld â phobl mewn ardaloedd eraill neu yn ystod argyfyngau

naturiol. Awgrym arall a wnaed gan ymatebwyr oedd esemptio gweithwyr gofal a seibiant, a allai ddod gyda chleifion ar ymweliadau meddygol.

*“Hoffem esemptio gweithwyr brys mewn argyfyngau. Er enghraifft, os na fyddai staff clinigol yn gallu cyrraedd/gadael ysbyty Nevill Hall, efallai y byddai angen eu lletya mewn gwestai lleol er mwyn sicrhau bod yr ysbyty yn cael ei redeg yn ddiogel. Yn ogystal, byddem hefyd yn dymuno esemptio preswylwyr lleol a allai gael eu symud i lety ymwelwyr dros dro pe bai argyfwng, er enghraifft y rhai sy'n gorfod gadael eu cartrefi oherwydd llifogydd." (Awdurdod lleol)*


*“Gweithwyr gofal a chynorthwywyr cymorth y mae'n rhaid iddynt fynd gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gallai hyn gynnwys rôl am dâl ac yn ddi-dâl a gellid darparu tystiolaeth drwy lythyr cyflogaeth neu drwy gerdyn gofalwyr di-dâl.” (Elusen)*

---

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai unrhyw esemptiadau gael eu sefydlu o fewn fframwaith mandadol a nodir mewn deddfwriaeth?

---

Ffigur 9. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â sefydlu esemptiadau o fewn fframwaith mandadol a nodir mewn deddfwriaeth




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 824 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 76% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.84 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (63% neu 515 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai unrhyw esemptiadau gael eu sefydlu o fewn fframwaith mandadol a nodir mewn deddfwriaeth.

**Eglurder a symlrwydd**

4.85 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd cytuno â sefydlu esemptiadau o fewn fframwaith mandadol a nodir mewn deddfwriaeth, gan dybio mai dyma fyddai'r dull gweithredu mwyaf syml ac eglur. Nododd llawer o ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai fframwaith mandadol cyffredin yn sicrhau bod yr un esemptiadau yn gymwys ym mhob awdurdod lleol, gan wella eglurder ynglŷn â'r ardoll sy'n gymwys.

> *"Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb a dileu unrhyw ddehongliadau amwys mewn deddfwriaeth sylfaenol newydd. Gellir ychwanegu a diwygio drwy is-ddeddfwriaeth gyda gofynion ymgynghori yn seiliedig ar angen brys ai peidio." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

> *"Byddai hyn yn golygu bod yr holl wybodaeth am y dreth wedi'i gosod yn glir mewn un lle er budd teithwyr a'r diwydiant twristiaeth. Byddai hefyd yn sicrhau nad yw esemptiadau yn amrywio ar lefel awdurdod lleol, a allai beri dryswch a bod yn anodd i fusnesau eu dilyn, pe baent yn newid yn rheolaidd." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Sicrhau cysondeb**

4.86 Yr ail thema a godwyd amlaf oedd cytuno â'r cynnig dan sylw, gan y byddai'n sicrhau cysondeb ledled awdurdodau lleol, er i rai ymatebwyr awgrymu hefyd y byddai'n rhaid cael dull clir ar gyfer ystyried esemptiadau ychwanegol yn y dyfodol.

> *"dylai unrhyw esemptiadau o'r fath fod yn gyson ledled Cymru. Dylai fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddefnyddio'r un esemptiadau a diffiniadau a nodir gan y ddeddfwriaeth." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

> *"Yn cytuno y dylai esemptiadau gael eu sefydlu o fewn fframwaith mandadol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried proses i wneud cais am esemptiad ar gyfer yr*

*achosion hynny pan na fydd yr esemptiadau y cytunwyd arnynt yn berthnasol." (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo tegwch**

4.87 Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd y farn y byddai fframwaith mandadol cyffredin yn nodi'r esemptiadau yn sicrhau chwarae teg i ymwelwyr a darparwyr. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn y thema hon yn cysylltu cysondeb â thegwch, oherwydd ystyriwyd y byddai esemptiadau cyffredin yn helpu i osgoi cystadleuaeth annheg rhwng awdurdodau lleol.

> *"Mae'n bwysig bod esemptiadau yn cael eu safoni a'u trin yn deg ar draws ardaloedd awdurdod lleol, yn hytrach na chaniatáu i awdurdodau lleol wneud esemptiadau gwleidyddol posibl er eu budd eu hunain. Bydd hyn hefyd yn helpu i atal unrhyw faterion cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiad sy'n codi o ganlyniad i feini prawf hyblyg ar gyfer esemptio." (Corff o'r diwydiant busnes)*

**Hwyluso prosesau monitro a gorfodi effeithiol**

4.88 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr oedd cytuno â chynnwys esemptiadau mewn fframwaith mandadol a nodir mewn deddfwriaeth, ar y sail y byddai hyn yn hwyluso prosesau monitro a gorfodi mwy effeithiol.


> *"Mae'n rhaid iddynt fod yn gyson a chael eu diffinio'n glir er mwyn lleihau'r risg o elfennau amwys a heriau." (Awdurdod lleol)*

---

**Cwestiwn 12:** Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, cred [Llywodraeth Cymru] y dylai unrhyw esemptiadau gael eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod amgylchiadau nad yw [Llywodraeth Cymru] yn ymwybodol ohonynt lle y gall fod angen i awdurdod lleol gael pwerau disgresiynol i esemptio. A ddylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i esemptio?

---

Ffigur 10. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 836 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 77% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.89 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn y cwestiwn hwn (68% neu 569 o ymatebwyr) yn anghytuno â rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol.

## Themâu yn erbyn rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol

### Angen dull gweithredu cyson ac eglur

4.90 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol o blaid rhoi'r un esemptiadau ar waith yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod cysondeb ac eglurder mewn perthynas ag esemptiadau'r ardoll. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn o'r farn y gallai cael esemptiadau gwahanol mewn awdurdodau lleol gwahanol arwain at ddiffyg eglurder ymhlith darparwyr llety ac ymwelwyr o ran yr esemptiadau sydd ar gael. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylid cyflwyno dull lle gallai awdurdodau lleol wneud cais am esemptiadau fesul achos.

> *"Er mwyn bod yn deg, rhaid i'r trefniadau fod yr un peth i bob cyngor. Gallwn weld sefyllfa yn hawdd iawn lle gallai cyngor unigol ystyried estyn*

*yr ardoll i berchnogion ail gartrefi sydd eisoes yn talu treth gyngor uwch." (Preswylydd)*

*"Mae'n anochel y bydd rhoi pwerau disgresiynol i esemptio yn arwain at ddiffyg cysondeb sylweddol ledled Cymru. Fodd bynnag, dylai fod ffordd y gall awdurdod lleol neu grŵp o awdurdodau lleol gyflwyno achos dros esemptiad ychwanegol nas ystyriwyd wrth greu'r ardoll ond sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach." (Awdurdod lleol)*

**Pryderon ynglŷn â'r baich gweinyddol**

4.91 Yr ail reswm a godwyd amlaf yn erbyn rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol oedd y pryder y byddai'n cynyddu'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol a darparwyr llety yn sylweddol.

*"Drwy agor esemptiadau i awdurdodau lleol, bydd yn cynyddu'r llwyth gwaith i'r awdurdod ac felly cost rhedeg y cynllun, yn ogystal â gwneud y cynllun yn agored i gael ei gamddefnyddio." (Elusen)*

*"Byddai hyn yn ychwanegu at gymhlethdod i ddarparwyr llety." (Sefydliad nid-er-elw)*

**Effaith ar brosesau monitro a gorfodi effeithiol**

4.92 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd y pryder y byddai monitro a gorfodi'r ardoll yn llawer mwy heriol pe bai gan bob awdurdod lleol esemptiadau gwahanol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai esemptiadau gwahanol yn arwain at ddiffyg eglurder i'r awdurdod treth a darparwyr llety, gan amharu ar ymdrechion i fonitro a chreu cyfleoedd i bobl osgoi'r dreth o bosibl. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, nododd rhai ymatebwyr y dylai esemptiadau fod yn dryloyw ac yn gyson ledled awdurdodau lleol.

*"Mae angen i'r dull o roi'r ardoll ymwelwyr ar waith fod yn dryloyw ledled pob ardal yng Nghymru." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*"Fel y nodwyd eisoes, mae hyn yn gwneud y system yn rhy gymhleth a gallai pobl ei chamddefnyddio." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid rhoi pwerau disgresiynol i esemptio i awdurdodau lleol

### Pwerau disgresiynol i esemptio mewn amgylchiadau eithriadol

4.93 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw oedd yr awgrym y dylid caniatáu pwerau disgresiynol i esemptio o dan amgylchiadau eithriadol (e.e. yn ystod argyfyngau). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon yn ffafrio cysondeb o ran esemptiadau, ond hefyd yn cydnabod bod angen hyblygrwydd yn ystod argyfyngau, gan awgrymu y byddai cynnwys hyblygrwydd yn y fframwaith treth yn caniatáu i esemptiadau gael eu teilwra yn unol ag anghenion pob awdurdod lleol o dan amgylchiadau eithriadol.

> *"Dylent, dylid cadw pwerau disgresiynol i esemptio yn ôl i awdurdodau lleol ar gyfer amgylchiadau eithriadol a nas rhagwelwyd, e.e. rhyfel, clefyd a dirwasgiad economaidd, yn ogystal ag amgylchiadau personol unigolyn. Er bod y rhain yn enghreifftiau o esemptiadau a ddylai fod yn gymwys ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n rhan o'r cynllun, cytunwn y byddai pŵer gweddilliol i bennu esemptiadau ar wahân yn ddefnyddiol i ddarparu ar gyfer anawsterau lleol, e.e. llifogydd mewn eiddo a feddiennir." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

> *"Er y dylai'r fframwaith mandadol gael ei gyflwyno ledled Cymru, dylid cynnwys y pŵer i gyflwyno esemptiadau lleol mewn amgylchiadau eithriadol a bennir gan amgylchiadau lleol os byddant/pan fyddant yn codi." (Awdurdod lleol)*

### Y gallu i addasu i amgylchiadau lleol

4.94 Yr ail thema a godwyd amlaf o blaid pwerau disgresiynol i esemptio oedd y farn y byddai'n golygu y gellid teilwra'r ardoll yn unol ag anghenion pob awdurdod lleol. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn bod pob awdurdod lleol yn unigryw o ran yr ymwelwyr y mae'n eu denu, y mathau o lety a gynigir, a'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ac felly mai dull gweithredu wedi'i deilwra i bob awdurdod lleol fyddai fwyaf addas.

*“er mwyn caniatáu i faterion lleol gael eu hystyried” (Sefydliad nid-er-elw)*

*"Dylid caniatáu i awdurdod lleol gyflwyno esemptiadau disgresiynol mewn achosion pan na fydd fframwaith cenedlaethol yn cefnogi'r achos unigol." (Ymateb dienw)*

## Mathau o lety sydd o fewn y cwmpas


4.95 Mae'r bennod hon yn dadansoddi safbwyntiau ynghylch a ddylai fod unrhyw eithriadau i ystyried pob llety ymwelwyr o fewn y cwmpas – er enghraifft trothwy yn seiliedig ar ddiwrnodau gosod lle y dylid ystyried bod llety o fewn cwmpas yr ardoll, neu'n seiliedig ar isafswm pris llety neu ystafell, neu elw neu drosiant y darparwr llety ymwelwyr.

---

**Cwestiwn 13:** Er mwyn sicrhau tegwch, cynigir y dylid ystyried bod pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll hwn. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

---

Ffigur 11. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno ag ystyried pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll (er mwyn sicrhau tegwch)




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 903 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 83% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.96 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (60% neu 546 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r cynnig i ystyried pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll hwn.

## Themâu yn erbyn ystyried pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll

### Angen eglurhad pellach

4.97 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig oedd y cais am wybodaeth ychwanegol. Roedd yr ymatebwyr hyn, er enghraifft, o'r farn nad yw'r diffiniad o ddarparwyr llety a osodir yn fasnachol yn glir, ac felly nid oedd yn galluogi ymatebwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran cefnogi'r cynnig.

> *"O'r diffiniad o lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, nid yw ystyr llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol yn glir. Nid yw'r diffiniad yn glir, ac mae angen eglurder ar fyrder." (Ymateb dienw)*

### Angen cynllun cofrestru cenedlaethol

4.98 Yr ail reswm a godwyd amlaf yn erbyn cynnwys pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll oedd y ffaith nad oes cynllun cofrestru cenedlaethol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'n heriol iawn gweinyddu ardoll ymwelwyr heb gynllun cofrestru cenedlaethol ar gyfer darparwyr llety.

> *"Hefyd, ni ellir cyflwyno treth mewn ffordd ystyrlon a rhesymol cyn cael cynllun cofrestru statudol." (Darparwr llety)*

> *"[…] yr unig ffordd synhwyrol o symud ymlaen fyddai sefydlu'r cynllun cofrestru gyntaf." (Darparwr llety)*

### Effaith anghymesur ar ddarparwyr llety bach

4.99 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd y pryder y byddai'n cael effaith anghymesur ar ddarparwyr llety bach, ac felly y dylent gael eu hesemptio o'r ardoll. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fel rheol o'r farn bod darparwyr bach yn llai tebygol o feddu ar yr adnoddau i weinyddu'r ardoll, ac y byddai colli ymwelwyr yn effeithio mwy arnynt. Hefyd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag effaith peidio ag esemptio llety rhad ar degwch, o ystyried y farn y gallai hyn gael effaith andwyol ar deuluoedd incwm isel, gan eu heithrio'n annheg.

*“Mae'n bosibl y bydd anawsterau ymarferol wrth weithredu'r ardoll ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr bach, y rhai sy'n cael archebion anfynych neu fathau anghonfensiynol o lety." (Corff o'r diwydiant treth)*

*“Credwn yn gryf y dylai fod esemptiadau i'r dreth (gweler Cwestiwn 8) am ei fod yn cynnig mynediad rhad a fforddiadwy at wyliau" (Darparwr llety)*

## Themâu o blaid ystyried pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll

### Hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb

4.100 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw yn teimlo mai ardoll â chwmpas eang fyddai decaf i ddarparwyr llety, gan sicrhau bod y manteision a'r anfanteision a fyddai'n deillio o ardoll yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ymhlith pob darparwr. Roedd llawer o ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y gallai eithrio rhai mathau o lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol roi mantais annheg iddynt, gan y byddai cymhelliant i ymwelwyr newid i lety rhatach, heb ardoll. Hefyd, pwysleisiodd rhai ymatebwyr nad yw effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd a'u defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar y math o lety a ddefnyddir ganddynt, ac felly dylai pob un ohonynt dalu'r ardoll er mwyn cyfrannu at y gwaith o gynnal gwasanaethau cyhoeddus.

*"Cytunwn mai cynnwys pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll yw'r ffordd orau o gyflawni amcan y polisi, ac ni fyddai'n peri anfantais i un math o lety ymwelwyr o gymharu ag un arall." (Corff o'r diwydiant treth)*

*“Nid yw'n deg bod un busnes llety a osodir yn fasnachol yn gallu codi prisiau is nag un arall am ei fod wedi'i esemptio tra bo gweithredwr arall yn gorfod talu. "Mae hyn hefyd yn berthnasol os bydd un busnes ar un ochr ffin y Cyngor yn gorfod ei dalu, ond nad yw ei gymydog mewn ardal Cyngor arall yn gorfod ei dalu." (Corff o'r diwydiant llety)*

*“Nid yw'r math o lety y mae ymwelwyr yn aros ynddo o reidrwydd yn pennu'r effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y byddant yn ei chael ar yr*

*ardal ac felly, er tegwch, dylid codi ardoll ar bob math o lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol." (Sefydliad rheoli tir)*


**Sicrhau cysondeb a gorfodi**

4.101 Yr ail thema amlaf a godwyd o blaid cynnwys pob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol o fewn cwmpas yr ardoll oedd y farn y byddai'n sicrhau cysondeb ac yn cefnogi camau gorfodi effeithiol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai monitro a gorfodi'r ardoll ar ddarparwyr llety penodol yn unig yn creu cymhlethdodau gan arwain, yn y pen draw, at ddiffyg eglurder a chymhwyso'r ardoll mewn modd aneffeithiol.

*"Os caiff treth dwristiaeth ei chyflwyno, credwn y dylai fod yn gyffredinol a bod yn gymwys i bob llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol. Mae treth o'r fath yn hawdd ei gweinyddu a'i chasglu, yn hytrach na gorfod darparu ar gyfer esemptiadau ac amrywiadau niferus sy'n aml yn anodd eu cymhwyso, yn peri dryswch ac, yn y pen draw, yn arwain at gamgymeriadau." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Cwestiwn 14:** A ddylai unrhyw lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol gael ei esemptio rhag codi a chasglu ardoll ymwelwyr?

Ffigur 12. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno ag esemptio rhai mathau o lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol rhag codi a chasglu'r ardoll



Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 846 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 78% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.102 Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno ag esemptio rhai mathau o lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol (52% neu 441 o ymatebwyr), o gymharu â'r rhai a oedd yn anghytuno (48% neu 405 o ymatebwyr).

## Themâu o blaid esemptio llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol

### Esemptio busnesau nad ydynt yn cyrraedd trothwy penodol o ran trosiant

4.103 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y dylai llety gael ei esemptio rhag codi a chasglu'r ardoll os nad yw'n cyrraedd trothwy rhagddiffiniedig o ran trosiant. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod hwn yn ddull gweithredu teg, gan sicrhau hyfywedd darparwyr bach a chynaliadwyedd y sector. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw ymwelwyr llety bach yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau lleol am nad oes llawer ohonynt.

*“Rwy'n credu y dylai unrhyw fusnes â Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach gael ei esemptio rhag talu'r ardoll. Fel arfer, bydd busnesau o'r fath ar raddfa fach a byddant yn cyfrannu at yr economi leol mewn llawer o ffyrdd, drwy gyflogi busnesau lleol, er enghraifft i olchi dillad/garddio/cynnal a chadw'r adeilad. Ychydig o effaith y mae'r rhain yn ei chael, os o gwbl, ar wasanaethau cyhoeddus a ddarperir, neu anghenion seilwaith." (Ymateb dienw)*

*“efallai y dylid esemptio busnesau sy'n dod o dan drothwy penodol o ran eu trosiant blynyddol, a/neu nifer y nosweithiau y codir tâl amdanynt.” (Darparwr llety)*

### Esemptiadau ar gyfer llety arbenigol

4.104 Yr ail esemptiad a awgrymwyd amlaf gan ymatebwyr oedd darparwyr llety arbenigol. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn na ddylai'r ardoll fod yn gymwys i ganolfannau gofal ar gyfer unigolion ag anawsterau dysgu, ac

anghenion iechyd corfforol neu feddyliol, am nad yw'r math hwn o lety yn gysylltiedig â thwristiaeth a'i fod yn creu gwerth i gymdeithas.

> *"Llety arbenigol sy'n darparu gofal seibiant, e.e. canolfannau sy'n gofalu am blant neu oedolion ag anawsterau dysgu, dementia neu broblemau iechyd difrifol. Llety arbenigol sydd â chyfleusterau ar gyfer trin cyflyrau meddygol neu gyfleusterau neu wasanaethau arbenigol, e.e. canolfannau gwyliau â chyfleusterau dialysis, gofal hosbis." (Awdurdod lleol)*

**Esemptiadau eraill a awgrymwyd**

4.105 Y drydedd thema fwyaf cyffredin mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd ymatebwyr yn awgrymu esemptiadau eraill, nas codwyd mor aml, y dylid eu hystyried hefyd. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn y dylid esemptio llety rhad er mwyn lleihau effaith ardoll ar grwpiau incwm isel. Roedd ymatebwyr eraill yn dadlau dros esemptio elusennau a sefydliadau nid-er-elw rhag gorfod talu'r ardoll, a chynigiodd rhai ymatebwyr esemptiadau ar gyfer llety mewn ardaloedd gwledig hefyd.

> *"Er enghraifft, gallai fod eiddo sy'n cael ei osod yn fasnachol am ran o'r flwyddyn ac yn cael ei osod yn fyrdymor er mwyn sicrhau nad yw'r eiddo yn wag am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. […]. Yn y bôn, credwn y dylai landlord sydd â chontract meddiannu ac sydd wedi'i gofrestru â chronfa ddata Rhentu Doeth Cymru gael ei esemptio rhag talu'r ardoll." (Corff o'r diwydiant llety)*

> *"[…] yn cefnogi esemptiad ar gyfer busnesau gwledig sydd wedi arallgyfeirio a llety byrdymor annibynnol mewn ardaloedd gwledig." (Ymateb dienw)*

## Themâu yn erbyn esemptio llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol

**Cysondeb a thegwch**

4.106 Y thema fwyaf cyffredin yn erbyn esemptio llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol oedd yr angen am ddull cyson o ymdrin ag esemptiadau. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y dylai'r ardoll fod yn gymwys i bob

llety a osodir yn fasnachol er mwyn sicrhau y caiff pob math o lety ei drin yn gyfartal.

*"Mae pobl yn defnyddio gwasanaethau lleol felly mae'n well bod unrhyw un sy'n aros mewn eiddo a osodir yn fasnachol neu ar safle a osodir yn fasnachol yn gorfod talu'r ardoll." (Preswylydd)*

*"Er mwyn sicrhau tegwch, cysondeb a symlrwydd." (Sefydliad rheoli tir)*

**Pryderon ynghylch baich gweinyddol**

4.107 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig oedd pryderon o ran y cynnydd posibl yn y baich gweinyddol i awdurdodau lleol ac awdurdodau treth. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai'n anodd gweinyddu'r ardoll pe bai rhai mathau o lety wedi'u hesemptio gan y byddai'n rhaid i'r awdurdod treth asesu pa ddarparwyr sy'n bodloni'r meini prawf.

*"Mae'n bosibl na fydd gan rai darparwyr llety ymwelwyr unigol ofynion treth nac adrodd, e.e. nid yw'n ofynnol i unigolion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun rhentu ystafell gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu. Dylid ystyried, yn absenoldeb de minimis, y bydd yr ardoll ymwelwyr yn creu baich gweinyddol a all gael effaith anghymesur ar unigolion o'r fath" (Corff o'r diwydiant treth)*

## Cynigion trwyddedu statudol


4.108 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ynghylch sut y gall cynllun trwyddedu statudol helpu i roi ardoll ymwelwyr ar waith.

---

**Cwestiwn 15:** A ddylai rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr fod ar gael i'r awdurdod treth er mwyn helpu i weinyddu'r ardoll, yn hytrach na bod dim gofynion cofrestru ar waith?

---

Ffigur 13. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â chreu rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr a fyddai ar gael i'r awdurdod treth




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 845 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 78% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.109 Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â chreu rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr (53% neu 444 o ymatebwyr), o gymharu â'r rhai a oedd yn cytuno (47% neu 401 o ymatebwyr).

### Themâu o blaid cael rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gyfer yr awdurdod treth

#### Galluogi prosesau monitro a gorfodi effeithiol

4.110 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw oedd y farn y byddai cynllun cofrestru yn hwyluso prosesau i fonitro a gorfodi'r ardoll yn effeithiol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn o'r farn

y byddai cael rhestr gyflawn o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yn yr ardal leol yn caniatáu i'r awdurdod treth orfodi a monitro'r ardoll yn fwy effeithiol, ni waeth beth fo cyfradd a nodweddion eraill yr ardoll.

*“Mae hyn yn hanfodol i'r broses. Heb gofrestr gydnabyddedig a gaiff ei rheoleiddio, ni all awdurdodau lleol roi cyfrif llawn am eu sylfaen lety, gan felly gymhlethu'r gwaith o gyflwyno ardoll ymwelwyr ymhellach." (Awdurdod lleol)*

*"Drwy'r broses ymgynghori hon, nodwyd bod gorfodi proses gofrestru statudol yn hollbwysig er mwyn cyflwyno ardoll ymwelwyr. Ar hyn o bryd, ni all awdurdodau lleol ddarparu rhestr gynhwysfawr o bob darparwr llety. Os na fydd y dull hwn ar waith cyn i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau disgresiynol i gyflwyno'r ardoll, bydd y sector yn herio cydymffurfiaeth annheg" (Awdurdod lleol)*

**Llai o faich gweinyddol**

4.111 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig oedd y farn y byddai rhestr gynhwysfawr yn hwyluso prosesau i weinyddu'r ardoll yn effeithiol. Fel rheol, roedd yr ymatebion hyn o'r farn y byddai rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr yn helpu awdurdodau lleol i nodi pa ddarparwyr ddylai godi'r ardoll a chasglu'r refeniw yn effeithlon.

*“Byddai gweithredu a chofnodi’r gofynion sydd yn yr arfaeth ar gyfer cofrestru statudol yn effeithiol yn allweddol i hyn a byddai hefyd yn caniatáu ar gyfer casglu data a dadansoddi’r ardoll yn ei gyfanrwydd yn fwy effeithlon ac effeithiol.” (Elusen)*

*"Er mwyn gweinyddu ardoll ymwelwyr a gaiff ei gasglu gan ddarparwyr llety ymwelwyr, bydd angen cael rhwymedigaeth i'r rhai sydd o fewn cwmpas yr ardoll gofrestru â'r awdurdod treth a chael rhestr o bob darparwr llety ymwelwyr er mwyn gweithredu fel mesur rheoli." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Hyrwyddo cysondeb a thegwch yr ardoll**

4.112 Y trydydd rheswm a godwyd amlaf o blaid cyflwyno rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr oedd y farn y byddai'n sicrhau bod yr ardoll yn cael ei roi ar waith

yn gyson ar draws ardaloedd a darparwyr llety. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn, drwy gymhwyso'r ardoll yn gyson, y byddai pob darparwr yn gweithredu ar sail gyfartal, gan leihau'r posibilrwydd o fanteision annheg o ran cost.

*"Er mwyn sicrhau bod y system yn deg ac yn atebol. Bydd hefyd yn golygu bod llai o le i rai darparwyr unigol osgoi talu'r ardoll." (Preswylydd)*

*"Mae'n bwysig cael gwybodaeth am y sector er mwyn gallu gweinyddu'r ardoll, a hefyd sicrhau na chaiff busnesau dilys eu tanseilio gan rai eraill a allai osgoi'r ardoll." (Sefydliad nid-er-elw)*

*“Heb restr gynhwysfawr, sut y gellir sicrhau chwarae teg i bawb? Yn syml, ni fydd awdurdodau lleol yn gallu gorfodi'r dreth yn deg nac mewn ffordd sy'n amgyffred ffynonellau llawer o’r problemau y credir y cânt eu datrys gan y dreth hon." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Sicrhau proses gofrestru eang a mandadol**

4.113 Y thema nesaf a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd y farn bod yn rhaid i'r rhestr o ddarparwyr fod yn fandadol ac yn gymwys i bob darparwr er mwyn iddi fod yn effeithiol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon na fyddai’n ofynnol i ddarparwyr mathau penodol o lety gofrestru ar gyfer y rhestr o bosibl, gan gyfyngu felly ar ei defnyddioldeb. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai fod yn fandadol i bob darparwr llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol gofrestru. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai rhestr gynhwysfawr fandadol yn helpu i sicrhau safonau diogelwch ac ansawdd llety ymwelwyr yn gyffredinol.

*“Os caiff ardoll ei godi ar arosiadau dros nos gan ymwelwyr, bydd angen ei godi ar bob llety ymwelwyr, gan gynnwys llety a werthir ar lwyfannau trefnwyr gwyliau ar-lein […], nid dim ond busnesau llety hirsefydlog sy'n gweithredu drwy'r flwyddyn ac y mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt.” (Awdurdod lleol)*

*“Dylai cofrestru olygu bod yr awdurdodau treth a rheoleiddwyr statudol allweddol megis awdurdodau tân ac achub yn gwybod pwy yw’r rhai sy’n gwerthu llety i westeion sy’n talu – mae hyn yn bwysig er mwyn gallu cymhwyso a gorfodi’r un safonau diogelwch i bob math o lety twristiaeth,*

*gan gynnwys y rhai ar lwyfannau'r "economi rhannu" […], fel sydd eisoes yn cael eu cymhwyso a'u gorfodi ar westai a llety gwely a brecwast." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Galluogi dull cadarn o fesur effaith yr ardoll**

4.114 Y thema gyffredin olaf a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r rhestr o ddarparwyr oedd y farn y byddai'r rhestr yn helpu Llywodraeth Cymru i nodi a mesur effeithiau'r ardoll. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y dylid cynnal asesiad effaith cynhwysfawr cyn ac ar ôl rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith er mwyn deall a gyflawnwyd yr amcanion polisi ac a fu unrhyw effeithiau anfwriadol, ac y byddai rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr yn hanfodol at y diben hwn.

*"Yn wir, yn ogystal â bod angen hyn cyn cefnogi'r broses o weinyddu'r ardoll, mae'n bwysig casglu'r wybodaeth hon er mwyn cynnal asesiad gwirioneddol a manwl o'r effaith economaidd ar lefel leol ar gyfer y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon." (Sefydliad nid-er-elw)*

*"Credir y dylai rhestr gynhwysfawr o lety ymwelwyr fod ar gael i bob corff cyhoeddus sy'n gweithredu mewn ardal, nid dim ond at ddibenion trethu. Bydd hyn yn helpu i roi amcanion ehangach ar waith mewn perthynas â darparu tai mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig o ran llety gwyliau/ail gartrefi a chyfyngiadau yn y dyfodol ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol." (Sefydliad rheoli tir)*

## Themâu yn erbyn cael rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gyfer yr awdurdod treth

**Pryderon ynghylch effeithiolrwydd**

4.115 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr dros anghytuno â chreu rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr oedd pryder na fyddai'n ddefnyddiol o ystyried amheuon o ran pa mor effeithiol y byddai'n nodi pob darparwr, yn ogystal â chreu costau ariannol a baich gweinyddol ychwanegol o bosibl.

*"Bydd mwy o reolaethau, mwy o waith gweinyddol a mwy o fiwrocratiaeth yn costio mwy o arian i'w redeg ac yn lleihau unrhyw fudd o gael ardoll yn*

*y lle cyntaf.  Faint o bobl fyddai angen eu cyflogi ym mhob cyngor er mwyn rhedeg eich cynllun arfaethedig?" (Preswylydd)*

*"Ni fyddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau chwarae teg a gallai olygu na fyddai modd nodi pob eiddo mewn ardal leol" (Awdurdod lleol)*

**Defnyddio systemau a chofrestrau presennol**

4.116 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig dan sylw oedd y farn bod cofrestrau eisoes yn bodoli y gellid eu defnyddio yn lle creu un newydd. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi nad oes angen creu rhestr newydd o ddarparwyr llety ymwelwyr, o ystyried bod yr un wybodaeth eisoes wedi'i chynnwys ar gofrestrau eraill (e.e. y gofrestr ardrethi busnes).

*“Dylid nodi bod parciau carafannau gwyliau eisoes yn cael eu trwyddedu gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 ac, mewn egwyddor, mae rhestr gynhwysfawr o'r math hwn o ddarparwyr llety ymwelwyr eisoes ar gael.” (Corff o'r diwydiant llety)*


*“Pe bai'r ardoll yn cael ei gyflwyno yn y ffordd hon, bydd busnesau llety gwyliau dilys wedi'u cofrestru ar gyfer ardrethi busnes sut bynnag, ac felly mae gwybodaeth eisoes ar gael at ddibenion gweinyddol ac archwilio” (Ymateb dienw)*

---

**Cwestiwn 16:** A fyddai defnyddio'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig (yn hytrach na chreu cynllun cofrestru pwrpasol ar gyfer y dreth) yn cynnig dull priodol i awdurdod lleol sicrhau bod ganddo restr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr ac y byddai'r wybodaeth hon yn helpu i roi ardoll ymwelwyr ar waith?

---

Ffigur 14. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â defnyddio'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig er mwyn sicrhau bod rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gael




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 768 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 71% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.117 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (58% neu 443 o ymatebwyr) yn anghytuno y byddai'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn helpu awdurdodau lleol i nodi darparwyr llety ymwelwyr lleol a gweithredu'r ardoll.

## Themâu yn erbyn defnyddio'r cynllun trwyddedu statudol i nodi darparwyr a rhoi'r ardoll ar waith

### Defnyddio cofrestrau sydd eisoes yn bodoli

4.118 Y rheswm a godwyd amlaf gan ymatebwyr dros anghytuno â chreu cynllun trwyddedu statudol oedd y farn bod fframweithiau neu systemau eraill sydd eisoes yn bodoli y gellid eu defnyddio. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi y gellid coladu'r holl wybodaeth ofynnol ar gyfer rhoi'r ardoll ar waith yn effeithiol mewn systemau presennol, gan leihau'r angen i ymgyfarwyddo â system newydd yn ogystal ag osgoi costau datblygu.

> *"Yn ystod ein proses casglu data, awgrymodd rhai y gellid defnyddio porth TAW/hunanasesu presennol CThEF er mwyn cofrestru pob busnes llety. Byddai hyn yn gwneud y gwaith o weinyddu'r cynllun yn llai beichus ac yn*

*fwy hygyrch i fusnesau micro a busnesau bach a chanolig sydd eisoes yn gyfarwydd â'r llwybrau talu ac adrodd. Yna gallai CThEF ddadgyfuno refeniw er mwyn ei ailddosbarthu i bob awdurdod o fewn cyfnod statudol y cytunir arno. Yna gellid gwario adnoddau ar gyfer cofrestr ar olrhain y rheini sy'n cynnig llety achlysurol, ond nad ydynt wedi cofrestru â CThEF." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Pryderon ynghylch effeithiolrwydd a thegwch**

4.119 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynllun trwyddedu oedd y farn na fyddai'n helpu awdurdodau lleol yn sylweddol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn bryderus na fyddai'r cynllun yn effeithiol wrth nodi darparwyr llety yn yr ardal leol ac felly na fyddai'n lleihau'r baich gorfodi a monitro yn sylweddol.

*"Yr ail yw diffyg hyder y gall unrhyw gofrestr sicrhau trethiant teg fel rhwng y sectorau llety (heb sôn am sectorau eraill o'r economi ymwelwyr) nes ei bod eisoes wedi'i chwblhau i raddau helaeth. Yn benodol, […] gall y darparwyr amatur/achlysurol sy'n gweithredu o ail gartrefi barhau i guddio y tu ôl i statws y dreth gynnar, gan weithredu'n answyddogol ar y cyfryngau cymdeithasol – neu hyd yn oed ar lwyfannau trefnwyr gwyliau ar-lein lle diogelir hunaniaeth nes y caiff archeb ei chadarnhau." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*"Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ymarferol sut y bydd awdurdodau lleol yn cynnal hyn o ystyried ehangder ac amrywiaeth y llety sydd ar gael, natur anffurfiol a "dros dro" rhai o'r rhain, ac adnoddau gostyngol awdurdodau lleol." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

## Themâu o blaid defnyddio'r cynllun trwyddedu statudol i nodi darparwyr a rhoi'r ardoll ar waith

**Hyrwyddo proses weinyddu effeithiol**

4.120 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr o blaid defnyddio'r cynllun trwyddedu statudol oedd y farn y byddai'n hwyluso proses weinyddu effeithiol. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn y byddai'r cynllun trwyddedu statudol yn helpu awdurdodau treth i lunio rhestr o ddarparwyr

llety ymwelwyr yn yr ardal leol, gan hwyluso ffordd fwy effeithiol o reoli'r ardoll yn gyffredinol.

*"Byddai'r model ar gyfer cynllun trwyddedu llety ymwelwyr yn rhoi rhestr gynhwysfawr o weithredwyr llety byrdymor i'r awdurdodau treth a gallai hyn gefnogi'r gwaith o weithredu ardoll ymwelwyr." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Sicrhau cysondeb â rheoliadau eraill**

4.121 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig oedd yr awgrym y byddai'r cynllun trwyddedu yn gyson â rheoliadau presennol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn bryderus y gallai'r cynnig arwain at ddyblygu ymdrechion neu ganllawiau croes rhwng rheoliadau ac ymyriadau.

*"Byddai'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn ychwanegu at yr ardoll ac yn darparu rhestr fanwl o bob darparwr o'r fath mewn ardal. Byddai cynllun cofrestru ychwanegol cyfochrog sy'n gorgyffwrdd yn dyblygu gwaith, ac yn creu problemau posibl hefyd os na fyddai'r ddwy restr yn cyfateb." (Awdurdod lleol)*

*“Fodd bynnag, mae angen i unrhyw gyfundrefn sganio ar draws gyda'r cynigion yn rhywle arall er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae problem bod sawl ymyriad ar waith ym maes twristiaeth ar yr un pryd a diffyg eglurder o ran sut maent yn cyd-fynd â'i gilydd" (Sefydliad nid-er-elw)*

**Sicrhau cydymffurfiaeth**

4.122 Y drydedd thema a godwyd amlaf oedd y farn y byddai cynllun trwyddedu statudol yn helpu awdurdodau treth i sicrhau bod darparwyr llety yn cydymffurfio â'r ardoll. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai'r cynllun yn creu rhestr gynhwysfawr o'r holl ddarparwyr lleol o fewn y cwmpas, a thrwy hynny, leihau cost nodi darparwyr ac asesu eu cymhwystra. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai'r cynllun trwyddedu yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau iechyd a diogelwch.

*"Byddai cynllun trwyddedu statudol yn helpu i godi safonau drwy sicrhau y byddai'n rhaid i bob darparwr llety gyrraedd safonau penodol a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. […]. Gallai'r mesur hwn orfodi achrediad a sicrwydd amodau cynllunio perthnasol, yswiriant, profion cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch y mae pob un ohonynt, yn y pen draw, yn rhoi gwasanaeth gwych a hyder i'r ymwelydd sy'n archebu. Byddai'n anodd iawn rhoi ardoll ymwelwyr ar waith, ei gynnal a'i orfodi heb gyflwyno cynllun trwyddedu statudol am fod angen ymgymryd â nhw ar y cyd." (Awdurdod lleol)*

*"Mae cydymffurfiaeth wael yn golygu annhegwch rhwng busnesau sy'n cydymffurfio a'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'n camystumio'r farchnad, yn peri'r posibilrwydd o golli refeniw i'r awdurdodau lleol a niwed i'w henw da o ran llywodraethu. Felly cytunwn y dylai rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr fod ar gael i'r awdurdod treth er mwyn helpu i weinyddu'r ardoll" (Corff o'r diwydiant treth)*

**Hyrwyddo eglurder a thegwch**

4.123 Y thema gyffredin olaf o blaid y cynllun trwyddedu statudol oedd y farn y byddai'n ddull gweithredu clir a syml a fyddai'n hyrwyddo tegwch ymhlith ardaloedd a darparwyr. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn hyrwyddo eglurder a dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid, a thrwy hynny hwyluso cydymffurfiaeth. Hefyd, roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i nodi y byddai fframwaith clir, a roddir ar waith yn gyson ymhlith darparwyr, yn sicrhau bod pob darparwr llety yn cael ei drin yn gyfartal gan yr awdurdodau treth.

*"Dylai Cynllun Trwyddedu Statudol, os caiff ei gyflwyno'n effeithiol, sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol restr gynhwysfawr o bob llety ymwelwyr. Bydd y fasnach yn croesawu hyn gan y byddai'n sicrhau chwarae teg sydd wedi bod yn ddiffygiol ers peth amser" (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

*"Credwn y dylai fod mor syml â phosibl i ddarparwyr llety, yn enwedig busnesau bach, gofrestru eiddo a thalu'r dreth twristiaeth." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Math o gyfradd

4.124 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar ba fath o gyfradd fyddai'n gweithio orau i Gymru, a fyddai'n fuddiol pe byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol, ac unrhyw effeithiau posibl.

**Cwestiwn 17:** Pa un o'r canlynol fyddai'r math mwyaf priodol o gyfradd ar gyfer yr ardoll hwn yn eich barn chi? (i) Fesul noson, fesul ystafell/llety; (ii) Fesul person, fesul noson; (iii) Canran o'r tâl am lety; (iv) Model sy'n cyfuno'r uchod.

Tabl 3. Cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd opsiwn fel y math mwyaf priodol o gyfradd yr ardoll ymwelwyr

| Mathau o gyfraddau | % yr ymatebion |
|---|---|
| **Fesul person, fesul noson** | 34% |
| **Canran o'r tâl am lety** | 26% |
| **Fesul noson, fesul ystafell/llety** | 25% |
| **Model sy'n cyfuno'r uchod** | 15% |

Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 543 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 51% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.125 Yr opsiwn mwyaf cyffredin ar gyfer ardoll ymwelwyr yn y dyfodol a ddewiswyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd cyfradd fesul person, fesul noson (34% neu 184 o ymatebwyr), yna canran o'r tâl am lety (26% neu 141 o ymatebwyr), a chyfradd fesul noson, fesul ystafell/llety (25% neu 136 o ymatebwyr). Yr opsiwn a ddewiswyd leiaf aml oedd model sy'n cyfuno'r uchod, a ddewiswyd gan 15% (neu 82 o ymatebwyr).

## Themâu o blaid cyfradd fesul person, fesul noson

### Symlrwydd a rhwyddineb gweinyddu

4.126 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid cyfradd fesul person, fesul noson o'r farn mai dyna oedd y system symlaf a hawsaf i'w gweinyddu a'i rheoli. Awgrymodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai casglu gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr a hyd eu harhosiad yn haws o ran

gweinyddu o gymharu â'r wybodaeth y byddai ei hangen ar gyfer yr opsiynau eraill.

> *"Y gyfradd fesul person yw'r un hawsaf i'w gweinyddu o bell ffordd ac mae'n osgoi'r holl broblemau a chymhlethdodau sy'n gysylltiedig â diffinio, cofnodi a chasglu'r opsiynau eraill. Gellir ei chymhwyso ac mae'n gweithio i bob llety â gwasanaeth, carafannau, meysydd gwersylla, bythynnod ac ati, heb broblem." (Ymateb dienw)*

**Hyrwyddo tegwch**

4.127 Yr ail reswm a godwyd amlaf dros gefnogi'r math hwn o ardoll oedd y farn y byddai'n sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n deg at gefnogi seilwaith lleol. Nododd yr ymatebwyr hyn fel y sail sy'n adlewyrchu effaith ymwelwyr orau, o ystyried y byddai'r ardoll a fyddai'n daladwy yn seiliedig ar nifer yr unigolion sy'n cael budd o wasanaethau a seilwaith lleol.

> *"Dyma fyddai'n adlewyrchu effaith yr ymwelydd orau. Fodd bynnag, byddai angen ystyried mesurau lliniaru ar gyfer darparwyr llety megis meysydd gwersylla a pharciau carafannau lle gallai'r ardoll fod yn gyfran sylweddol o gost yr arhosiad." (Awdurdod lleol).*

**Cysondeb â meincnodau rhyngwladol**

4.128 Y thema gyffredin olaf o blaid ardoll fesul person, fesul noson oedd y cynsail rhyngwladol ar gyfer y math hwn o gyfradd. Nododd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fod gwledydd Ewropeaidd eraill eisoes wedi rhoi ardoll fesul person, fesul noson ar waith, ac felly bod ei effaith eisoes yn hysbys. Ystyriwyd y byddai hyn yn galluogi awdurdodau treth i ddefnyddio gwersi a ddysgwyd a sicrhau bod yr ardoll yn cael cymaint o effaith â phosibl.

> *"Mae'n glir i'r ymwelydd a'r darparwr llety. Dyma'r model a ddefnyddir mewn gwledydd eraill yn Ewrop sydd eisoes wedi cyflwyno ardoll." (Awdurdod lleol)*

## Themâu yn erbyn cyfradd fesul person, fesul noson

**Pryderon ynghylch cymesuredd i ddarparwyr llety rhad**

4.129 Cymesuredd oedd y mater mwyaf cyffredin a nodwyd yn erbyn cyfradd fesul person, fesul noson. Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn yr opsiwn

hwn yn credu ei fod yn wrthgynyddol, ac y byddai'r dreth yn cynrychioli cyfran fwy o gost opsiynau llety rhad, megis gwestai pris rhesymol, meysydd gwersylla, a llety hunanddarpar, a fyddai'n cael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel. Nododd rhai busnesau heriau ymarferol i weinyddu'r ardoll ar y sail hon, gan gynnwys yr angen i fesur nifer y gwesteion yn effeithiol, gyda'r posibilrwydd y byddai angen dibynnu ar onestrwydd gwesteion i hunangofnodi.

*“Yr unig anfantais yw y byddai rhywun sy'n aros mewn gwesty pum seren yn talu'r un faint â rhywun mewn pabell ond byddai'n dâl fesul ymwelydd o hyd ac felly'n cael ei godi'n gyfartal ar bawb” (Ymateb dienw)*

## Themâu o blaid math o ardoll a godir ar sail canran o'r tâl am lety

### Blaengar ei natur

4.130 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid math o ardoll ar sail canran o'r tâl am lety y byddai'r math hwn o gyfradd yn sicrhau tegwch i bob ymwelydd. Yn benodol, ystyriwyd bod codi ar sail canran yn flaengar gan y byddai'r baich treth yn lleihau gyda chost y llety sylfaenol, gan osgoi cosbi ymwelwyr o deuluoedd incwm isel yn anghymesur.

*“Mae fesul person a fesul ystafell yn drethiant gwrthgynyddol. Bydd teulu ar isafswm cyflog yn talu'r un faint â bancer cyfoethog mewn penty sy'n 5000 y noson. Mae canran o'r tâl yn golygu y bydd hosteli a llety rhad yn codi llai o dreth, felly bydd y dreth yn tueddu i gael mwy o effaith ar bobl gyfoethog." (Ymateb dienw)*

*"Yn bwysicach, byddai'n sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei chyflawni'n well oherwydd byddai pobl sydd ond yn gallu fforddio llety rhatach yn talu canran o'r tâl am y llety rhatach tra byddai pobl sy'n gallu fforddio llety drutach yn talu ardoll uwch. [...] Yn gyffredinol, byddai hyn yn cosbi pobl ar incwm isel." (Awdurdod lleol)*

### Hyblyg i newidiadau mewn pris

4.131 Yr ail thema fwyaf cyffredin o blaid y math hwn o ardoll oedd y farn ei fod yn caniatáu i bris y llety amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau a wynebir gan

ddarparwyr llety. Yn benodol, roedd rhai darparwyr llety yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y byddai tâl ar sail canran yn ei gynnig, o ystyried ei allu i amrywio yn seiliedig ar y tymor, gostyngiadau, ac elfennau eraill sy'n ysgogi prisiau.

*"Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â chodi canran o'r tâl am lety. Mae'n cefnogi ymdrechion i ymdrin â thymoroldeb sy'n un o flaenoriaethau strategol ein Cynllun Rheoli Cyrchfannau oherwydd bod llety yn debygol o fod yn rhatach y tu allan i gyfnodau brig ac felly byddai'r ardoll yn rhatach yn unol â hynny hefyd." (Awdurdod lleol)*

## Themâu yn erbyn math o ardoll a godir ar sail canran o'r tâl am lety

### Pryderon ynghylch buddsoddi mewn busnesau

4.132 Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn erbyn math o ardoll ar sail canran o'r tâl am lety oedd y posibilrwydd y byddai'n cael effaith andwyol ar fuddsoddi mewn busnesau. Nododd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn yr opsiwn hwn y gallai hyn leihau cymhellion i fuddsoddi mewn cynyddu ansawdd llety, o ystyried y byddai'r ardoll yn cynyddu ochr yn ochr ag unrhyw gynnydd yng nghyfradd yr ystafell.

*"Yn ôl yr adborth rydym wedi ei gael ar y cwestiwn hwn, byddai canran o'r gyfradd trosiant yn rhwystro buddsoddiad yn y sector yn y dyfodol." (Sefydliad Rheoli Cyrchfannau)*

### Pryderon ynghylch baich gweinyddol

4.133 Yr ail ddadl a godwyd amlaf yn erbyn y math hwn o ardoll oedd pryderon ynglŷn â'r baich sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r dreth sy'n ddyledus. Nododd rhai busnesau gymhlethdod ychwanegol cyfrifo lefel treth ar sail canran, am nad yw'n glir bob amser beth ddylai gael ei gynnwys yn y tâl am lety.

*"Bydd canran o'r tâl am lety yn anodd iawn i'w gweinyddu gan fod llawer o ddarparwyr yn cynnwys bwyd ac amwynderau eraill (e.e. y defnydd o gyfleusterau iechyd, gwibdeithiau ac ati) fel rhan o'r gost felly nid yw'n amlwg pa ran o'r bil sy'n cyfeirio at y llety yn unig." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid math o ardoll a godir fesul noson, fesul ystafell (neu lety)

### Hyrwyddo tegwch

4.134 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid math o ardoll a godir fesul noson, fesul ystafell (neu lety) yn dadlau mai hon oedd y ffordd symlaf a thecaf o weinyddu'r ardoll. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod yr wybodaeth y byddai ei hangen i gyfrifo'r tâl ar gyfer y math hwn o gyfradd eisoes yn cael ei chasglu'n rheolaidd ar y cyfan gan ddarparwyr llety.

> *“Fesul noson fesul ystafell fyddai'r opsiwn hawsaf i'w reoli. Mae hefyd yn decach oherwydd bod y tâl am lety yn uwch fel rheol pan fydd pobl wedi buddsoddi yn eu busnesau. Os mai gwella safon gyffredinol llety yw'r nod, ni ddylai fod datgymhellion i wella eiddo a chodi mwy." (Ymateb dienw)*

## Themâu yn erbyn math o ardoll a godir fesul noson, fesul ystafell (neu lety)

### Effaith andwyol ar deithwyr unigol

4.135 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn ardoll a godir fesul noson, fesul ystafell yn dadlau y byddai'n cosbi teithwyr unigol o gymharu â'r rhai fyddai'n teithio fel grwpiau neu deuluoedd, o ystyried y byddai'r un gyfradd yn gymwys ni waeth faint o ymwelwyr oedd yn aros. Ystyriwyd y gallai grwpiau o ymwelwyr rannu cyfanswm y gost, ac felly leihau'r effaith ar bob un.

> *"Byddai cyfradd fesul ystafell / fesul llety yn golygu y byddai person sengl yn talu'r un faint â theulu pe bai'n rhentu bwthyn gwyliau" (Ymateb dienw)*

### Effaith andwyol ar iechyd a diogelwch

4.136 Roedd yr ail bwynt a nodwyd yn erbyn y math hwn o ardoll yn ymwneud â'r effeithiau anfwriadol posibl ar iechyd a diogelwch oherwydd cymhellion anffafriol. Fel y crybwyllwyd uchod, nododd rhai ymatebwyr fod cost yr ardoll fesul person yn lleihau wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu, a mynegwyd pryderon y gallai annog mwy o ymwelwyr i aros mewn un llety er mwyn rhannu'r gost â mwy o unigolion, gan beryglu eu hiechyd a'u diogelwch o bosibl (e.e. drwy orlenwi).


*"Os byddwch yn codi treth fesul ystafell, bydd y gwesteion yn ceisio gwasgu cynifer o bobl â phosibl i mewn er mwyn arbed arian, yn enwedig ar lefelau incwm a chyllideb is, a allai achosi pob math o ganlyniadau anfwriadol, megis risg tân." (Sefydliad Cynrychioliadol o'r Diwydiant)*

---

**Cwestiwn 18:** Rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r un math o gyfradd ym mhob awdurdod lleol sy'n defnyddio ardoll ymwelwyr, yn hytrach na bod hyn yn cael ei benderfynu'n lleol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?

---

Ffigur 15. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â defnyddio'r un math o gyfradd ym mhob awdurdod lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 812 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 75% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.137 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (66% neu 537 o ymatebwyr) yn cytuno â defnyddio'r un math o gyfradd ym mhob awdurdod lleol, yn hytrach na phenderfynu arni'n lleol.

**Hyrwyddo cysondeb ar draws awdurdodau lleol**

4.138 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y farn y byddai defnyddio'r un math o gyfradd yn genedlaethol yn sicrhau cysondeb. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn na fyddai math cyson o ardoll yn creu manteision annheg i ddarparwyr llety mewn awdurdodau a fyddai'n dewis math gwahanol o ardoll. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y

byddai cysondeb yn cynyddu cydymffurfiaeth, a thrwy hynny gynyddu'r refeniw a gesglir.

*“Er mwyn cadw'r lefel yn gyson ledled Cymru lle y bo modd. Nid yn unig o fudd i'r ymwelydd ond hefyd yn helpu i sicrhau chwarae teg i gyrchfannau, lle gallai'r gwrthwyneb fod yn niweidiol i ardaloedd sy'n codi mwy." (Awdurdod lleol)*

*"Dylid codi'r dreth mewn ffordd safonedig ac mae angen diffinio beth yw cyfraddau'r dreth yn glir er mwyn cyflawni'r gymhareb uchaf bosibl o refeniw a gynhyrchir." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Lleihau baich gweinyddol**

4.139 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y farn y byddai defnyddio'r un math o gyfradd yn haws o ran gweinyddu. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai angen i ddarparwyr llety neilltuo mwy o adnoddau i roi'r ardoll ar waith pe bai'r math o gyfradd yn cael ei benderfynu'n lleol. Esboniodd llawer o'r ymatebwyr hyn y byddai cyfraddau gwahanol yn fwy cymhleth o ran gweinyddu, yn enwedig i ddarparwyr sy'n gweithredu mewn awdurdodau lleol gwahanol.

*"Ni ddylai'r system fod yn gymhleth a dylai fod yr un peth ledled Cymru neu, fel arall, bydd hyn yn golygu bod cyfran uwch o'r dreth yn mynd ar gostau gweinyddol. […]. Ni ddylai'r ffordd y caiff y dreth hon ei rhoi ar waith beri costau diangen i'r diwydiant." (Corff o'r diwydiant llety)*

*“Os bydd yn ofynnol i'r […] gasglu unrhyw ardoll, sy'n debygol, byddai'n fuddiol cael yr un math o gyfradd er mwyn hwyluso'r broses o'i weinyddu, systemau a gweithdrefnau." (Parc teithio)*

**Osgoi cystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol**

4.140 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y pryder y byddai cynnig dewis i awdurdodau lleol o ran y math o ardoll yn creu cystadleuaeth rhyngddynt. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn bryderus y gallai awdurdodau lleol gael eu cymell i ddefnyddio cyfraddau o fath penodol er mwyn denu darparwyr llety penodol ac ymwelwyr i'w hardaloedd.

*"Er mwyn osgoi'r risg a'r posibilrwydd o ganlyniadau nas rhagwelwyd ar ffurf 'cystadleuaeth fewnol', dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu'r un cyfraddau ac esemptiadau (h.y. un ardal awdurdod lleol yn codi ardoll is nag un arall er mwyn ennill 'cyfran o'r farchnad')." (Sefydliad rheoli tir)*

*"Byddai cymhwyso cyfradd gyson ledled pob ardal yng Nghymru yn dileu'r posibilrwydd y byddai awdurdodau lleol yn cystadlu â'i gilydd." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Hwyluso dealltwriaeth o'r ardoll**

4.141 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y byddai defnyddio'r un math o gyfradd yn helpu rhanddeiliaid i ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r ardoll a sut y caiff ei roi ar waith. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai math cyson o gyfradd o fudd i ymwelwyr drwy eu helpu i ddeall y rhesymau y tu ôl i wahaniaethau rhwng prisiau arosiadau mewn llety ymwelwyr. Roedd ymatebwyr eraill yn credu y byddai'r cynnig yn helpu darparwr llety i ddeall sut y cyfrifir yr ardoll, faint y dylent ei godi, a pha gyfran o'r refeniw fyddai'n cael ei hailfuddsoddi yn y sector twristiaeth lleol. Codwyd y thema hon gan awdurdodau lleol yn aml.

*"Bydd cysondeb o ran y ffordd y caiff yr ardoll ei roi ar waith ledled Cymru yn bwysig er mwyn osgoi dryswch ymhlith ymwelwyr nad ydynt yn ymwybodol o'r ffiniau rhwng ardaloedd." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

*"Byddai cael cyfradd gyson yn lleihau dryswch i weithredwyr ac ymwelwyr." (Awdurdod lleol)*

**Cynyddu cydymffurfiaeth**

4.142 Yr thema gyffredin olaf a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y farn y byddai math safonedig o gyfradd yn hyrwyddo cydymffurfiaeth. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai'n haws i ddarparwyr llety weinyddu a chodi cyfradd gyson, gan arwain at well cydymffurfiaeth a chasglu mwy o refeniw. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai awdurdodau treth fonitro a gorfodi'r ardoll yn fwy effeithiol pan fo'r math o gyfradd yn gyson.

*"Dylid codi'r dreth mewn ffordd safonedig ac mae angen diffinio beth yw cyfraddau'r dreth yn glir er mwyn cyflawni'r gymhareb uchaf bosibl o refeniw a gynhyrchir. Ni ddylai'r ffordd y caiff y dreth hon ei rhoi ar waith beri costau diangen i'r diwydiant." (Elusen)*

*"Fel yr esboniwyd uchod, credwn y dylai'r dreth fod yn gyson ym mhob ffordd ledled pob awdurdod lleol er mwyn lleihau dryswch, lleihau camgymeriadau ac, yn y pen draw, sicrhau y collir llai o dreth. Mae dull gweithredu canoledig yn llawer symlach i'w roi ar waith i bob rhanddeiliad." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

---

**Cwestiwn 19:** A oes effeithiau ychwanegol y dylem eu hystyried ar sail y math o gyfradd a ddewisir (er enghraifft, effeithiau ynghylch: adnoddau ac amser staff, costau ariannol, costau gweinyddol eraill, yr amser a'r costau y byddai eu hangen i ddiweddaru unrhyw systemau digidol, newidiadau tymhorol i brisiau, ac unrhyw effeithiau eraill y dylem eu hystyried)?

---

## Ardoll fesul noson, fesul ystafell (neu lety)

### Torri mesurau iechyd a diogelwch

4.143 Y pryder a nodwyd amlaf i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas ag ardoll fesul noson, fesul ystafell (neu lety) oedd y risg bosibl o dorri mesurau iechyd a diogelwch. Yn gyffredinol, nododd yr ymatebwyr hyn fod risg y gallai'r math hwn o gyfradd greu cymhellion anffafriol i ymwelwyr orlenwi ystafelloedd. Nodwyd y gallai hyn arwain at sefyllfaoedd anniogel o bosibl os na allai darparwyr llety ddilysu a monitro nifer yr ymwelwyr yn effeithiol.

*"Gall hyn olygu bod ymwelwyr yn ceisio rhoi mwy o bobl mewn eiddo/ystafell na'i gapasiti/chapasiti gwirioneddol er mwyn osgoi talu'r ardoll, canlyniadau anfwriadol. Gallai hyn arwain at dorri mesurau iechyd a diogelwch a thorri polisïau yswiriant masnachol." (Elusen)*

### Lleihau'r baich dilysu

4.144 Y thema a godwyd amlaf mewn perthynas ag effaith y math hwn o gyfradd ar awdurdodau treth oedd llai o faich o ran dilysu gwybodaeth. Roedd yr ymatebwyr fel arfer o'r farn y byddai'n haws i awdurdodau treth a darparwyr

llety ddilysu nifer yr ystafelloedd (neu unedau o lety) o gymharu â dilysu nifer yr ymwelwyr.

*"O ran yr agweddau ymarferol, mae cyfradd safonol fesul ystafell yn hawdd ei deall i ddefnyddwyr llety, er mae'n bosibl y bydd p'un a ddylid cynnwys ystafelloedd mewn llety hunanddarpar lle gall soffa droi'n wely yn cymhlethu pethau. Byddai llai o ofynion o ran cadw cofnodion i ddarparwyr llety ac mae'n debygol y byddai'n hawdd i awdurdodau lleol gadarnhau nifer yr ystafelloedd gwely, er na fyddai modd cadarnhau yn hawdd p'un a yw ystafell â gwely soffa yn cael ei defnyddio fel ystafell wely." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Newidiadau ymddygiadol andwyol**

4.145 Y risg o newidiadau ymddygiadol andwyol oedd yr effaith a godwyd amlaf gan ymatebwyr mewn perthynas ag ymwelwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai ardoll fesul noson, fesul ystafell (neu lety) gymell ymwelwyr i ddarparu gwybodaeth ffug ynghylch nifer yr ymwelwyr yn eu grŵp. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai'r math hwn o gyfradd symud dosbarthiad patrymau ymwelwyr tuag at ymweliadau grŵp o gymharu ag ymweliadau gan unigolion, gyda baich y math hwn o gyfradd ardoll yn cael effaith anghymesur ar ymwelwyr unigol.

*"Mae cost yr ardoll fesul person yn lleihau po fwyaf y nifer o ymwelwyr sy'n aros yn yr un ystafell, felly gallai hyn arwain at gost uwch i deithwyr unigol o gymharu â grwpiau, ac i'r rhai sy'n aros mewn llety gwesty safonol o gymharu â llety ansafonol." Gallai hyn arwain at newidiadau ymddygiadol o ran y math o lety y bydd ymwelwyr yn dewis aros ynddo." (Corff o'r diwydiant treth)*

*"Byddai hyn yn annog ymwelwyr i roi cynifer o westeion â phosibl ym mhob ystafell, gan beri risg bosibl i gysur a diogelwch, yn ogystal â mwy o draul ar lety" (Awdurdod lleol)*

## Ardoll fesul person, fesul noson

### Heriau o ran dilysu nifer yr ymwelwyr

4.146 Heriau o ran dilysu nifer yr ymwelwyr oedd y mater a godwyd amlaf mewn perthynas ag effaith ardoll fesul person, fesul noson ar ddarparwyr llety. Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr hyn bryderon y gallai fod yn heriol i rai darparwyr llety ddilysu nifer yr ymwelwyr yn gywir, gan ddibynnu ar ymwelwyr i hunangofnodi a thrwy hynny arwain at y posibilrwydd o gael gwybodaeth ffug gan ymwelwyr neu y byddai ymwelwyr ychwanegol nas cofnodwyd yn defnyddio ystafelloedd a archebwyd.

> *"Fel arfer, un person fydd yn archebu llety a bydd angen iddo roi gwybod yn onest beth yw maint y parti. Nid y gweithredwr sydd ar fai am niferoedd ffug bob amser gan fod rhai ymwelwyr yn ceisio osgoi costau ychwanegol […]" (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

### Y gost weinyddol a chost gorfodi

4.147 Yr effaith ar awdurdodau treth a godwyd amlaf oedd y gost a fyddai'n gysylltiedig â gweinyddu a gorfodi ardoll o'r math hwn. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr hyn y byddai angen cryn fuddsoddiad mewn systemau, personél a seilwaith gan awdurdodau treth yn ogystal â darparwyr llety er mwyn dilysu nifer yr ymwelwyr.

> *"Costus dros ben o ran amser staff i'w weinyddu a hyd yn oed yn fwy costus o ran y dreth a gollir ar elw a cholli TAW" (Ymateb dienw)*

> *"costau gweinyddol, adnoddau ac amser staff, costau ariannol, addysg a hyfforddiant" (Awdurdod lleol)*

### Newid ymddygiadol andwyol

4.148 Yr effaith fwyaf cyffredin ar ymwelwyr a nodwyd o ganlyniad i'r math hwn o gyfradd oedd posibilrwydd o newidiadau ymddygiadol andwyol. Yn debyg i fath o ardoll a godir fesul noson, fesul ystafell (neu lety), roedd ymatebwyr yn bryderus y byddai ymwelwyr yn cael eu cymell i gynnig gwybodaeth ffug er mwyn lleihau'r swm y byddent yn ei dalu.

> *"un person sydd eisoes yn archebu llety yn aml a gallai wedyn osgoi nodi'r nifer gwirioneddol yn y parti er mwyn osgoi costau ychwanegol. Byddai'n*

*anodd iawn i berchnogion blismona hyn, os nad yn amhosibl." (Corff o'r diwydiant llety)*

## Ardoll ar sail canran o'r tâl am lety

### Effaith andwyol ar lety cost uchel

4.149 Y farn fwyaf cyffredin mewn perthynas ag effeithiau'r math hwn o gyfradd ar ddarparwyr llety oedd yr effaith negyddol y gallai ei chael ar ddarparwyr cost uchel. Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr a gododd y thema hon y gallai math o ardoll ar sail canran o'r tâl am lety gosbi darparwyr sy'n cynnig llety cost uchel ac ansawdd uchel, gan greu cymhellion anffafriol i leihau ansawdd darpariaeth llety.

*"Bydd ymyrraeth marchnad yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr y bydd yn rhaid iddynt ostwng prisiau er mwyn lleihau'r gwahaniaeth canrannol rhwng darparwyr pris rhesymol" (Preswylydd)*

### Heriau i fonitro cydymffurfiaeth

4.150 Yr effaith fwyaf cyffredin ar awdurdodau treth a nodwyd mewn perthynas â'r math hwn o ardoll oedd y farn y gallai fod yn heriol i awdurdodau treth fonitro cydymffurfiaeth darparwyr llety yn gywir. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi mai canran o'r tâl am lety fyddai'r math anoddaf o gyfradd i'w gyfrifo a'i orfodi'n gadarn, o ystyried y bydd yr ardoll yn dibynnu ar gost yr ystafell, a all amrywio'n sylweddol o dymor i dymor ac yn unol â chwyddiant.

*"Byddai'n anodd iawn i'r awdurdod treth bennu p'un a yw'r gyfradd gywir yn cael ei chasglu a'i datgan ar sail ganrannol. Bydd llawer o ddarparwyr llety yn amrywio eu cyfradd yn ôl y tymor a bydd rhoi tystiolaeth o daliadau unigol ar gyfer arosiadau yn feichus i berchnogion busnes a'r awdurdod treth." (Corff o'r diwydiant busnes)*

## Cyfradd drethadwy

4.151 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar yr hyn a fyddai'n gap priodol lle na fyddai ardoll ymwelwyr yn cael ei godi mwyach.

---

**Cwestiwn 20:** Wrth bennu cyfradd, pa ffactorau a thystiolaeth y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau bod cyfradd yr ardoll yn briodol? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys elastigeddau pris ac incwm, galw tymhorol (ac felly newidiadau mewn prisiau) ac amgylchiadau economaidd ehangach

---

**Galw tymhorol a newidiadau cysylltiedig mewn prisiau**

4.152 Y ffactor a awgrymwyd amlaf gan ymatebwyr i'w ystyried wrth bennu cyfradd ardoll oedd y ffordd y mae'r galw am lety yn amrywio o dymor i dymor a'r newidiadau mewn prisiau o ganlyniad i hyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y dylai fod elfen o hyblygrwydd i'r ardoll er mwyn ystyried cyfraddau uchaf ac isaf ystafelloedd yn dibynnu ar y tymor. Cafwyd rhai awgrymiadau y gallai'r ardoll weithredu fel toll er mwyn cymell pobl i ymweld yn ystod adegau tawel, drwy ei wneud yn rhatach, a fyddai'n fuddiol i ddarparwyr llety ac economïau ymwelwyr lleol.

> *"Mae pawb yn gwybod bod gostyngiad sylweddol yn nifer y twristiaid yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig Cymru dros fisoedd y gaeaf. O ganlyniad i hyn, bydd rhai perchnogion llety gwyliau yn cau eu busnesau gan eu bod o'r farn y byddai'n anymarferol parhau i fasnachu yn ystod y misoedd tawelach. [...]" (Corff o'r diwydiant busnes)*

> *"Byddai'n ddefnyddiol rhoi'r gorau i godi'r ardoll yn ystod y tymor tawel neu gael system haenog a fyddai'n gwneud y tymor tawel a'r tymor ysgwydd yn fwy deniadol" (Awdurdod lleol)*

**Amgylchiadau economaidd ehangach**

4.153 Yr ail ffactor mwyaf cyffredin a awgrymwyd oedd ystyried effaith amgylchiadau economaidd ehangach wrth bennu'r gyfradd drethadwy. Fel rheol, mynegodd yr ymatebwyr hyn bryderon y gall argyfyngau – megis yr argyfwng costau byw ar hyn o bryd, pandemig COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin – gael effaith sylweddol ar y sector twristiaeth. Ystyriwyd felly y dylai cyfradd drethadwy'r ardoll fod yn hyblyg er mwyn ymateb i ffactorau andwyol

o'r fath. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr eraill a gododd y thema hon y dylid ystyried maint yr elw wrth bennu cyfradd yr ardoll.

*“Mae amgylchiadau economaidd ehangach – megis yr argyfwng costau byw, yr argyfwng ynni a'r dirwasgiad posibl sydd ar y gorwel – yn awgrymu nad yw'n amser da i roi treth bellach ar waith ar dwristiaid sydd eisoes â llai o incwm gwario." (Preswylydd)*

*“Adborth gan y sector ar effaith amodau economaidd ehangach ar faint eu helw a phwysau presennol ar sensitifrwydd prisiau defnyddwyr” (Awdurdod lleol)*

**Cynnal asesiad effaith**

4.154 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a awgrymwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd yr awgrym i bennu'r gyfradd drethadwy yn seiliedig ar ganfyddiadau asesiad effaith. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn bod effaith yr ardoll ar lety ymwelwyr, y sector twristiaeth ac economïau lleol yn amwys. Fel y cyfryw, roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i ddadlau y dylid cynnal asesiad effaith er mwyn deall yn well y sensitifrwydd i effeithiau tebygol yr ardoll a bennir. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnal asesiadau effaith yn ystod y flwyddyn gyntaf o roi'r ardoll ar waith, ac addasu'r gyfradd yn seiliedig ar y canfyddiadau.

*“[…] mae'n hanfodol deall digonolrwydd unrhyw dreth yn yr awdurdodau lleol perthnasol dan sylw, yn unigol. Hynny yw, ar lefel yr awdurdod unigol, beth yw lefel yr adnoddau gofynnol er mwyn sicrhau ei bod hi werth gweinyddu'r dreth yn y lle cyntaf. Heb gynnal yr asesiad effaith llawn hwn, mae'n anodd deall yr effaith ar lefel busnesau unigol." (Corff o'r diwydiant busnes)*

*"O ran ffactorau a thystiolaeth o briodoldeb, byddai dadansoddi nifer y twristiaid a'u gwariant yn ystod dwy flynedd gyntaf yr ardoll, o leiaf, yn rhoi syniad o ba mor llwyddiannus ydyw. Os gwelir gostyngiad sylweddol yna gellid ei adolygu, fel arall, gellid ei gynyddu os na fydd effaith ar nifer yr ymwelwyr a'u gwariant." (Elusen)*

**Ystyried elastigedd pris**

4.155 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i ystyried elastigedd pris y galw wrth bennu cyfradd yr ardoll. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon, ac awdurdodau lleol yn arbennig, o'r farn y bydd ystyried elastigedd pris y galw am nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan dwristiaid (gan gynnwys llety ymwelwyr) yn hanfodol er mwyn pennu cyfradd ardoll sy'n lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar y sector twristiaeth.

> *"Byddai'r dreth dwristiaeth yn hunandrechol pe bai'n lleihau twristiaeth yng Nghymru. Felly, dylid cynnal dadansoddiad gofalus o elastigedd pris galw cyn bod Llywodraeth Cymru yn pennu'r gyfradd drethadwy."  (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

> *"Mae'n hanfodol bod dealltwriaeth ymlaen llaw o elastigedd pris galw ac na fydd unrhyw ardoll yn arwain at leihau maint cyffredinol y sector" (Awdurdod lleol)*

**Awgrymiadau eraill**

4.156 Cynigiwyd amrywiaeth o awgrymiadau eraill gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ar gyfer ffactorau y dylid eu hystyried wrth bennu'r gyfradd. Yr awgrym amgen mwyaf cyffredin oedd ystyried cynsail rhyngwladol ar gyfer ardollau ymwelwyr neu gynlluniau tebyg. Nododd ymatebwyr a wnaeth yr awgrym hwn fod ardollau ymwelwyr wedi cael eu cyflwyno mewn gwledydd amrywiol – gan gynnwys Sbaen a Ffrainc – ac, o ganlyniad, y dylid ystyried tystiolaeth am effaith yr ardoll yn y gwledydd hyn wrth bennu'r gyfradd. Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid ystyried baich treth cronnol busnesau. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y dylid codi cyfradd is neu ddim cyfradd o gwbl ar ddarparwyr sydd eisoes yn talu swm sylweddol mewn trethi. Awgrym arall a gafwyd oedd defnyddio gwybodaeth am hyd arhosiad er mwyn cymell ymwelwyr i aros am gyfnodau hwy; er enghraifft, drwy leihau'r gyfradd wrth i hyd arhosiad gynyddu. Awgrymodd ymatebwyr eraill archwilio gasgliad cynrychiadol o astudiaethau achos er mwyn deall effaith yr ardoll.

> *"Fel opsiwn amgen, hoffem weld y baich treth cronnol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio Porth Hunanasesu a TAW CThEF. Os bydd swm cronnol*

*y dreth yn uwch na throthwy penodol, yna ni chodir treth bellach. Gellid gwneud hyn ar y cyd â dadansoddiad o'r cyfraddau cymedrig a godir ar hyn o bryd am fathau penodol o lety." (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Er mwyn cael tystiolaeth, byddai angen gwneud gwaith manwl gan ddefnyddio astudiaethau achos go iawn ac nid dim ond dulliau modelu cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. " (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*


*"Tebyg i Ffrainc/Sbaen a gwledydd profiadol eraill yn y maes" (Ymateb dienw)*

---

**Cwestiwn 21:** Wrth benderfynu pa gyfradd (neu gyfraddau) i'w phennu (neu eu pennu), a ddylid ystyried cyfradd sy'n gymesur â chost (neu fath/ansawdd) llety?

---

Ffigur 16. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno ag ystyried cyfradd ardoll sy'n gymesur â chost y llety




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 716 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 66% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.157 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (64% neu 457 o ymatebwyr) yn anghytuno ag ystyried cyfradd sy'n gymesur â chost y llety wrth benderfynu pa gyfradd i'w phennu.

## Themâu yn erbyn ystyried cyfradd sy'n gymesur â chost y llety

### Cymhlethdod a baich gweinyddol

4.158 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig oedd pryderon y byddai ardoll sy'n gymesur â chost y llety yn rhy gymhleth i'w gweinyddu. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu y byddai cyfrifo'r ardoll mewn perthynas â chost y llety yn gymhleth, gan arwain at lwyth gwaith sylweddol i ddarparwyr llety. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r cynnig fod yn ddryslyd i ymwelwyr hefyd oherwydd efallai na fyddent yn deall pa ran o'r gost derfynol a gynrychiolwyd gan yr ardoll.

> *"[…] byddai defnyddio cyfradd gymesur yn gwneud y broses o gyfrifo'r ardoll yn fwy cymhleth. Er mwyn hwyluso'r gwaith gweinyddu i ddarparwyr llety ymwelwyr, dylai'r math o gyfradd fod mor syml i'w chyfrifo â phosibl." (Corff o'r diwydiant treth)*

> *"Mae angen i'r dreth fod mor syml â phosibl i berchnogion a gweithredwyr ei rhoi ar waith os caiff ei chyflwyno. Mae angen i'r defnyddiwr ei ddeall hefyd. Bydd amrywio cyfraddau ar gyfer llety o fath ac ansawdd gwahanol yn peri dryswch ac yn arwain at gamfynegiant os bydd yn lleihau'r swm i'w dalu." (Corff o'r diwydiant llety)*

### Datgymell cynnig llety o ansawdd uchel

4.159 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd yn erbyn y cynnig oedd y farn y byddai cyfradd sy'n gymesur â chost y llety yn cosbi darparwyr llety cost uchel. Gan y byddai ardoll uwch yn cael ei godi ar lety cost uchel ac o ansawdd uchel, ystyriwyd y gallai darparwyr llety deimlo pwysau i leihau prisiau neu newid i gynnig llety rhad o ansawdd isel.

> *"Os byddwch yn ei ychwanegu at gost y llety, byddwch yn camystumio'r farchnad llety gan orfodi'r sefydliadau gwerth uwch i ostwng y pris fesul ystafell y noson er mwyn ystyried yr ardoll uwch. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar sefydliadau gwerth uwch er eu bod eisoes yn wynebu biliau ynni uwch, er enghraifft." (Preswylydd)*

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi nifer o gynlluniau i wella ansawdd y llety sydd ar gael yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hyn yn mynd yn erbyn y cynlluniau hynny yn llwyr ac yn cosbi gweithredwyr llety am wella eu hansawdd. Gallai ddatgymell darparwyr rhag gwneud gwelliannau pellach os ydynt yn gwybod y bydd yn eu gwthio i ddosbarth treth uwch." (Awdurdod lleol)*

## Themâu o blaid ystyried cyfradd sy'n gymesur â chost y llety

### Hyrwyddo tegwch

4.160 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd o blaid cyfradd sy'n gymesur â chost y llety oedd y farn ei fod yn ddull gweithredu teg. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod codi ardoll uwch ar lety drutach yn deg, ac y gallai gymell ymwelwyr i ymweld â mathau eraill o lety neu rannau eraill o Gymru. Ystyriwyd y gallai hyn leihau'r pwysau ar ardaloedd poblogaidd, gan greu manteision economaidd i ranbarthau nad ydynt yn cael llawer o dwristiaid fel arfer.

*“Canran o'r tâl am lety fyddai'r opsiwn tecaf a lleiaf dryslyd a byddai'n adlewyrchu amrywiadau tymhorol mewn prisiau, gan y byddai'n gymesur â chost y llety.” (Awdurdod lleol)*

*"Mae egwyddor tegwch yn bwysig i weithredu ardoll ymwelwyr. […]. Gellid dadlau y bydd tâl cymesurol yn creu tâl ychwanegol is mewn rhannau o Gymru lle mae prisiau eisoes yn is, gyda'r posibilrwydd o ddenu mwy o ymwelwyr oddi wrth ardaloedd â llawer o alw i ardaloedd daearyddol newydd lle mae diffyg twristiaeth yn broblem.” (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

### Cefnogi grwpiau incwm isel


4.161 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd oedd y farn y gallai cyfradd ardoll gymesur gael effaith gadarnhaol ar ddarparwyr bach ac ymwelwyr incwm isel. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y byddai cyfradd gymesur yn lleihau effaith ardoll ar ddarparwyr llety cost rhad, a fyddai hefyd yn sicrhau na fyddai rhoi ardoll ar waith yn cael effaith anghymesur ar ymwelwyr incwm isel.

*“Gan fod ardoll o £2 (er enghraifft) ar ystafell £30 mewn llety gwely a brecwast bron yn 7%, tra bo ardoll o £2 ar ystafell £250 mewn gwesty yn llai na 0.8%, felly byddai swm penodol yn drethiant gwrthgynyddol a byddai'n cael llawer mwy o effaith ar ddefnyddwyr llai cefnog.” (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Bydd hyn yn helpu i atal pobl ar incwm isel, gan gynnwys trigolion Cymru sydd am gael gwyliau mewn rhan arall o Gymru, ac sy'n elwa ar gost fforddiadwy gwersylla, rhag cael eu trethu i'r un lefel ag ymwelydd sy'n aros mewn llety gwyliau drud, e.e. gwesty bwtîg yng nghanol dinas." (Darparwr llety)*

**Cwestiwn 22:** Ar ôl sawl noson yn olynol y byddai'n briodol peidio â chodi'r ardoll ar unrhyw nosweithiau dilynol?

Ffigur 17. Cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd y nifer o nosweithiau olynol pan y byddai'n briodol peidio â chodi'r ardoll wedi hynny fel un priodol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 240 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 22% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.162 Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y cwestiwn hwn (45% neu 109 o ymatebwyr) a ddewisodd un o'r opsiynau arfaethedig 5 noson fel y nifer o nosweithiau olynol pan y byddai'n briodol peidio â chodi'r ardoll ar unrhyw nosweithiau dilynol. Roedd yr opsiynau sy'n weddill bron yr un mor

gyffredin; dewiswyd 7 noson ac 14 noson gan 27% a 28% o ymatebwyr (neu 65 a 66 o ymatebwyr yn y drefn honno).

## Themâu o blaid gosod 5 noson fel y trothwy

4.163 Fel y gwelir yn y siart uchod, roedd yn well gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn beidio â chodi'r ardoll ar unrhyw nosweithiau dilynol ar ôl 5 noson. Mae'r themâu isod yn cyflwyno'r safbwyntiau mwyaf cyffredin o blaid yr opsiwn hwn.

### Annog arosiadau hwy

4.164 Y rheswm mwyaf cyffredin a godwyd o blaid y trothwy 5 noson ar gyfer yr ardoll oedd y farn y byddai'n cymell ymwelwyr i ymestyn eu teithiau. Fel rheol, roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio bod ymwelwyr dros nos yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi, ac felly y dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo arosiadau hwy. I'r perwyl hwnnw, ystyriwyd y dylid pennu trothwy isel er mwyn cymell ymwelwyr i aros am gyfnodau hwy.

> *“Arosiadau dros nos sy'n cynnig y gwerth gorau o bob math o ymweliad. Mae'n dilyn felly y byddai mwy o nosweithiau yn creu mwy o werth. Dylai'r trothwy fod ar y lefel isaf er mwyn annog arosiadau o'r fath." (Corff o'r diwydiant busnes)*

### Lleihau'r effaith ar dwristiaeth Cymru

4.165 Yr ail thema fwyaf cyffredin a welwyd ymhlith ymatebwyr a oedd o blaid trothwy 5 noson oedd y farn mai dyma fyddai'r opsiwn lleiaf niweidiol i dwristiaeth Cymru. Roedd y thema hon yn gyffredin ymhlith ymatebwyr a oedd yn erbyn yr ardoll, a oedd o'r farn y byddai ei gyflwyno yn cael effeithiau andwyol ar nifer yr ymwelwyr, y sector twristiaeth ac economi Cymru. Er mwyn lleihau'r effeithiau canfyddedig hyn, roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i ddadlau y dylid rhoi'r gorau i godi'r ardoll cyn gynted â phosibl.

> *"Po leiaf yw nifer y nosweithiau a gaiff eu trethu, lleiaf beichus y bydd yr ardoll i ymwelwyr a lleiaf niweidiol y bydd i enw da Cymru fel cyrchfan deniadol i ymwelwyr." (Darparwr llety)*

## Themâu o blaid gosod 7 noson fel y trothwy

4.166 Yr ail opsiwn a ddewiswyd amlaf ar gyfer y trothwy oedd 7 noson. Cododd yr ymatebwyr hyn y themâu canlynol i gyfiawnhau eu dewis.

**Cysondeb â threthi twristiaeth rhyngwladol**

4.167 Y farn a godwyd amlaf o blaid trothwy 7 noson oedd ei fod yn gyson â'r cynsail rhyngwladol o ran trethi twristiaeth. Fel arfer, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi bod gwledydd eraill yn defnyddio trothwy o 7 noson yn olynol ar gyfer peidio â chodi'r dreth hefyd.

> *"Saith noson yw'r trothwy a ffefrir gennym, yn unol ag awdurdodaethau treth dwristiaeth eraill ar draws y byd" (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

> *"Mae'n gyson â gwledydd eraill sydd ag ardoll twristiaeth." (Awdurdod lleol)*

**Cynyddu'r sylfaen drethu**

4.168 Yr ail thema fwyaf cyffredin o blaid 7 noson oedd y farn y byddai'n cynyddu sylfaen drethu'r ardoll. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon, ac awdurdodau lleol yn arbennig, o'r farn y byddai trothwy uwch yn cynyddu nifer y bobl a fyddai'n talu'r ardoll, yn ogystal â'r hyd, a thrwy hynny, gynyddu'r refeniw a godir.

> *"Credwn y bydd hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o arosiadau ac yn rhoi cyfraniad digonol." (Awdurdod lleol)*

> *"Byddai hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o arosiadau yng Nghymru, a thrwy hynny, gynyddu'r cyfle i godi'r ardoll gymaint â phosibl" (Ymateb dienw)*

## Themâu o blaid gosod 14 noson fel y trothwy

4.169 Y trydydd opsiwn a ddewiswyd amlaf oedd trothwy o 14 noson. Mae'r themâu isod yn cyflwyno'r safbwyntiau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn hwn.

**Rhoi'r ystyriaeth orau i allanoldebau**

4.170 Y rheswm a godwyd amlaf o blaid trothwy 14 noson oedd mai dyma sy'n adlewyrchu orau yr effaith y mae ymwelwyr yn ei chael ar wasanaethau lleol a'r amgylchedd. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi mai trothwy o 14

noson oedd yr opsiwn gorau a roddwyd ar gyfer cynhyrchu'r refeniw angenrheidiol o dreth er mwyn gwrthweithio effeithiau negyddol twristiaeth mewn ardaloedd lleol.

*“[…] mae'n bosibl bod y gwahaniaeth yn rhy ddibwys i effeithio ar ymddygiad ac felly, ar ôl pwyso a mesur, byddem yn dewis 14 noson oherwydd bod hyn yn cyd-fynd â’r rhesymeg dros roi ardoll ymwelwyr ar waith, h.y. bod ymwelwyr yn cael effaith ar y lleoliad y maent yn ymweld ag ef, ac y caiff yr effaith honno ei theimlo bob diwrnod o’u hymweliad.” (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo ymweliadau busnes**

4.171 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd y farn y byddai trothwy 14 noson yn cymell mwy o ymweliadau busnes. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn bod ymweliadau busnes yn fwy tebygol o fod yn hwy ac, felly, mai'r trothwy uwch fyddai'n cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cynhyrchu refeniw ond peidio â chael effaith andwyol ar ymweliadau busnes.

*"Mae'r cap yn arbennig o bwysig i ymwelwyr busnes a all archebu llety am sawl mis er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwaith dros dro yn yr ardal. Mae'n bosibl y bydd gorfod talu'r ardoll am eu harhosiad cyfan yn eu cymell i chwilio am lety gerllaw yn Lloegr.” (Awdurdod lleol)*

**Awgrymiadau perthnasol eraill**

4.172 Mae'r adran hon yn cynnwys themâu a godwyd gan ymatebwyr na wnaethant ddewis unrhyw un o'r opsiynau a oedd ar gael ac, yn hytrach, a gynigiodd awgrymiadau amgen o ran nifer y nosweithiau olynol pan na ddylid codi'r ardoll mwyach.

**Dylid codi'r ardoll bob amser**

4.173 Yr awgrym arall a godwyd amlaf oedd y dylid codi'r ardoll bob amser, ni waeth sawl noson ddilynol y bydd ymwelydd yn aros. Yr esboniad a roddwyd amlaf dros yr awgrym hwn yw nad yw'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn lleihau yn ystod yr arhosiad. I'r gwrthwyneb, awgrymodd rhai ymatebion y gallai'r effaith ar seilwaith cyhoeddus a'r amgylchedd gynyddu po hiraf y bydd ymwelydd yn aros. O ganlyniad, ni ddylai eu cyfraniad at gynnal y gwasanaethau hyn leihau chwaith. Awgrymodd ymatebwyr eraill fel rhan o'r

thema hon y byddai codi'r ardoll ar nifer penodol o nosweithiau yn unig yn cael effaith anghymesur ar ymwelwyr incwm isel na allant fforddio ymweliadau hwy.

*"Os bydd rhywun yn aros mewn llety masnachol mewn ardal, dylai gyfrannu at gynnal gwasanaethau lleol. Dros amser, maent yn debygol o ddefnyddio mwy o wasanaethau lleol, felly ni ddylai fod terfyn amser ar hyn." (Preswylydd)*

*“Nid oes rheswm dros roi terfyn ar hyn. Eto, mae'n ffafrio ymwelwyr mwy cefnog sy'n gallu fforddio gwyliau hwy ac yn cosbi teuluoedd tlawd sydd ond yn gallu fforddio gwyliau byr o bosibl. Os mai bwriad y dreth yw gwneud iawn am effaith ymwelwyr, pam byddech chi'n rhoi'r gorau i godi'r dreth ar ôl x diwrnod?” (Awdurdod lleol)*

**Mae trothwy o 3 noson yn annog arosiadau hwy**

4.174 Yr ail drothwy a awgrymwyd amlaf oedd 3 noson, oherwydd ystyriwyd y byddai hyn yn lleihau cost nosweithiau dilynol ac felly'n cymell arosiadau hwy. Nodwyd hefyd y byddai'r trothwy hwn yn gyson â hyd cyfartalog arosiadau.

*“Gallai gosod cap ar 3 noson mewn llety annog pobl i aros am gyfnodau hwy.” (Awdurdod lleol)*

*"mae'n debyg mai gwyliau penwythnos ac aros am 2 noson sydd fwyaf cyffredin, ond byddai'n dda eu denu am gyfnodau hwy felly gall cap 3 noson helpu gyda hyn" (Awdurdod lleol)*


*“Fel y nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru, ‘Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): 2021’, hyd cyfartalog ymweliad â Chymru yn ystod y cyfnod adrodd oedd 3.7 noson gyda gwariant cyfartalog o £198 fesul ymweliad. O ystyried bod yr ystadegyn hwn yn is nag unrhyw un o'r opsiynau uchod, [...] ni ddylid codi ardoll ymwelwyr ar unrhyw arhosiad dros 3 noson." (Corff o'r diwydiant llety)*

---

**Cwestiwn 23:** A ddylai'r un gyfradd neu gyfraddau fod yn gymwys ym mhob ardal awdurdod lleol yn hytrach na bod hyn yn cael ei benderfynu'n lleol?

---

Ffigur 18. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chael yr un gyfradd ym mhob awdurdod lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 756 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 70% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.175 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (68% neu 515 o ymatebwyr) yn cytuno â chodi'r un cyfraddau ym mhob ardal awdurdod lleol yn hytrach na bod hyn yn cael ei benderfynu'n lleol.

## Themâu o blaid codi'r un cyfraddau ym mhob awdurdod lleol

### Gwella cysondeb a dealltwriaeth

4.176 Y thema a godwyd amlaf o blaid y cynnig dan sylw oedd y farn y byddai'n helpu i sicrhau cysondeb ar draws ardaloedd awdurdod lleol. Roedd ymatebwyr a gododd y thema hon, ac awdurdodau lleol yn arbennig, fel arfer yn nodi y byddai codi'r un cyfraddau ledled y wlad yn gwella dealltwriaeth o'r ardoll ac yn helpu i hyrwyddo cydymffurfiaeth.

> *"[…] credwn y dylai'r dreth fod yn gyson ym mhob ffordd ledled pob awdurdod lleol er mwyn lleihau dryswch, lleihau camgymeriadau ac, yn y pen draw, sicrhau y collir llai o dreth. Mae dull gweithredu canoledig yn llawer symlach i'w roi ar waith i bob rhanddeiliad." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

*"Byddai caniatáu i bob awdurdod lleol bennu cyfraddau yn lleol yn achosi anghyfartaledd rhanbarthol ac anghysondeb ar draws cyrchfannau, a byddai hefyd yn cael effaith negyddol ar y profiad archebu i ymwelwyr wrth gynllunio teithiau i Gymru." (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo tegwch**

4.177 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr o blaid codi'r un gyfradd oedd y byddai'n hyrwyddo tegwch. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn y gallai darparwyr llety wynebu cyfraddau gwahanol yn dibynnu ar eu hardal pe bai awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu cyfraddau. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod hyn yn annheg, o ystyried y gallai rhai darparwyr llety wynebu costau uwch oherwydd eu lleoliad yn unig.

*"Mae cysondeb yn hanfodol er mwyn sicrhau ymarferoldeb a thegwch" (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Os bydd yn cael ei roi ar waith yna rhaid ei bennu a'i weinyddu'n ganolog er mwyn sicrhau eglurder a thegwch." (Darparwr llety)*

**Lleihau cystadleuaeth anffafriol rhwng awdurdodau lleol**

4.178 Y drydedd thema a godwyd amlaf o blaid codi cyfradd gyson ym mhob awdurdod lleol oedd y farn y byddai'n eu datgymell rhag cystadlu â'i gilydd. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod risg y byddai awdurdodau lleol yn gosod cyfraddau is nag awdurdodau cyfagos er mwyn denu mwy o ymwelwyr a darparwyr llety pe bai annibyniaeth leol wrth bennu cyfradd yr ardoll.

*"Er mwyn sicrhau chwarae teg ac atal rhai ardaloedd awdurdod lleol rhag ymddangos yn anneniadol i ymwelwyr oherwydd bod y gyfradd yn uwch nag mewn ardal arall." (Darparwr llety)*

**Lleihau cymhlethdod a baich gweinyddol**

4.179 Y thema gyffredin olaf o blaid codi'r un cyfraddau ym mhob awdurdod lleol oedd y farn y byddai hyn yn haws i'w ddeall a'i weinyddu. Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai angen cryn amser ac adnoddau ar awdurdodau lleol er mwyn pennu ar lefel y gyfradd, a monitro'r broses o roi ardollau ar waith yn ein hardaloedd awdurdod lleol.

*“Yr opsiwn amgen mwy ymarferol yw cyflwyno polisi treth dwristiaeth cyffredinol, a gaiff ei weinyddu yn ganolog, ar gyfer pob eiddo twristiaeth yng Nghymru. Byddai'n gyson, yn hawdd ei weinyddu ac yn gwneud mwy o arian i awdurdodau lleol." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Themâu yn erbyn codi'r un gyfradd ym mhob awdurdod lleol

### Y gallu i addasu i amgylchiadau lleol

4.180 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â chodi'r un gyfradd ym mhob awdurdod lleol o'r farn y dylai awdurdodau lleol gael rhywfaint o hyblygrwydd i ymdrin â'u hamgylchiadau lleol unigryw, megis lefel y dwristiaeth, y math o lety sy'n gyffredin yn eu hardal, ac amgylchiadau demograffig ac economaidd lleol eraill.

*“Dylai awdurdodau lleol bennu'r cyfraddau yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau economaidd lleol.” (Preswylydd)*


*"Mae gan bob awdurdod lleol ofynion ac anghenion gwahanol, gyda lefelau amrywiol o weithgarwch a chyfraniad economaidd gan dwristiaid. Bydd caniatáu i'r awdurdod bennu'r gyfradd yn ffordd decach o roi'r ardoll ar waith ledled Cymru, ond rhaid cael canllawiau cenedlaethol clir ar bennu'r ardoll fel na fydd busnesau ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn wynebu anfantais sylweddol oherwydd bod cyfradd uwch/is yn yr awdurdod cyfagos." (Corff o'r diwydiant llety)*

4.181 Crybwyllwyd y thema hon yn aml ynghyd â'r farn fod gan awdurdodau lleol yr wybodaeth am amgylchiadau lleol er mwyn gweinyddu'r ardoll yn effeithiol.

*"Mae gan awdurdodau lleol wybodaeth am eu gwasanaethau a'u marchnad dwristiaeth a nhw fyddai yn y sefyllfa orau i benderfynu pa gyfraddau fyddai'n briodol i'w hardal." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Cwestiwn 24:** Pe bai'r gyfradd yn cael ei phennu'n lleol, a ddylai'r un gyfradd gael ei chodi beth bynnag fo'r lleoliad o fewn yr ardal awdurdod lleol?

Ffigur 19. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chodi'r un gyfradd beth bynnag fo'r lleoliad, pe bai'r gyfradd yn cael ei phennu'n lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 699 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 64% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.182 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (68% neu 475 o ymatebwyr) yn cytuno â chodi'r un gyfradd beth bynnag fo'r lleoliad o fewn yr ardal awdurdod lleol, pe bai'r gyfradd yn cael ei phennu'n lleol.

## Themâu o blaid codi'r un gyfradd beth bynnag fo'r lleoliad

### Lleihau'r baich gweinyddol

4.183 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd o blaid codi'r un cyfraddau ym mhob ardal awdurdod lleol oedd y farn mai dyma'r dull gweithredu symlaf a mwyaf effeithiol o ran y broses weinyddu. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn mynegi pryderon y byddai angen llawer o adnoddau i gasglu data, monitro a rhoi'r ardoll ar waith ar lefel ardal leol.

> *"Byddai hyn yn gwneud y tâl yn haws ei ddeall ac yn hwyluso'r broses weinyddu i ddarparwyr llety ymwelwyr yn yr awdurdod lleol. […]. Fodd bynnag, byddai cael cyfraddau niferus yn gwneud pethau'n fwy cymleth." (Corff o'r diwydiant treth)*

*“Po fwyaf lleol y caiff y cyfraddau trethu eu pennu, mwyaf cymhleth fydd y broses. Byddai'n amhosibl rhoi hyn ar waith ymhellach nag ar lefel awdurdod lleol.” (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo tegwch**

4.184 Yr ail thema a godwyd amlaf o blaid y cynnig oedd y farn bod codi'r un gyfradd mewn awdurdodau lleol yn ddull gweithredu teg. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y gallai codi cyfraddau gwahanol o fewn awdurdodau lleol gael effaith anghymesur ar rai darparwyr llety o ganlyniad i'w lleoliad yn unig.

*“Dylai, er mwyn sicrhau tegwch, dylid gwneud hyn. Nid ydym am i awdurdodau lleol benderfynu p'un a all busnes ei weithredu ai peidio, dylai pob un ei wneud neu ddim un o gwbl.” (Corff o'r diwydiant llety)*

*“Os bydd yn cael ei roi ar waith yna rhaid ei bennu a'i weinyddu'n ganolog er mwyn sicrhau eglurder a thegwch. Ni ddylai fod posibilrwydd i ardaloedd penodol neu fathau penodol o lety gael eu targedu'n anghymesur am ardollau uwch” (Darparwr llety)*

**Cynyddu cysondeb a dealltwriaeth**

4.185 Y drydedd thema fwyaf cyffredin o blaid codi'r un gyfradd oedd y farn y byddai'n cynyddu cysondeb o fewn awdurdodau lleol. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr y byddai amrywio'r gyfradd o fewn awdurdodau lleol yn arwain at broses gymhleth iawn o roi'r ardoll ar waith a fyddai'n drysu pob rhanddeiliad.

*“[…] os caiff y pwerau hyn eu caniatáu, mae'n bwysig bod y gyfradd yn gyson ar draws yr awdurdod lleol er mwyn lleihau dryswch, lleihau camgymeriadau ac, yn y pen draw, sicrhau y collir llai o dreth. Mae dull gweithredu canoledig yn llawer symlach i'w roi ar waith i bob rhanddeiliad." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd**

4.186 Y thema nesaf a godwyd amlaf o blaid codi'r un gyfradd oedd y farn y byddai'n cynyddu gallu awdurdodau treth i fonitro'r broses o roi'r ardoll ar waith yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd yr

ymatebwyr hyn fel arfer yn mynegi pryderon y gallai amrywio'r gyfradd o fewn awdurdodau lleol arwain at elfennau amwys a allai fod yn heriol i'w monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

*“Ni ddylid pennu cyfraddau yn lleol ac yn sicr ni ddylid cael cyfraddau gwahanol o fewn yr un ardal awdurdod lleol. Mae modd camddefnyddio ymyriadau.” (Preswylydd)*

*"Mae cael cyfraddau yn seiliedig ar is-awdurdodaethau o fewn pob awdurdod lleol, eto, yn ei gwneud hi'n anodd iawn cydymffurfio a phennu trethi." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Themâu yn erbyn codi'r un gyfradd beth bynnag fo'r lleoliad

### Dosbarthu ymwelwyr yn deg

4.187 Y rheswm mwyaf cyffredin a godwyd yn erbyn y cynnig oedd y farn y gallai amrywio'r gyfradd o fewn ardaloedd awdurdod lleol helpu i ddosbarthu ymwelwyr, a'r manteision dilynol, yn decach ar draws ardaloedd gwahanol. Dadleuodd ymatebwyr a gododd y thema hon nad yw pob ardal o fewn yr awdurdod lleol yn cael yr un nifer o ymwelwyr ac, o ganlyniad, ni ddylai pob ardal orfod codi'r un ardoll o ystyried nad yw'r ymwelwyr yn rhoi'r un pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Awgrymodd rhai ymatebwyr ymhellach y gellid addasu cyfradd yr ardoll er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd amgen, a thrwy hynny, helpu i ddatblygu economïau ymwelwyr ardaloedd â llai o ymwelwyr.

*“Fodd bynnag, ni ddylid diystyru hyn ar gyfer y dyfodol oherwydd gallai amrywio cyfraddau fod yn ddull pwysig o ddosbarthu twristiaeth mewn ffordd decach ar draws ardaloedd â chryn anghydraddoldebau o ran lefelau twristiaeth." (Elusen)*

*“unwaith y cyflwynir newidiadau rhanbarthol yna mae'n cynnig newidiadau mawr i annog twristiaid i ymweld â rhannau tawelach o'r sir ac osgoi ‘potiau mêl’.” (Darparwr llety)*

### Y gallu i dargedu mannau twristaidd poblogaidd

4.188 Yr ail thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r cynnig oedd y farn y dylai'r ardoll dargedu mannau twristaidd poblogaidd yn fwy. Yn

gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn am nad yw ymwelwyr wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws ardaloedd o fewn yr un awdurdod lleol, yna mae eu defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn wahanol hefyd. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod hyn yn cyfiawnhau opsiwn i awdurdodau lleol allu codi cyfraddau uwch ar fannau twristaidd poblogaidd yn ddetholus.


> *"Pe bai cyfradd yn cael ei phennu'n lleol, gallai, mewn egwyddor, fod yn opsiwn gwerthfawr i awdurdod lleol penodol allu gosod cyfraddau gwahanol fel ffordd o helpu i fynd i'r afael â mannau lle mae gordwristiaeth, sy'n gallu cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau lleol" (Awdurdod lleol)*

---

**Cwestiwn 25:** Pe bai'r gyfradd yn cael ei phennu'n lleol, a ddylid pennu cap neu ystod ar gyfer lefel y gyfradd y gellir ei chodi?

---

Ffigur 20. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â phennu cap neu ystod ar gyfer lefel y gyfradd, pe bai'n cael ei phennu'n lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 667 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 61% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.189 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (68% neu 454 o ymatebwyr) yn cytuno â gosod cap neu ystod ar gyfer y lefel y gellir codi cyfradd, pe bai hyn yn cael ei bennu'n lleol.

**Mae pennu cap neu ystod yn cynyddu cysondeb**

4.190 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y farn y byddai gosod cap ar gyfer lefel y gyfradd yn cynyddu cysondeb y broses weithredu. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn dadlau y gallai peidio â chael cap ar lefel y gyfradd gael effaith anghymesur ar rai darparwyr llety, gan beri i ymwelwyr newid i ardaloedd eraill. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai'r effaith hon fod yn waeth i ddarparwyr llety cost isel lle gallai lefel y gyfradd fod yn anghymesur â'r tâl am y llety.

*"Os bydd yn cael ei roi ar waith yna, fel y nodir uchod, dylid ei bennu a'i weinyddu'n ganolog ac nid yn lleol er mwyn sicrhau eglurder a thegwch. Ni ddylai fod posibilrwydd i ardaloedd penodol neu fathau penodol o lety gael eu targedu'n anghymesur am ardollau uwch" (Darparwr llety)*

*"Pa fodel bynnag y penderfynir arno ar gyfer y gyfradd, byddai angen gosod cap neu, fel arall, gallai'r gyfradd neilltuo darparwyr llety yn ôl math a chael effaith negyddol arnynt, gan eu rhoi dan anfantais amlwg." (Awdurdod lleol)*

4.191 Roedd rhai ymatebwyr a gododd y thema hon o blaid gosod cap ar gyfradd yr ardoll, ond gan addasu hyn ar gyfer mathau gwahanol o awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y gall awdurdodau lleol gael amodau economaidd-gymdeithasol gwahanol iawn. O ganlyniad, awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid rhoi cap ar waith ar gyfer grwpiau o awdurdodau lleol sydd â nodweddion tebyg, gan roi rhywfaint o gysondeb yn ogystal â chynnig cyfradd sydd wedi'i theilwra i anghenion pob ardal.

*"Gallai opsiynau i'w hystyried gynnwys y gallu i awdurdodau lleol â nodweddion tebyg o ran twristiaeth gydweithio a chodi'r un gyfradd, neu gellid cael cyfradd genedlaethol ddiofyn y gall awdurdodau lleol ddewis ei hamrywio o fewn paramedrau diffiniedig gan fod y rhai y bydd yr ardoll yn*

*effeithio arnynt yn llai tebygol o ymddiried ynddo os bydd yn amrywio'n sylweddol." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Mae ystod yn cynyddu tegwch**

4.192 Yr ail thema a godwyd amlaf oedd y farn y byddai gosod ystod ar lefel y gyfradd yn hyrwyddo tegwch ar draws awdurdodau lleol. Yn benodol, awgrymodd yr ymatebwyr y byddai ystod yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i gystadlu o ran prisiau wrth geisio denu mwy o ymwelwyr a darparwyr. O ganlyniad, byddai hyn yn sicrhau nad yw darparwyr llety dan anfantais oherwydd eu hawdurdod lleol.

*"Er tegwch, byddai gosod cap ar y swm a godir o fudd i bawb, ond dylid ymestyn hyn i Gymru gyfan. Eto, byddai'n annheg ac yn afresymol disgwyl i un busnes gasglu a thalu ardoll pan nad yw busnesau eraill yn gorfod gwneud hynny." (Darparwr llety)*

**Byddai cap neu ystod yn cyfyngu ar annibyniaeth awdurdodau lleol**

4.193 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd pryder na fyddai gosod cap neu ystod ar y gyfradd y gellir ei chodi yn galluogi awdurdodau lleol i addasu'r ardoll yn unol ag amgylchiadau lleol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod gan bob ardal amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a marchnadoedd ymwelwyr gwahanol ac felly y dylai awdurdodau lleol gael hyblygrwydd wrth bennu lefel y gyfradd er mwyn ystyried y gwahaniaethau hyn.

*"Gallai rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol bennu lefel y gyfradd fod yn fanteisiol oherwydd gall y gyfradd adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol heb beryglu'r manteision ehangach a gynigir gan fframwaith cenedlaethol." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Mynd i'r afael â chymhellion andwyol**

4.194 Y thema gyffredin olaf a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y farn y byddai cap neu ystod yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau sydd o fudd i breswylwyr a busnesau lleol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai awdurdodau lleol gael eu cymell i gystadlu ag awdurdodau cyfagos er mwyn denu rhagor o ymwelwyr, gan anwybyddu'r effeithiau hirdymor ar seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus.


*"Eto, mae'n rhaid i unrhyw dreth arfaethedig sicrhau chwarae teg. Heb gap neu ystod, gallai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar refeniw byrdymor (h.y. cynyddu incwm gymaint â phosibl) ar draul niwed tymor hwy i nifer yr ymwelwyr ac enw da'r ardal fel cyrchfan i ymwelwyr." (Darparwr llety)*

---

**Cwestiwn 26:** Pa mor aml y dylid adolygu unrhyw gyfradd arfaethedig ar gyfer ardoll ymwelwyr?

---

Ffigur 21. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cyfnodau arfaethedig ar gyfer adolygu ardoll ymwelwyr




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 395 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 36% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.195 Yr opsiwn mwyaf poblogaidd o ran pa mor aml y dylid adolygu'r gyfradd oedd bob blwyddyn (55% neu 219 o ymatebwyr), ac yna bob pum mlynedd (19% neu 75 o ymatebwyr), a phob dwy flynedd (16% neu 64 o ymatebwyr). Yr opsiwn a ddewiswyd leiaf aml oedd bob tair blynedd (9% neu 37 o ymatebwyr).

## Themâu o blaid adolygu cyfradd yr ardoll bob blwyddyn

### Y gallu i addasu'r gyfradd yn seiliedig ar adborth

4.196 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr o blaid adolygu bob blwyddyn oedd y farn y dylai'r gyfradd ystyried adborth gan randdeiliaid allweddol yn rheolaidd. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr hyn fod y dystiolaeth

a'r profion cyfyngedig o ardoll ymwelwyr yn y cyd-destun hwn yn golygu y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i adolygu ac addasu'r gyfradd bob blwyddyn gan ddefnyddio adborth gan ddarparwyr llety ymwelwyr, trigolion ac ymwelwyr.

*“Os caiff y cynllun ei gyflwyno ledled Cymru, byddai angen adolygu proses gyflwyno gychwynnol yr ardoll bob blwyddyn er mwyn nodi unrhyw broblemau gweithredol, casglu adborth gwerthfawr gan ddarparwyr llety, yn ogystal â nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.” (Awdurdod lleol)*

*"O ystyried pa mor newydd yw'r polisi hwn, mae'n bosibl y bydd angen hyblygrwydd i adnewyddu bob blwyddyn" (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

**Hyblygrwydd i addasu i newidiadau**

4.197 Yr ail reswm a godwyd amlaf o blaid adolygu bob blwyddyn oedd y farn y byddai'n caniatáu i addasiadau gael eu gwneud yn seiliedig ar yr amgylchiadau economaidd. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y dylai cyfradd yr ardoll fod yn hyblyg er mwyn ystyried unrhyw effeithiau andwyol posibl ar y sector twristiaeth, yn ogystal â ffactorau allanol megis chwyddiant ac argyfyngau (e.e., pandemig COVID-19).

*“Rydym wedi gweld pa mor gyflym y gall chwyddiant newid mewn blwyddyn. Byddai adolygu'r gyfradd bob blwyddyn yn sicrhau y gellir gwneud newidiadau pan fo angen ac ni fyddai o reidrwydd yn golygu y byddant yn cael eu gwneud bob blwyddyn, dim ond eu hystyried." (Awdurdod lleol)*

*“Er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol, yn gymesur ac y gellir ei lleihau pan benderfynir ei bod yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, swyddi a nifer yr ymwelwyr. Mae'r hinsawdd economaidd yn newid yn gyflym a dylai unrhyw dreth newydd allu ymateb i'r tueddiadau neu'r materion economaidd diweddaraf.” (Darparwr llety)*

**Adolygiad blynyddol ar ôl y broses gyflwyno gychwynnol yn unig**

4.198 Y drydedd thema a godwyd amlaf oedd yr awgrym y dylid adolygu'r gyfradd ar ôl y flwyddyn gyntaf ac, ar ôl hynny, dylid penderfynu pa mor aml y dylid adolygu'r gyfradd wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Roedd yr ymatebwyr hyn fel

arfer yn nodi nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i benderfynu pa mor aml y dylid adolygu'r gyfradd, gan awgrymu y dylid adolygu hyn flwyddyn ar ôl y broses gyflwyno gychwynnol er mwyn cael trosolwg mwy cynhwysfawr o'r effeithiau posibl.

*"Dylid adolygu'r ardoll ar ôl y flwyddyn gyntaf er mwyn deall unrhyw broblemau a chanlyniadau anfwriadol. Ar ôl yr adolygiad hwnnw, bydd yn gliriach pa mor aml y byddai angen ei adolygu yn y dyfodol." (Awdurdod lleol)*

*"Fodd bynnag, mae'n bwysig ymgymryd ag adolygiad blynyddol er mwyn nodi gwybodaeth angenrheidiol a dechrau casglu data a gwybodaeth a nodi unrhyw batrymau posibl ar gam cynnar" (Ymateb dienw)*

## Themâu o blaid adolygu bob pum mlynedd

### Cysondeb ag amserlenni eraill

4.199 Y thema a godwyd amlaf o blaid cylch adolygu pum mlynedd ar gyfer cyfradd yr ardoll oedd y farn y byddai hyn yn cyd-fynd ag amserlenni adolygiadau ehangach a fframweithiau a gaiff eu hadolygu'n llai aml, megis y cylch etholiadau.

*“Awgrymwn fod y gyfradd yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd er mwyn cyd-fynd â chylch etholiadau'r Senedd.” (Corff o'r diwydiant treth)*

## Themâu o blaid adolygu bob tair blynedd

### Integreiddio ag adolygiadau ehangach

4.200 Y rheswm mwyaf cyffredin a godwyd o blaid cylch adolygu tair blynedd oedd yr awgrym y gellid ei gysoni ag adolygiadau a chanllawiau ehangach, megis canllawiau'r Llywodraeth a gaiff eu cyhoeddi bob tair blynedd.

*“Os eir ati i bennu'r gyfradd yn lleol, gellid gwneud hyn drwy ganllawiau cenedlaethol y Llywodraeth a gaiff eu cyhoeddi bob tair blynedd gydag argymhellion ar gyfer adolygiad lleol. Byddai hyn yn galluogi i'r gwerthusiadau a'r gwersi cychwynnol a ddysgwyd gael eu casglu a'u lledaenu fel rhan o unrhyw broses adolygu." (Elusen)*

## Cadw cofnodion a chyflwyno ffurflenni

4.201 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr am gostau posibl cadw cofnodion a chyflwyno ffurflenni yn fanylach er mwyn helpu i lywio dyluniad y polisi.

---

**Cwestiwn 27:** Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r gofynion cadw cofnodion posibl i fusnesau yn seiliedig ar wahanol fathau o gyfraddau. Er mwyn ei helpu i ddeall y gofynion cadw cofnodion posibl i fusnesau yn fanylach, a fyddech cystal ag amlinellu pa wybodaeth y byddai angen i ddarparwyr llety ymwelwyr ei chasglu a'i chadw yn eich barn chi ar gyfer:

---

## Ardoll fesul noson, fesul ystafell (neu lety)

### Hyd yr arhosiad

4.202 Yr wybodaeth y gofynnwyd amdani amlaf mewn perthynas ag ardoll fesul noson, fesul ystafell (neu lety) oedd hyd yr arhosiad.

> *“Dylai'r ffurflen ar gyfer llety hunanarlwyo fod mor debyg â phosibl i ffurflenni Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Enw'r cwsmer, (cyfeirnod archebu os oes un), hyd yr arhosiad, treth a gasglwyd ac sy'n daladwy. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cyflwyno'r dreth hon, rhaid i'r gwaith gweinyddol fod yn ysgafn." (Corff o'r diwydiant llety)*

### Defnydd llety

4.203 Yr ail ddarn o wybodaeth y gofynnwyd amdano amlaf oedd nifer y bobl ym mhob ystafell, er i rai ymatebwyr nodi y gall diffinio ystafell fod yn anodd mewn rhai mathau o lety, megis meysydd gwersylla.

> *“Manylion am yr ystafelloedd sydd ar gael, defnydd fesul ystfaell, nifer y bobl ym mhob ystafell a'r cyfraddau a godir. Fodd bynnag, diffinio “ystafell” mewn llety mewn maes gwersylla yw'r man cychwyn sylfaenol ac mae'n peri problemau – beth yw “ystafell” mewn pabell, carafán, cartref modur neu 'pod'?.” (Darparwr llety)*

**Archebion**

4.204 Y darn olaf o wybodaeth roedd ymatebwyr yn ystyried bod angen ei gasglu oedd nifer yr archebion, gan fod ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn llawer haws i'w gynnal na chofrestr â nifer yr ymwelwyr.

> *"Yn gryno, drwy fabwysiadu cynllun yn seiliedig ar gyfradd fesul noson, fesul ystafell/llety, y cyfan y byddai angen i ddarparwyr ei wneud fyddai cadw cofnodion cywir o'r ystafelloedd/llety a archebir, a pheidio â dechrau cyfrif nifer y gwesteion ym mhob ystafell." (Awdurdod lleol)*

## Ardoll fesul person, fesul noson

**Nifer y bobl sy'n aros**

4.205 Yr wybodaeth fwyaf cyffredin yr awgrymwyd y dylid ei chasglu ar gyfer ardoll fesul person, fesul noson oedd nifer y bobl sy'n aros yn y llety. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod yr wybodaeth hon yn angenrheidiol er mwyn cyfrifo'r ardoll i'w godi, er i rai ymatebwyr nodi y gallai'r wybodaeth hon fod yn anodd i'w dilysu, gan y gall ymwelwyr roi adroddiad anghywir neu gall rhagor o ymwelwyr gyrraedd yn ddiweddarach heb rybudd.

> *"Nifer y nosweithiau yr archebir y llety, nifer y bobl sy'n aros bob noson - llawer anoddach" (Darparwr llety)*

**Hyd yr arhosiad**

4.206 Yr ail ddarn o wybodaeth y gofynnwyd amdano amlaf mewn perthynas ag ardoll fesul person, fesul noson oedd hyd yr arhosiad. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod angen yr wybodaeth hon gan y byddai ei hangen i amcangyfrif cyfanswm y gost wedi'i chyfuno â'r gyfradd fesul noson.

> *"cofnod archebu, anfonebau yn dangos ystafelloedd a nifer y cyfraddau, ffurflenni archebu unigol â nifer y bobl yn y parti a nifer y nosweithiau" (Sefydliad rheoli tir)*

## Ardoll ar sail canran o'r tâl am lety

**Cost y llety**

4.207 Yr wybodaeth fwyaf cyffredin y gofynnwyd amdani ar gyfer y math hwn o ardoll oedd cost y llety, ac roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn

dadlau bod y tâl am y llety yn elfen angenrheidiol wrth gyfrifo'r math hwn o ardoll.

> *“Costau'r llety ar gyfer pob eiddo / ystafell ar gyfer pob archeb (heb gynnwys taliadau am fwyd a diod)” (Awdurdod lleol)*

**Archebion fesul ystafell**

4.208 Yr ail awgrym a godwyd amlaf o ran yr wybodaeth ofynnol ar gyfer y math hwn o ardoll oedd nifer yr archebion fesul ystafell.

> *“Ardoll ar sail canran o'r tâl am lety: (i) Nifer yr unedau neu'r ystafelloedd sydd ar gael i'w llogi; (ii) Nifer yr archebion a wnaed fesul uned neu ystafell bob mis; (iii) Cyfanswm y gost i logi uned neu ystafell fesul arhosiad” (Awdurdod lleol)*

**Nifer yr ystafelloedd sydd ar gael**

4.209 Y darn olaf o wybodaeth a oedd yn angenrheidiol yn ôl ymatebwyr ar gyfer canran o'r tâl am lety oedd nifer yr ystafelloedd sydd ar gael.

---

**Cwestiwn 28:** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall effaith casglu a chofnodi'r wybodaeth a nodir yn Nhabl 1 (ac unrhyw wybodaeth arall a nodwyd gannych mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol) er mwyn helpu i hunanasesu'r atebolrwydd i dalu'r dreth. Beth fyddai effeithiau casglu'r wybodaeth hon ar adnoddau (amser staff a'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i unrhyw brosesau a systemau)?

Sut y gellid casglu'r data hyn (a oes proses neu system eisoes ar waith y gellid ei defnyddio fel rhan o'r broses archebu)?

---

**Effaith casglu data**

4.210 Yr effaith fwyaf cyffredin a awgrymwyd o ganlyniad i gasglu a chofnodi’r wybodaeth a nodwyd oedd yr adnoddau sylweddol y byddai eu hangen i gasglu’r data, gan y byddai angen cryn dipyn o amser a threuliau i gasglu a dadansoddi’r holl wybodaeth ofynnol. Hefyd, nododd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai'r adnoddau angenrheidiol yn dibynnu ar y math o ardoll a'r math o lety ymwelwyr. Mynegodd ymatebwyr eraill bryderon y byddai'r effeithiau hyn yn amrywio yn ôl maint darparwyr hefyd, gan gael effaith anghymesur ar ddarparwyr bach.

*“Yn wir, bydd effeithiau o ran amser a chostau ar fusnesau twristiaeth o ganlyniad i orfod casglu, coladu a dadansoddi'r wybodaeth a'r data angenrheidiol ar gyfer ffurflen.” (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*“Bydd costau yn gysylltiedig â choladu, rheoli, cyfrifo a thalu'r system hon. Bydd y swm gwirioneddol yn amrywio o fusnes i fusnes ac yn dibynnu ar sut y caiff hyn ei gyfrifo a'i gasglu" (Darparwr llety)*

**Diweddaru a chysoni systemau gweinyddol**

4.211 Yr ail effaith a godwyd amlaf o ganlyniad i gasglu a chofnodi’r wybodaeth a awgrymwyd oedd yr angen i ddiweddaru a safoni'r systemau gweinyddol presennol. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai angen i rai darparwyr llety fuddsoddi'n sylweddol yn eu systemau er mwyn gallu casglu a dadansoddi'r holl wybodaeth a awgrymwyd. Nododd rhai ymatebwyr na fyddai gan rai darparwyr bach systemau gweinyddol hyd yn oed ac y byddai angen iddynt naill ai brynu rhai newydd neu fuddsoddi mewn staff ychwanegol (neu'r ddau). Ar y llaw arall, gallai darparwyr llety sydd â systemau gweinyddol eisoes ddefnyddio atebion gwahanol, gan olygu y byddai angen safoni'r wybodaeth a gasglwyd. Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn dangosfwrdd ar-lein cyffredin er mwyn osgoi'r materion a nodir uchod.

*"Mae darparwyr llety yn gweithredu â gallu, gwybodaeth, adnoddau a systemau technolegol amrywiol. Nid oes gan ddarparwyr llety ddangosfwrdd ar-lein canolog ar gyfer eu holl swyddogaethau gweinyddol ar hyn o bryd ac nid oes systemau unffurf ar waith.” (Awdurdod lleol)*

*“Bydd yr ardoll yn golygu y bydd yn rhaid i lawer o fusnesau ym mhob rhan o'r sector ddiweddaru systemau archebu ar-lein, gan greu baich ariannol ychwanegol ac o ran staff.” (Sefydliad o'r diwydiant llety)*

**Mae'r holl wybodaeth a awgrymwyd eisoes yn cael ei chasglu**

4.212 Y drydedd thema a godwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y farn na fyddai casglu'r wybodaeth a awgrymwyd yn cael effaith sylweddol. Nododd yr ymatebwyr hyn fod y rhan fwyaf o ddarparwyr eisoes yn casglu'r wybodaeth fel rhan o'u prosesau archebu neu gofnodi i mewn.

*“Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol eisoes yn cael ei chofnodi fel rhan o brosesau archebu a chofnodi i mewn, i rai mathau o ddarparwyr llety ymwelwyr.” (Corff o'r diwydiant treth)*

*“I sefydliadau lle gellir diffinio llety ac “ystafelloedd” yn glir, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon eisoes yn rhan o'u proses archebu.” (Darparwr llety)*

**Osgoi cael systemau a gofynion adrodd sy'n gorgyffwrdd**

4.213 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr oedd pryder y gallai'r cynnig arwain at systemau a gofynion adrodd yn gorgyffwrdd, ac roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylid integreiddio unrhyw ofynion adrodd mewn systemau presennol, neu fel arall bydd ymdrechion yn cael eu dyblygu a bydd mwy o gostau.

*“Mynegwyd pryderon gan fusnesau sy'n aelodau fod datganoli yn arwain at ddatblygu systemau deuol diangen. Mae hyn yn rhwystro busnes a bydd yn arwain at faich ychwanegol o ran costau i fusnesau yng Nghymru." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*“Dylai unrhyw brosesau gweinyddol gael eu hintegreiddio mewn prosesau adrodd presennol gyda CThEF neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio a dylai fod yn niwtral o ran cost i'r darparwr llety.” (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

*“Bydd rhoi system ar wahân ar waith yn cynyddu'r gost a'r baich gweinyddol i fusnesau. Byddai hyn yn llai pe bai modd integreiddio'r gwaith casglu ac adrodd â systemau presennol." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Costau staffio ychwanegol**

4.214 Y thema nesaf a godwyd amlaf gan ymatebwyr oedd y farn y byddai coladu'r wybodaeth arfaethedig yn creu costau sylweddol o ran staffio. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr hyn y byddai angen amser ar staff darparwyr llety i ymgyfarwyddo â'r gofynion adrodd a'r systemau a ddefnyddir, yn ogystal â chyflwyno'r ffurflenni. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddigolledu darparwyr llety am y costau gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â chodi'r ardoll.

*"Nid oes dull presennol ar gyfer y broses hon a byddai'n rhaid cyflogi staff ychwanegol, gan leihau'r budd net o roi'r ardoll ar waith." (Awdurdod lleol)*


*“Bydd adrodd yn creu costau i'r darparwr llety, y bydd angen caniatáu ar eu cyfer (h.y. eu cadw gan y darparwr llety allan o'r ardoll ymwelwyr gros, ynghyd â chostau eraill megis comisiynau am brosesu taliadau), cyn y caiff yr Ardoll Ymwelwyr net ei dalu i'r Llywodraeth.” (Sefydliad o'r diwydiant llety)*

---

**Cwestiwn 29:** Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu ar gyfer ardoll ymwelwyr, gan nodi y gall fod modd caniatáu eu cyflwyno'n amlach pe bai hynny'n addas i'r busnes?

---

Ffigur 22. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cyfnodau arfaethedig ar gyfer cyflwyno ffurflenni treth hunanasesu




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 510 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 47% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.215 Roedd yn well gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (59% neu 303 o ymatebwyr) gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu bob blwyddyn. Yr ail opsiwn a ddewiswyd amlaf oedd cyflwyno ffurflenni'n chwarterol (25% neu 128 o ymatebwyr), ac yna'n fisol (9% neu 44 o ymatebwyr). Yr opsiwn lleiaf cyffredin oedd eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn, a ddewiswyd gan 7% o ymatebwyr (neu 35 o ymatebwyr).

## Themâu o blaid cyflwyno ffurflenni bob blwyddyn

### Cysondeb ag amserlenni cyflwyno eraill

4.216 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd o blaid cyflwyno ffurflenni treth hunanasesu bob blwyddyn oedd y farn y byddai'n gyson â'r ffurflenni eraill a gyflwynir gan ddarparwyr llety. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y dylid cysoni ffurflenni treth yr ardoll ag amserlenni ffurflenni eraill a gyflwynir – gan gynnwys ffurflenni treth blynyddol eraill – er mwyn bod mor effeithlon â phosibl, a lleihau'r baich gweinyddol a'r costau ariannol a roddir ar ddarparwyr llety.

> *"Dylai pob ffurflen dreth fod yn gyson â ffurflenni CThEF ac yn berthynol iddynt. Mae ffurflenni CThEF yn rhai sylfaenol ac felly dylai pob cyfundrefn dreth arall fod yn gyson â hyn. Ar gyfer busnesau micro a busnesau bach felly, cyflwyno ffurflenni bob blwyddyn fyddai symlaf" (Corff o'r diwydiant llety)*

> *"[…] lle y bo modd, dylid integreiddio'r broses o gasglu'r ardoll ymwelwyr â systemau adrodd a chasglu treth sydd eisoes yn bodoli. Byddai hyn yn golygu bod ffurflenni yn cael eu cyflwyno erbyn dyddiadau sydd eisoes wedi'u pennu at ddibenion eraill, gan leihau cymhlethdod i ddarparwyr llety ymwelwyr." (Corff o'r diwydiant treth)*

### Lleihau'r baich gweinyddol

4.217 Yr ail reswm a roddwyd amlaf o blaid cyflwyno ffurflenni bob blwyddyn oedd y farn y byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ffurflenni. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr a gododd y pwynt hwn o'r farn y byddai angen cryn dipyn o oriau o waith gan staff er mwyn cyflwyno ffurflenni'n amlach, gan roi baich annheg ar ddarparwyr. Ystyriwyd y byddai hyn yn peri problemau i ddarparwyr bach yn arbennig.

> *"[…] dylai fod yn ofynnol i fusnesau gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu bob blwyddyn, fel yr opsiwn diofyn. Byddai gorfodi busnesau i gyflwyno'r ffurflenni yn amlach na hyn yn rhoi baich gweinyddol ychwanegol annymunol ar y sector." (Corff o'r diwydiant llety)*

*"Lleihau'r baich gweinyddol. Mae ffurflenni treth yn ofynnol bob blwyddyn - ni ddylai fod yn ofynnol i fusnesau bach yn arbennig gyflwyno ffurflenni ar gyfer y dreth benodol hon bob mis […]." (Preswylydd)*

## Themâu o blaid cyflwyno ffurflenni'n chwarterol

### Sicrhau cydbwysedd rhwng refeniw rheolaidd a baich gweinyddol

4.218 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr o blaid cyflwyno ffurflenni'n chwarterol oedd y farn y byddai'n darparu llifau arian rheolaidd i ddarparwyr llety heb greu baich gweinyddol na ellir ei reoli. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi y byddai cyflwyno ffurflenni bob chwarter yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bod yn ddigon aml i ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar awdurdodau lleol i gynnal gwasanaethau cyhoeddus lleol, wrth osgoi rhoi baich gweinyddol na ellir ei reoli ar ddarparwyr llety.

*"Mae hyn yn caniatáu ar gyfer llif refeniw treth i'r ardaloedd lleol, ond nid yw'n gorlwytho darparwyr llety â gofynion cydymffurfio cyson. Rydym hefyd yn argymell y dylid cyflwyno'r ffurflen dreth erbyn y 30ain diwrnod o'r mis yn dilyn mis olaf y chwarter. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr gau eu cyfrifon a chwblhau'r camau cydymffurfio." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

*"Dylai hyn greu llif arain gwastad drwy gydol y flwyddyn a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n rheolaidd. Drwy ddewis yr opsiwn chwarterol, dylai leihau'r gorbenion gweinyddol oherwydd dylai hyn fod yn llai beichus na'r opsiwn misol ond yn ddigon aml i nodi unrhyw faterion o ran diffyg cydymffurfio." (Awdurdod lleol)*

### Cysondeb ag amserlenni cyflwyno eraill

4.219 Yr ail thema a godwyd amlaf o blaid cyflwyno ffurflenni'n chwarterol oedd y farn y byddai'r amlder hwn yn gyson â ffurflenni eraill a gyflwynir gan ddarparwyr, megis ffurflenni TAW, a fyddai'n fuddiol o ran lleihau costau ariannol a gweinyddol a gronnir i ddarparwyr llety.

*"Credwn y dylai ffurflenni treth hunanasesu gael eu cyflwyno'n chwarterol. Byddai hyn yn gyson â chyflwyno ffurflenni TAW i CThEF i'r rhan fwyaf o fusnesau." (Awdurdod lleol)*

*“chwarterol er mwyn cyd-fynd â ffurflenni TAW” (Sefydliad rheoli tir)*

## Themâu o blaid dull gweithredu hyblyg

4.220 Mae'r themâu canlynol yn cyflwyno'r safbwyntiau mwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr a oedd yn ffafrio dull gweithredu hyblyg, yn hytrach nag amlder cyflwyno cyffredin.

**Hyblygrwydd i fusnesau o feintiau gwahanol**

4.221 Yr awgrym mwyaf cyffredin o blaid dull gweithredu hyblyg oedd caniatáu hyblygrwydd i amrywio amlderau cyflwyno yn dibynnu ar faint busnes darparwyr llety. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn y gallai cyflwyno ffurflenni yn rheolaidd roi baich gweinyddol anghymesur ar ddarparwyr bach, er y byddai'n fuddiol. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, fel rheol roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y dylai darparwyr mawr gyflwyno ffurflenni'n amlach, ac y dylai darparwyr bach eu cyflwyno bob blwyddyn.

*"Gallai hyn amrywio yn unol â maint y sefydliad ac felly, er enghraifft, efallai y byddai'n haws i'n busnesau bach, megis ein Lleoliadau Tystysgrifedig, weinyddu ffurflen dreth flynyddol." (Darparwr llety)*

*"Mae'n bosibl y byddai rhwymedigaethau amlach yn briodol i fusnesau mawr sydd â rhwymedigaethau cyflwyno chwarterl eisoes (e.e. TAW)." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Rhoi annibyniaeth i ddarparwyr llety**

4.222 Yr ail gynnig a godwyd amlaf o blaid dull gweithredu hyblyg o ran cyflwyno ffurflenni oedd rhoi annibyniaeth i ddarparwyr llety ddewis yr amlder sydd fwyaf addas i'w hanghenion. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu bod gan ddarparwyr unigol anghenion unigryw a'u bod yn wynebu heriau gwahanol nad yw partïon allanol yn ymwybodol ohonynt ac, felly, darparwyr llety sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa mor aml y dylid cyflwyno ffurflenni.

*“Awgrymwn y dylid rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i ddarparwyr llety o ran pa mor aml y byddant yn cyflwyno adroddiadau ac yn talu'r ardoll." (Corff o'r diwydiant treth)*

*“Fodd bynnag, dylai fod hyblygrwydd yn y system hefyd i ffurflenni gael eu cyflwyno'n amlach yn ôl disgresiwn pob busnes unigol.” (Corff o'r diwydiant llety)*

## Gorfodi a chydymffurfio

4.223 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar bwerau arfaethedig awdurdodau treth i blismona'r system er mwyn atal pobl rhag osgoi, efadu neu dwyllo pwrs y wlad a chanfod y rhai sy'n ceisio gwneud hynny.

**Cwestiwn 30:** Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ardoll, mae'n debygol y byddai angen i'r awdurdod treth gael y pwerau gorfodi canlynol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r pwerau a restrir?

Tabl 4. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r pwerau gorfodi arfaethedig

| Pwerau gorfodi | % yr ymatebion a oedd yn cytuno |
|---|---|
| **Pwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled** | 50% |
| **Pwerau arolygu a gwybodaeth sifil, gan gynnwys pwerau i ymchwilio i ffurflenni treth, archwilio cofnodion a gedwir gan ddarparwyr llety ymwelwyr, ac arolygu safleoedd** | 41% |
| **Pwerau sifil i godi llog, rhoi cosbau ac adennill treth heb ei thalu** | 39% |

Nodyn: Cafwyd 740 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

4.224 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (50% neu 373 o ymatebwyr) yn cytuno â phwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled er mwyn gorfodi cydymffurfio â'r ardoll. Roedd 41% o ymatebwyr (neu 306 o ymatebwyr) yn cytuno â phwerau arolygu a gwybodaeth sifil, gan gynnwys pwerau i ymchwilio i ffurflenni treth, archwilio cofnodion a gedwir gan ddarparwyr llety ymwelwyr, ac arolygu safleoedd. Roedd 39% o ymatebwyr (neu 288 o ymatebwyr) yn cytuno â rhoi pwerau sifil i'r awdurdod treth godi llog, rhoi cosbau ac adennill treth heb ei thalu.

**i. Pwerau arolygu a gwybodaeth sifil, gan gynnwys pwerau i ymchwilio i ffurflenni treth, archwilio cofnodion a gedwir gan ddarparwyr llety ymwelwyr, ac arolygu safleoedd**

## Themâu o blaid rhoi pwerau arolygu a gwybodaeth sifil i'r awdurdod treth

### Hwyluso gorfodi a sicrhau cydymffurfiaeth

4.225 Y thema a godwyd amlaf o blaid pwerau arolygu a gwybodaeth sifil oedd y farn y byddai'n helpu awdurdodau treth wrth orfodi'r ardoll, ac ystyriwyd bod angen y pwerau hyn er mwyn monitro ac arolygu darparwyr llety yn effeithiol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn hyrwyddo tegwch, gan y byddai prosesau gorfodi effeithiol yn sicrhau y byddai'r ardoll yn gymwys i bob darparwr llety o fewn y cwmpas. Roedd y farn hon yn arbennig o gyffredin ymhlith awdurdodau lleol.

> *"[…] os bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ati, cytunwn y dylai fod pwerau arolygu a gorfodi sifil rhesymol a chymesur. Un o bryderon sylfaenol aelodau a phartneriaid yw y bydd y rheini sy'n efadu trethi neu'n osgoi eu talu ymlaen, boed hynny am eu bod wedi'u hepgor o restr o fusnesau trwyddedig neu fel arall, yn gallu gwneud hynny'n gymharol hawdd. (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

### Hyrwyddo dealltwriaeth a dull gweithredu cydweithredol

4.226 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd o blaid y pwerau arfaethedig oedd yr awgrym y gellid rhoi'r pwerau ar waith mewn ffordd sy'n hyrwyddo dull gweithredu cydweithredol rhwng awdurdod treth a darparwyr llety. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai darparwyr llety wneud camgymeriadau oherwydd diffyg dealltwriaeth neu drwy hap a damwain, ac y byddai dull gweithredu cydweithredol yn fwy cymesur.

> *"Er mwyn i'r broses orfodi fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod unrhyw gamau yn dilyn dull gweithredu cydweithredol a bod swyddogion yn cyfathrebu'n rheolaidd â busnesau cyn troi at gosbau pan fetho popeth arall." (Corff o'r diwydiant llety)*

> *"Ydw, gan ei fod yn bwysig sicrhau chwarae teg o ran cydymffurfio â rheoliadau a threthi, ond rhaid i'r pwyslais yn y lle cyntaf fod ar gymorth yn hytrach nag erlyn." (Corff o'r diwydiant busnes)*

**Hybu hyder y cyhoedd yn yr ardoll**

4.227 Y drydedd thema a godwyd amlaf o blaid y pwerau arfaethedig oedd y farn y byddai cefnogi cydymffurfiaeth effeithiol yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd fod yr ardoll yn gadarn ac yn deg, gan wella canfyddiad y cyhoedd ohono, a allai gefnogi'r gwaith o'i weithredu yn y dyfodol.

> *"Mae'n hanfodol bod rheolau cydymffurfio i ategu unrhyw dreth a gesglir. Bydd hyn yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd yn y cynllun ac yn lleihau'r risg o osgoi neu efadu'r dreth." (Awdurdod lleol)*

> *"Mae'n bwysig bod proses effeithiol i oruchwylio pwerau cydymffurfio a gaiff eu harfer er mwyn sicrhau cysondeb a thrwy hynny feithrin a chynnal ymddiriedaeth." (Corff o'r diwydiant treth)*

## Themâu yn erbyn rhoi pwerau arolygu a gwybodaeth sifil i'r awdurdod treth

**Defnydd amhriodol o gyllid**

4.228 Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr o ran pwerau arolygu a gwybodaeth sifil oedd y farn y byddai'n gostus i'w defnyddio. Fel rheol, nododd ymatebwyr a gododd y pwynt hwn y byddai angen cryn dipyn o adnoddau er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch ffurflenni ac archwilio cyfrifon, ac y gallai hyn wrthbwyso rhywfaint o'r refeniw a godir drwy'r ardoll.

> *"Er y gall ymgymryd ag agolygiadau o'r fath fod yn gostus, pe bai'r arolygiadau yn cael eu hariannu drwy'r ardoll, gallai'r gost o weinyddu'r ardoll fod yn anghymesur o uchel o ran y cyllid a godir." (Sefydliad rheoli tir)*

> *"cost gweinyddu, a byddai archwilio hyn yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r ardoll!" (Busnes)*

**Cosbau yn gorgyffwrdd**

4.229 Yr ail bryder a godwyd amlaf mewn perthynas â'r pwerau arfaethedig oedd y posibilrwydd i reoliadau a phwerau arolygu orgyffwrdd â'r rheini sydd gan sefydliadau eraill. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai hyn arwain at archwilio a chosbi darparwr llety sawl gwaith am yr un tramgwydd.

*“Serch hynny, byddem yn rhybuddio yn erbyn dyblygu unrhyw bwerau gorfodi a chosbi sydd eisoes yn bodoli ac a allai gael eu harfer er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, boed hynny o fewn neu y tu allan i faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.” (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

---

**ii. Pwerau sifil i godi llog, rhoi cosbau ac adennill treth heb ei thalu, os bydd darparwr llety ymwelwyr yn peidio â chyflawni ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr.**

---

**Hwyluso camau gorfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth**

4.230 Y rheswm mwyaf cyffredin o blaid y pwerau arfaethedig oedd y farn y byddai'n gwella cydymffurfiaeth ac roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer o'r farn y byddai'r bygythiad o gosbau yn helpu i berswadio darparwyr llety i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r ardoll. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai awdurdodau treth gael y pŵer i adennill treth heb ei thalu hefyd pan na fydd y bygythiad hwn yn ddigon.

*“Er mwyn gallu cymryd camau cyfreithiol effeithiol yn erbyn unrhyw ddarparwr sy'n methu cyflawni ei rwymedigaethau statudol heb esgus rhesymol.” (Awdurdod lleol)*

*“Mae angen cymhelliad er mwyn i ddarparwyr llety ymwelwyr gydymffurfio.” (Awdurdod lleol)*

**Hyrwyddo dealltwriaeth a dull gweithredu cydweithredol**

4.231 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd cytuno â'r pwerau arfaethedig ar yr amod bod awdurdodau treth yn mabwysiadu dull gweithredu nad yw'n rhy llym. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn mai dim ond os oedd y camgymeriadau yn fwriadol neu'n codi dro ar ôl tro y dylid cosbi darparwyr llety. Fel arall, awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylai'r awdurdod treth gydweithio â darparwyr llety er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u helpu i osgoi camgymeriadau yn y dyfodol.

*“Dim ond pan fo achos clir o dwyll neu drosedd y dylid cosbi.” (Corff o'r diwydiant llety)*

*“Mae angen cymhelliad er mwyn i ddarparwyr llety ymwelwyr gydymffurfio. Fodd bynnag, dylai fod mesurau diogelu ar waith er mwyn sicrhau nad yw darparwyr sydd wedi gwneud camgymeriad gwirioneddol yn cael eu cosbi." (Awdurdod lleol)*

**Mae'r pwerau arfaethedig yn gyson â'r rhai ar gyfer trethi eraill**

4.232 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r pwerau arfaethedig oedd y farn bod cynsail ar eu cyfer mewn fframweithiau treth eraill. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn dadlau bod gan awdurdodau sy'n gweithredu trethi eraill bwerau sifil i godi llog a chosbau, ac adennill trethi heb eu talu, ac felly byddai caniatáu'r pwerau hyn ar gyfer yr ardoll yn deg ac yn rhesymol.

*"Os bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda'r dreth dwristiaeth, bydd angen y pwerau hyn er mwyn gorfodi cydymffurfiaeth. Maent yn gyson â phrosesau gorfodi trethi tebyg mewn awdurdodaethau eraill." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

---

**iii. Pwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled, er enghraifft y gallu i leihau dyled i ddim neu i beidio â rhoi cosb dan amgylchiadau penodol.**

---

**Caniatáu hyblygrwydd**

4.233 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd mewn perthynas â phwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled oedd y farn y byddai'r rhain yn cynnig yr hyblygrwydd gofynnol i'r awdurdod treth ystyried caledi economaidd neu amgylchiadau arbennig eraill a wynebir gan ddarparwyr llety.

*"Yn yr un modd â chamau gorfodi, cosbau a phwerau, bydd angen pwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled hefyd y cytunir arnynt fesul achos o dan rai amgylchiadau o galedi." (Awdurdod lleol)*

*“Bydd eithriadau sy'n haeddu triniaeth arbennig bob amser. Dylai'r rhain fod yn eithriadol eu natur ac ni ddylent fod yn rhan o weithgareddau arferol o ddydd i ddydd." (Awdurdod lleol)*

**Ystyried ffactorau allanol**

4.234 Yr ail thema a godwyd amlaf o blaid y pwerau arfaethedig oedd y byddent yn helpu i ystyried effaith ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr llety. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn awgrymu y gallai ffactorau eithriadol – megis argyfwng economaidd, pandemig a rhyfel – effeithio ar y sector twristiaeth, ond eu bod y tu hwnt i reolaeth darparwyr llety. O ganlyniad, ystyriwyd y byddai'n deg i'r awdurdod treth ddefnyddio pwerau disgresiynol i ryddhau o ddyled mewn achosion o'r fath pan geir toriad.

> *“Gallai achosion ar wahân, megis salwch neu farwolaeth yn y teulu, arwain at gyflwyno'r ffurflen dreth yn hwyr.” (Awdurdod lleol)*

> *"Bydd amgylchiadau bob amser pan fydd angen y math hwn o gymorth lleol untro ar fusnesau am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Darparu canllawiau cyson**

4.235 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr mewn perthynas â'r pwerau arfaethedig oedd yr awgrym y dylai Llywodraeth Cymru gynnig canllawiau cenedlaethol ar y pwerau disgresiynol arfaethedig. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod angen rhywfaint o gysondeb o ran pwerau i ryddhau o ddyled ar draws awdurdodau lleol, ac felly y dylai'r Llywodraeth ddarparu canllawiau cenedlaethol ar yr amgylchiadau pan allai'r awdurdod treth arfer y pwerau arfaethedig.

> *“Fodd bynnag, bydd canllawiau clir yn hyn o beth yn bwysig fel y gallant ymateb i heriau posibl a gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyson." (Sefydliad rheoli cyrchfannau)*

## Defnyddio refeniw

4.236 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar y ffordd y dylid defnyddio refeniw yn eu hardal leol er budd yr economi ymwelwyr leol.

---

**Cwestiwn 31:** Sut y dylai refeniw a godir drwy ardoll ymwelwyr gael ei wario? Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

---

**Ailfuddsoddi yn yr economi leol**

4.237 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid ailfuddsoddi refeniw a godir drwy ardoll ymwelwyr yn yr economi leol, gan gynnwys buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol. Ystyriwyd y byddai hyn yn cefnogi twristiaeth gynaliadwy a datblygiad economaidd-gymdeithasol mewn ardaloedd lleol, yn ogystal â helpu i oresgyn unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â rhoi'r ardoll ar waith. Awgrymodd nifer fechan o randdeiliaid y dylid rhoi “bathodyn ardoll” ar brosiectau a ariennir drwy refeniw o'r ardoll.

> *“Dylid gwario'r refeniw a godir ar wella cyfleusterau i ymwelwyr a fydd hefyd yn gwella cyfleusterau i drigolion drwy fuddsoddi mewn ardaloedd cyhoeddus, toiledau, biniau, meysydd parcio, gerddi, arwyddion, gwelliannau cyffredinol i'r amgylchedd, marchnata. Dylid rhoi bathodyn ardoll ar bob prosiect a ariennir drwy'r ardoll.” (Ymateb dienw)*

**Clustnodi refeniw ar gyfer y sector twristiaeth**

4.238 Yr ail thema a godwyd amlaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd y cais am i'r refeniw gael ei glustnodi ar gyfer y sector twristiaeth. Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid gwario refeniw yn benodol ar wella economïau ymwelwyr lleol, a pheidio â'i ddefnyddio i ariannu cyllidebau presennol awdurdodau lleol. Roedd rhai o blaid gwario cyllid ar farchnata cyrchfannau hefyd, a fyddai'n cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o gyrchfannau twristiaeth.

> *"Dylid clustnodi cyllid er mwyn datblygu seilwaith, gwasanaethau, trafnidiaeth gynaliadwy/teithio llesol, a gweithlu sy'n cefnogi twristiaeth gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i bob corff yn y sector cyhoeddus sy'n darparu'r gwasanaethau a'r seilwaith hyn gael budd o'r ardoll, e.e. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd*

*o Harddwch Naturiol Eithriadol, Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW." (Sefydliad rheoli tir)*

*"RHAID gwario'r refeniw yn benodol ar ardaloedd sy'n cefnogi twristiaeth felly ac ni ddylid caniatáu iddo gael ei ddefnyddio i ychwanegu at gyllidebau presennol awdurdodau lleol mewn unrhyw ffordd" (Darparwr llety)*

**Defnydd disgresiynol awdurdodau lleol o gyllid**

4.239 Y thema gyffredin olaf a godwyd gan ymatebwyr yn y cwestiwn hwn oedd y farn y dylai fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o ran sut y caiff refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr ei wario. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod gan awdurdodau lleol wybodaeth fanwl am anghenion lleol ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ac felly eu bod mewn sefyllfa ddelfrydol i benderfynu ar y defnydd mwyaf effeithlon o refeniw. Roedd y thema hon yn arbennig o gyffredin ymhlith awdurdodau lleol.


*"Dylid dychwelyd refeniw i awdurdodau lleol er mwyn penderfynu sut i'w wario. Gall awdurdodau lleol ddewis ei fuddsoddi mewn prosiectau i wella seilwaith er mwyn cefnogi twristiaeth, ond ni ddylid neilltuo'r arian." (Awdurdod lleol)*

---

**Cwestiwn 32:** A ddylai'r refeniw a godir drwy ardoll ymwelwyr gael ei neilltuo (ei glustnodi)?

---

Ffigur 23. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â neilltuo (clustnodi) refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr



Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 651 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 65% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.240 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (74% neu 481 o ymatebwyr) yn cytuno â neilltuo unrhyw refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr.

## Themâu o blaid neilltuo unrhyw refeniw o'r ardoll ymwelwyr

### Sicrhau tryloywder o ran y defnydd o gyllid

4.241 Y thema a godwyd amlaf gan y rhai a oedd yn cytuno â neilltuo refeniw o'r ardoll oedd y farn y byddai hyn yn sicrhau tryloywder o ran sut y caiff ei glustnodi a'i ddefnyddio. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y byddai'r rhai sy'n talu'r ardoll am gael gwybod ble mae'n cael ei wario, ac felly byddai tryloywder yn werthfawr. Nododd ymatebwyr eraill y gallai darparwyr fod eisiau sicrwydd y caiff y refeniw a godir ei ailfuddsoddi yn y sector twristiaeth.

> *“Mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n ymweld â Chymru yn disgwyl i'r refeniw a godir gael ei wario ar y sector twristiaeth. Gall neilltuo'r arian helpu i gyfleu diben a defnydd yr ardoll ymwelwyr i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr." (Corff o'r diwydiant treth)*

> *“Dylai, os caiff ardoll ei roi ar waith, byddai'r busnesau sy'n casglu ac yn talu'r dreth, yn ogystal â'r twristiaid sy'n ei thalu, am gael gwybod bod y refeniw yn cael ei wario ble mae ei angen ac yn yr ardal wreiddiol ble cafodd ei gasglu.” (Corff o'r diwydiant llety)*

### Cefnogi cynaliadwyedd y sector twristiaeth

4.242 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan y rhai o blaid y cynnig oedd y farn y byddai neilltuo'r refeniw yn sicrhau bod twristiaeth yn cael budd ohono, a thynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cefnogi cynaliadwyedd hirdymor twristiaeth yng Nghymru.

> *"Byddai'n well er twf parhaus y sector twristiaeth yng Nghymru fod yr arian hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau a gwariant sydd o fudd i'r*

*economi dwristiaeth neu'n gweithio tuag at sector twristiaeth mwy cynaliadwy." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Amddiffyn rhag dyrannu cyllid**

4.243 Y drydedd thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr o blaid neilltuo refeniw oedd pryderon y gallai awdurdodau lleol gamddefnyddio'r arian. Roedd ymatebwyr yn bryderus, heb drefniadau neilltuo, y gallai awdurdodau lleol gael eu temtio i ddefnyddio'r refeniw i ymdrin â bylchau yng nghyllidebau meysydd eraill.

*"Bydd peidio â neilltuo'r refeniw yn arwain at y posibilrwydd tebygol iawn y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r refeniw i ychwanegu at gyllidebau meysydd eraill" (Darparwr llety)*

*"[…] rydym wedi gweld sicrwydd cynyddol y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r refeniw a godir i lenwi bylchau cyllidebol sy'n codi mewn nifer cynyddol o ddyletswyddau statudol yn hytrach nag i gefnogi amwynderau a rennir neu unrhyw fath o drefniadau rheoli cyrchfan, boed hynny'n lleol neu'n fwy rhanbarthol mewn partneriaeth â chynghorau/cyrff perthnasol eraill." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

## Themâu yn erbyn neilltuo unrhyw refeniw o'r ardoll ymwelwyr

**Tanseilio prosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol**

4.244 Y rheswm mwyaf cyffredin dros anghytuno â neilltuo refeniw o'r ardoll oedd y farn y byddai hyn yn cyfyngu ar bwerau a hyblygrwydd awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr hyn, ac awdurdodau lleol yn arbennig, fel arfer yn nodi bod gan awdurdodau lleol wybodaeth unigryw am amgylchiadau ac anghenion lleol, ac felly y dylent gael disgresiwn o ran y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r refeniw a gesglir.

*"Felly, er ei bod yn ymddangos yn synhwyrol ac yn briodol i awdurdodau lleol ailfuddsoddi incwm o ardoll ymwelwyr mewn twristiaeth, ni fyddem am ragnodi i awdurdodau lleol pa fuddsoddiad sydd fwyaf priodol i'r perwyl hwnnw" (Corff o'r diwydiant llety)*

**Cynyddu'r baich gweinyddol**

4.245 Yr ail thema a godwyd amlaf yn erbyn neilltuo refeniw oedd y pryder y byddai'n cynyddu'r baich gweinyddol. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu y byddai angen i awdurdodau lleol fonitro'n sylweddol a mynd i gostau archwilio pe bai'r refeniw yn cael ei neilltuo, a allai fod yn anghymesur â lefel y refeniw a godir.

> *"Mae gofyniad i gyflwyno trefniadau monitro, adrodd ac archwilio yn gysylltiedig â neilltuo refeniw. Gallai'r symiau o arian yma fod yn fach iawn o ran cyllidebau awdurdodau lleol, ac ni ddylai unrhyw ardoll gynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol drwy gyflwyno gofynion adrodd ychwanegol ac anghymesur." (Awdurdod lleol)*

## Tryloywder ac ymgysylltu

4.246 Mae'r bennod hon yn dadnsoddi barn ymatebwyr ar safoni'r gofynion adrodd ar draws pob awdurdod lleol a'u pennu drwy'r fframwaith treth.

---

**Cwestiwn 33:** Pa weithgarwch ymgysylltu lleol a ddylai ddigwydd wrth benderfynu sut y caiff refeniw ei ddyrannu?

---

**Byrddau lleol ag aelodau o'r diwydiant twristiaeth**

4.247 Yr awgrym mwyaf cyffredin a gafwyd mewn perthynas ag ymgysylltu lleol oedd â chyfranogwyr o'r diwydiant twristiaeth drwy fyrddau lleol, gyda rhai ymatebwyr yn dadlau o blaid creu byrddau sy'n cynnwys busnesau, cynrychiolwyr cymunedol, a sefydliadau cyrchfannau rhanbarthol.

> *"[…], y dull a ffefrir gennym yw datblygu byrddau lleol ag aelodau o'r diwydiant twristiaeth er mwyn arwain y gwaith o glustnodi a monitro cyllideb flynyddol o gyllid a dynnir i lawr o'r refeniw a godir drwy'r dreth,[…]. Gallai byrddau o'r fath gynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, sefydliad cyrchfan rhanbarthol, busnesau twristiaeth lleol a chynrychiolwyr cymunedol (cynghorwyr ar bob lefel)." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

**Cyfeirio at ddeddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau**

4.248 Yr ail thema a godwyd amlaf oedd y cais i gyfeirio at ddeddfwriaeth sylfaenol neu ganllawiau, ac roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai awdurdodau lleol ddilyn deddfwriaeth neu ganllawiau canolog wrth benderfynu sut i ddyrannu refeniw yn lleol.

> *"Dylech wrando ar leisiau lleol ond cadw fframwaith ar gyfer ardaloedd ble caiff y refeniw ei wario er mwyn osgoi gwastraffu arian." (Preswylydd)*

**Ymgynghori â Phartneriaethau Rheoli Cyrchfannau**

4.249 Y drydedd thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd y farn y dylid ymgynghori â Phartneriaethau Rheoli Cyrchfannau wrth benderfynu sut i ddyrannu'r refeniw. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod gan y sefydliadau hyn yr holl randdeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw eisoes ac felly y byddent mewn sefyllfa dda i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.

*“Gallai'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau leol fod yn gyfrifol am hyn gan fod rhanddeiliaid yn ymwneud â hi ac mae'r awdurdod lleol yn ei gwasanaethu a fyddai'n gallu rheoli'r dyraniad ariannol.” (Awdurdod lleol)*

**Busnesau a thrigolion yr effeithir arnynt**

4.250 Y thema fwyaf cyffredin nesaf oedd y farn bod angen ymgynghori â busnesau a thrigolion yr effeithir arnynt ynghylch sut y dylid dyrannu refeniw. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o gynhwysiant a thegwch, o ystyried y bydd y grwpiau hyn yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o faich yr ardoll.

*"Dylai preswylwyr lleol, busnesau a thwristiaid gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch ble y caiff yr ardoll ei wario. Mae hyn yn caniatáu ymdeimlad o gynhwysiant, a thrwy neilltuo'r arian a godir a gwrando ar bobl leol, busnesau a thwristiaid, mae'n fwy tebygol y caiff twristiaid eu hannog i ailymweld a bydd preswylwyr a busnesau lleol yn cydweithredu." (Corff o'r diwydiant llety)*


**Cynghorau cymuned a thref**

4.251 Y thema gyffredin olaf a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn oedd yr awgrym i ymgysylltu â chynghorau cymuned a thref. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn dadlau bod busnesau a phreswylwyr lleol eisoes wedi dewis unigolion i'w cynrychioli mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ac felly y dylid ymgynghori â chynghorau lleol wrth benderfynu sut i ddyrannu'r refeniw.

*“Mae gan awdurdodau lleol aelodau etholedig sydd yno i gynrychioli eu hetholwyr lleol. Dylid penderfynu drwy'r broses llywodraeth leol/pwyllgor arferol." (Darparwr llety)*

**Cwestiwn 34:** A ddylai fod adroddiad blynyddol ar wahân sy'n nodi'r refeniw a gasglwyd a manteision ardoll ymwelwyr ar lefel leol?

Ffigur 24. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chreu adroddiad blynyddol ar wahân sy'n nodi'r refeniw a manteision ardoll ymwelwyr ar lefel leol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 719 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 66% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (78% neu 558 o ymatebwyr) yn cytuno y dylid cael adroddiad blynyddol ar wahân sy'n nodi'r refeniw a gasglwyd a manteision ardoll ymwelwyr ar lefel leol.

**Hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder**

4.252 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd bod angen adroddiad blynyddol ar wahân at ddibenion atebolrwydd a thryloywder. Awgrymodd ymatebwyr dri phrif faes y dylid eu trafod yn yr adroddiad blynyddol: (i) y dulliau a ddefnyddir i rannu refeniw o'r ardoll rhwng awdurdodau lleol, (ii) y prosiectau a ariennir gan refeniw'r ardoll, ac (iii) effaith gwario'r ardoll ar ardaloedd lleol. Roedd nifer llawer llai o ymatebwyr am i'r adroddiad gynnwys canran y refeniw a wariwyd ar weinyddu a gorfodi.

*"Gan fod refeniw yn cael ei gasglu ar ran ardaloedd lleol a'i wario ynddynt, ni fyddem yn disgwyl i'r refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr gael ei ddangos mewn cyfrifon llywodraeth ganolog. Yn hytrach, dylent gael eu hadlewyrchu yng nghyfrifon yr awdurdod lleol. Os caiff refeniw a godir*

*mewn un ardal leol ei gyfeirio at ardal leol wahanol neu ei wario ynddi, dylai fod tryloywder ynghylch y ffordd y cyfrifwyd sut y rhannwyd y refeniw rhwng ardaloedd lleol, a'r fethodoleg y tu ôl i hyn." (Corff o'r diwydiant treth)*

4.253 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai ymwelwyr â Chymru yn teimlo'n fwy cyfforddus yn talu'r ardoll pe gallent weld yn glir ble roedd eu harian yn cael ei wario (ar welliannau uniongyrchol i brofiadau ymwelwyr, er enghraifft).

*"Po fwyaf tryloyw yw'r awdurdod ynghylch y defnydd o unrhyw refeniw a gynhyrchir, mwyaf cefnogol y bydd busnesau/ymwelwyr o bosibl gan eu bod yn gweld sut mae'r refeniw yn cael effaith ar y cyrchfan." (Awdurdod lleol)*

**Annog cefnogaeth o blaid yr ardoll ymwelwyr arfaethedig**

4.254 Awgrymodd ymatebwyr eraill fod yr adroddiad blynyddol yn allweddol i gynyddu cefnogaeth preswylwyr, darparwyr llety a sefydliadau: byddai rhanddeiliaid yn fwy tebygol o gefnogi'r ardoll pe gallent weld yn glir dystiolaeth ddiriaethol o'r manteision a gynhyrchir gan yr ardoll pe bai'n cael ei ailfuddsoddi'n lleol. Yn ogystal, gallai tryloywder gefnogi rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu a chasglu adborth (preswylwyr lleol yn cael mynegi barn yn uniongyrchol ar sut y caiff y refeniw ei wario) yn ogystal â helpu i oresgyn pryderon rhai ymatebwyr y byddai awdurdodau lleol yn ychwanegu'r arian at gyllid cyffredinol yn hytrach na gwasanaethau neu brosiectau penodol yn ymwneud â thwristiaeth (crybwyllodd ymatebwyr y cysyniad o wario “yn gywir” yn aml).

*"Er mwyn sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yn gyffredinol fod yr arian a gesglir drwy'r ardoll hwn yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag effeithiau ymwelwyr, fel yr honnir. At hynny, mae'n bwysig i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd fod modd nodi manteision uniongyrchol o ganlyniad i'r ardoll, fel arall caiff ei ystyried yn faich ychwanegol ar faes o'r economi wledig sydd eisoes yn wynebu heriau." (Awdurdod lleol)*

**Cynyddu'r baich gweinyddol**

4.255 Yn olaf, mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryder y byddai creu adroddiad blynyddol ar wahân yn arwain at ragor o gostau gweinyddol (yn enwedig os

mai dim ond cyfran fach o gyfanswm gwariant awdurdodau lleol a gynhyrchwyd gan y refeniw) neu'n teimlo'n or-fiwrocrataidd.


> *“Gallai'r symiau o arian yma fod yn fach iawn o ran cyllidebau awdurdodau lleol, ac ni ddylai unrhyw ardoll gynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol drwy gyflwyno gofynion adrodd ychwanegol ac anghymesur." (Awdurdod lleol)*

---

**Cwestiwn 35:** Rydym yn cynnig y byddai trefniadau adrodd ar gyfer awdurdodau lleol yn cael eu nodi yn y fframwaith treth er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gyson. Ydych chi'n cytuno â’r dull gweithredu hwn?

---

Ffigur 25. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â nodi trefniadau adrodd yn y fframwaith treth er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 662 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 61% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.256 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (73% neu 481 o ymatebwyr) yn cytuno y dylai trefniadau adrodd ar gyfer awdurdodau lleol gael eu nodi yn y fframwaith treth er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gyson.

### Mae cysondeb yn hyrwyddo tryloywder ac eglurder

4.257 Ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd ymateb hirach na brawddeg i'r cwestiwn testun rhydd hwn. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth fod cysondeb yn nod pwysig gan fod busnesau yn gweithredu mewn sawl awdurdod lleol yn aml. Gallai cysondeb hefyd gynnig tryloywder i fusnesau a'r cyhoedd, a fyddai'n helpu i leihau dryswch ynghylch cyfraddau neu esemptiadau'r ardoll (ymhlith agweddau eraill).

> *"Mae trethi twristiaeth yn llawer mwy effeithiol ac yn achosi llai o ddryswch pan fydd un adnodd canoledig sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am y dreth y gall busnesau gyfeirio ato a dibynnu arno. Mae risg y bydd unrhyw ddull gweithredu arall yn cyflwyno cymhlethdodau a fydd, yn anochel, yn gwneud y dreth yn llai effeithiol." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

### Gormod o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb

4.258 Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr yn erbyn y cynnig gan eu bod yn teimlo bod gormod o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol i ddull gweithredu cyson weithio.

---

**Cwestiwn 36:** Pa wybodaeth a ddylai fod ar gael i ymwelwyr am yr ardoll?

---

### Awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth a ddylai fod ar gael

4.259 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gytûn ar gasgliad o wybodaeth sylfaenol i'w rhannu ag ymwelwyr ynglŷn â'r ardoll: amcanion yr ardoll (pam ei roi ar waith), y gyfradd benodol a godir ar ymwelwyr, pa esemptiadau sydd ar gael a sut câi cyllid a godir drwy'r ardoll ei ddefnyddio.

> *"Dylid egluro cyfradd yr ardoll i ymwelwyr, pryd y gallai gael ei godi, sut y caiff ei gasglu, yr hyn a ariennir drwy'r ardoll a phryd y gallai'r gyfradd gael ei newid." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

4.260 Yn ogystal â'r agweddau hyn ar yr ardoll, crybwyllodd ychydig o ymatebwyr ddau ddarn arall o wybodaeth y dylid eu rhannu ag ymwelwyr: (i) y dulliau sydd ar waith i sicrhau bod cyfraniadau ymwelwyr yn cael eu gwario'n gyfrifol, a (ii) nodi bod y dreth yn cael ei chasglu gan yr awdurdod lleol, ac nid y darparwr llety ei hun.

*"Rhaid cyfleu'r rhesymeg dros y dreth yn glir i ymwelwyr o leiaf, a'r ffaith mai treth gan y cyngor ydyw ac nid y busnes sy'n gyfrifol am ei chasglu, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro neu broblemau diangen pan fydd busnesau bach a chanolig yn casglu'r ardoll." (Sefydliad o'r diwydiant busnes)*

**Awgrymiadau ar gyfer sut y dylid darparu gwybodaeth**

4.261 Aeth rhai ymatebwyr ati i ymhelaethu ar eu hymatebion er mwyn disgrifio sut a ble y dylid arddangos yr wybodaeth. O fewn y grŵp hwn, dywedodd y nifer mwyaf o'r ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth ar ei gwefan neu fel rhan o ganolfan ganolog sy'n rhestru prosiectau a gefnogir gan refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr. Roedd ffyrdd eraill o rannu gwybodaeth yn cynnwys "pecynnau cyfathrebu" a gaiff eu creu gan Lywodraeth Cymru a'u rhannu â phob darparwr llety, cyhoeddusrwydd cyffredinol ar wahanol fathau o gyfryngau ar-lein/argraffedig, gwefannau cyrchfannau twristiaeth ac arddangos gwybodaeth ar lwyfannau archebu llety trydydd parti.


*"Byddai'n wych gweld man canolog sy'n dangos ble a sut mae'r arian yn cael ei wario a'r effaith gyffredinol ledled Cymru. Mae Ynysoedd Baleares yn enghraifft wych o hyn." (Elusen)*

*"Dylai deunyddiau cyfathrebu gael eu paratoi a'u darparu i ddarparwyr llety a phobl eraill sy'n ymwneud â chasglu'r ardoll a fyddai'n sicrhau bod yr ardoll, a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio, yn weladwy ac yn dryloyw. Dylai'r deunyddiau cyfathrebu/marchnata ganolbwyntio ar gyfathrebu ag ymwelwyr ynghylch yr ardoll yn bennaf." (Sefydliad rheoli tir)*

## Amserlenni gweithredu

**Cwestiwn 37:** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y byddai awdurdodau lleol yn gallu penderfynu drwy brosesau llywodraethu lleol a fyddant yn cyflwyno ardoll ymwelwyr ai peidio. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?

Ffigur 26. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y byddai awdurdodau lleol yn gallu penderfynu ynghylch rhoi'r ardoll ar waith drwy brosesau llywodraethu lleol




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 727 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 67% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.262 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (61% neu 445 o ymatebwyr) yn anghytuno â defnyddio prosesau llywodraethu lleol i benderfynu ynghylch rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith.

**Diffyg eglurder a chysondeb ar draws awdurdodau lleol**

4.263 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr wedi'u hollti o ran eu hymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, gan gynnwys darparwyr llety a sefydliadau o'r diwydiant twristiaeth yn bennaf, yn erbyn y cynnig am eu bod yn teimlo y byddai'n cyflwyno gwahaniaethau o ran y ffordd roedd awdurdodau lleol yn rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu. Ystyriwyd y gallai'r diffyg cysondeb hwn rhwng awdurdodau lleol arwain at ddryswch ymhlith ymwelwyr, preswylwyr a darparwyr llety. Fel rheol, roedd yr ymatebwyr hyn

yn teimlo y dylid cyflwyno'r ardoll ym mhob awdurdodau lleol yng Nghymru neu ddim o gwbl.

*“Mae'r trethi twristiaeth gorau yn hawdd eu gweinyddu. Cael fframwaith cyson ledled Cymru fyddai'r ffordd orau o godi treth o'r fath ac osgoi cymhlethdodau diangen sy'n arwain at godi neu gyfrifo'r dreth yn anghywir.” (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Cynnig hyblygrwydd ar gyfer amodau lleol**

4.264 Roedd grŵp bach o'r ymatebwyr hyn o blaid y cynnig am eu bod o'r farn y byddai'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol unigol optio allan o'r ardoll ymwelwyr pe bai’r awdurdod lleol yn teimlo y byddai’n cael effaith negyddol ar eu diwydiant twristiaeth.

*“Credwn y bydd rhai awdurdodau lleol yn cydnabod y bydd rhoi'r ardoll ar waith yn cael effaith negyddol ar nifer eu hymwelwyr ac felly'r refeniw a godir drwy dwristiaeth. Dylent felly gael y cyfle i benderfynu a ydynt yn dymuno rhoi'r ardoll ar waith yn eu hardal nhw ai peidio, a dylanwadu ar hyn, ac asesu'r risgiau cysylltiedig yn briodol." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Sicrhau cefnogaeth leol**

4.265 Ar y llaw arall, roedd nifer llai o ymatebwyr, gan gynnwys bron pob awdurdod lleol, yn cytuno â'r cynnig ac yn credu bod angen prosesau llywodraethu lleol er mwyn meithrin cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid lleol a sicrhau bod yr ardoll yn briodol ar gyfer yr amodau economaidd lleol penodol. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn fod prosesau llywodraethu lleol yn cyd-fynd â phroses gwneud penderfyniadau fwy democrataidd.

*"Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniad i roi'r ardoll ymwelwyr arfaethedig ar waith neu beidio â'i roi ar waith yn seiliedig ar amodau lleol a phrosesau gwneud penderfyniadau lleol." (Awdurdod lleol)*

**Awgrymiadau eraill**


4.266 Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr hyn awgrymiadau pellach yn eu hymatebion: hyd yn oed pe bai'r penderfyniad ynghylch rhoi'r ardoll ar waith ai peidio yn seiliedig ar brosesau llywodraethu lleol, dylai cynllun yr ardoll a fyddai'n cael ei fabwysiadu yn y pen draw gael ei bennu a'i weinyddu'n genedlaethol (fel

bod pob awdurdod lleol sy'n dewis mabwysiadu'r ardoll yn ei roi ar waith yn gyson).

> *"Rydym yn cefnogi'r cynnig i bob awdurdod lleol ddefnyddio prosesau democratiaeth a llywodraethu lleol i benderfynu'n derfynol a ddylid rhoi ardoll ymwelwyr ar waith ai peidio. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu cyflwyno'r cynllun, credwn y dylai'r cynllun fod yn un safonol, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdod Cyllid Cymru, yn seiliedig ar gyfraddau ardoll safonol, a lle caiff yr holl gyllid perthnasol ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol." (Awdurdod lleol)*

**a. A ddylid cynnal ymgyngoriadau lleol cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr?**

Ffigur 27. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal ymgyngoriadau lleol cyn cyflwyno ardoll




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 749 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 75% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.267 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (76% neu 571 o ymatebwyr) yn cytuno y dylid cynnal ymgyngoriadau lleol cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr.

**Ystyried safbwyntiau lleol a sicrhau cefnogaeth**

4.268 Cafwyd cefnogaeth eang gan ymatebwyr o blaid defnyddio ymgyngoriadau cyhoeddus lleol cyn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r

farn y byddai ymgyngoriadau yn rhoi cyfle i bob llais (gan gynnwys barn busnesau twristiaeth lleol ym maes manwerthu, bwyd a diod) gael ei glywed, gan gynyddu cefnogaeth leol o blaid yr ardoll.

> *“Mae'n bwysig bod ymgyngoriadau lleol yn cael eu cynnal cyn hynny, er mwyn sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid lleol. Fel y dangoswyd yn yr ymgynghoriad anffurfiol cynharach, gall y syniad o ardoll ymwelwyr annog safbwyntiau cryf o blaid ac yn erbyn. Byddai ymgynghori yn rhoi cyfle i amlinellu'r sylfaen dystiolaeth, gweld a oes cefnogaeth leol a galluogi busnesau a phreswylwyr lleol i ddweud eu dweud ynghylch cyflwyno'r ardoll yn eu hardal." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Lliniaru canlyniadau anfwriadol**

4.269 Pwynt arall a godwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynnig oedd y gallai ymgynghoriad helpu i leihau nifer y canlyniadau anfwriadol (neu'r rhai hynny nas ystyriwyd ac nas ymdriniwyd â nhw cyn cyflwyno'r ymgynghoriad). Byddai hyn yn helpu awdurdodau lleol i ddeall gwir effaith yr ardoll ar wahanol fathau o fusnesau ac ymgorffori'r effeithiau hyn yn eu proses gwneud penderfyniadau.

> *"Cyn cyflwyno ardoll, rhaid i bob awdurdod lleol sy'n dymuno cyflwyno ardoll gynnal ymgynghoriad lleol helaeth er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i ddeall yr effaith lawn y bydd codi ardoll yn ei chael ar fusnesau. Mae'n debygol y bydd methu â gwneud hyn yn cynyddu'r canlyniadau anfwriadol i fusnesau, sydd eisoes yn wynebu nifer o heriau, yn sylweddol, ac yn peri drwgdeimlad a hollt rhwng y sectorau masnachol a chyhoeddus." (Corff o'r diwydiant llety)*

**Hwyluso gwell dealltwriaeth o'r defnydd o'r ardoll**

4.270 Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y byddai ymgyngoriadau yn galluogi Llywodraeth Cymru i fesur y defnydd cyffredinol o'r ardoll (o ystyried y costau sefydlog sy'n gysylltiedig â chyflwyno fframwaith cenedlaethol).

> *“Os gall awdurdodau lleol wrthod rhoi'r ardoll ar waith, mae risg y bydd llai o [awdurdodau] lleol yn cymryd rhan yn y cynllun, gan arwain at lai o refeniw. O ystyried y buddsoddiad ymlaen llaw y byddai ei angen gan*

*Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r fframwaith cenedlaethol a'r systemau a'r prosesau cysylltiedig i weithredu'r ardoll, dylid deall lefel y defnydd." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Awgrymiadau ar gyfer pwysoli ymatebion**

4.271 Nododd ychydig o ymatebwyr, yn arbennig sefydliadau o'r diwydiant, fod angen i ymgyngoriadau bwysoli ymatebion gan fusnesau lleol o gymharu â'r cyhoedd yn briodol (boed hyn yn unol â chanllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru neu o ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli).

*"Os rhoddir pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr, yna bydd cynnal ymgynghoriad cadarn a dilys â busnesau lleol a rhanddeiliaid ehangach yn hanfodol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ddeddfwriaeth yn cynnwys rhywfaint o ganllawiau o ran pwysoli ymatebion gan y gymuned fusnes a'r gymuned ehangach yn briodol." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

---

**Cwestiwn 38:** Pa drefniadau pontio y dylid eu rhoi ar waith ar gyfer llety a archebwyd cyn i awdurdod lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr? Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

---

**Safbwyntiau o blaid cyfnod pontio**

4.272 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cael dyddiad gweithredu sefydlog ar gyfer cyflwyno'r ardoll gyda chyfnod sylweddol o rybudd ymlaen llaw cyn y dyddiad gweithredu, ac roedd y cynigion yn amrywio o 12 i 24 mis. Byddai'r cyfnod hwn yn caniatáu i fusnesau twristiaeth baratoi yn llawn (gan gynnwys diweddaru meddalwedd er mwyn i brosesau casglu a chofnodi data gyd-fynd â'r ardoll) ac i'r ardoll gael ei gyfleu'n glir i ymwelwyr posibl a'r rhai a oedd wedi archebu llety ymlaen llaw (cyn i'r ardoll gael ei roi ar waith). Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai'r amser ychwanegol yn rhoi amser mawr ei angen i'r diwydiant twristiaeth adfer yn dilyn effaith pandemig COVID-19.

*"Mae'n bwysig rhoi digon o amser i sicrhau bod y systemau a'r prosesau priodol ar waith fel na fydd materion gweinyddol yn tanseilio'r broses o gyflwyno'r tâl. Yn benodol, mae'n cymryd cryn dipyn o amser i roi*

*newidiadau i feddalwedd gyfrifiadurol ar waith yn aml, yn enwedig i systemau hŷn a all fod yn cael eu defnyddio i archebu llety." (Corff o'r diwydiant treth)*

**Gwrthwynebu camau ôl-weithredol**

4.273 Hefyd, nododd llawer o ymatebwyr yn benodol na ddylid codi'r ardoll yn ôl-weithredol ar archebion a wnaed cyn i'r ardoll ddod i rym (gan y byddai hyn yn annheg i'r ymwelwyr hyn a gallai arwain at ganslo archebion). Yn benodol, os archebwyd y llety hwn, yna roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo nad oedd angen unrhyw drefniadau pontio pellach.

*“Ni ddylid codi treth yn ôl-weithredol. Dylid cadw'r holl drefniadau a wnaed i archebu llety cyn y dyddiad gweithredu heb godi'r ardoll. Byddai'r holl drefniadau a wnaed ar ôl y dyddiad gweithredu yn ddarostyngedig i'r ardoll." (Awdurdod lleol)*

**Eithriadau a awgrymwyd i drefniadau pontio**

4.274 Yn olaf, nododd nifer bach o ymatebwyr nad oedd angen unrhyw drefniadau pontio pe bai'r ardoll yn cael ei dalu wrth gyrraedd oherwydd, yn unol â'r trefniant hwn, nid oedd y dyddiad archebu yn gwneud gwahaniaeth mwyach i b'un a godwyd yr ardoll ai peidio.

*"Gan y dylid codi a thalu'r ardoll wrth gyrraedd, nid yw'r dyddiad yr archebwyd y llety yn berthnasol." (Ymatebydd dienw)*

## Sut y gellid dylunio'r trefniadau pontio mewn ffordd sy'n atal achosion o osgoi neu efadu trethi yn fwriadol?

4.275 Ychydig iawn o ymatebwyr awgrymodd gynigion penodol o ran sut y gellid dylunio'r trefniadau pontio mewn ffordd sy'n atal achosion bwriadol o osgoi neu efadu. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn uniongyrchol, roedd yr awgrymiadau yn cynnwys canllawiau a chyfathrebu clir neu bennu terfyn amser ar gyfer archebu ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth (er mwyn atal pobl rhag archebu llety mewn bloc am flynyddoedd i ddod).

*“Byddai pennu terfyn amser ar gyfer archebu – sy'n dod i rym ar adeg synhwyrol ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth sylfaenol – yn rhoi cyfle i ymwelwyr ymrwymo i archebu llety yn gynnar.  Ni fyddai hynny'n osgoi treth yn fwy*


*na phobl yn bodloni terfyn amser ar gyfer gwyliau treth stamp, er enghraifft." (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

## Modelau gweithredu

4.276 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ar y ffordd orau o weithredu'r ardoll ymwelwyr arfaethedig ac a ddylai fod rôl lawn neu rannol i awdurdod canoledig ai peidio.

**Cwestiwn 39:** Beth yw'r ffordd orau o roi'r ardoll ymwelwyr arfaethedig ar waith a'i weinyddu?

Ffigur 28. Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn ffafrio'r opsiynau gweithredu a gweinyddu arfaethedig




Nodyn: Ar y cyfan, atebodd 532 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynrychioli 49% o'r 1,087 o ymatebwyr a ddarparodd ffurflen yn dilyn templed yr ymgynghoriad.

4.277 Yr opsiwn i roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl ganoledig oedd fwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (41% neu 218 o ymatebwyr). Yr ail opsiwn a ddewiswyd amlaf oedd cymysgedd o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n lleol ac yn ganoledig (34% neu 179 o ymatebwyr), a'r opsiwn i roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol oedd leiaf cyffredin (25% neu 135 o ymatebwyr).

**Cwestiwn 40:** Beth fyddai manteision ac anfanteision pob opsiwn?

**a. Ei roi ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol**

## Themâu ynghylch manteision

### Defnyddio gwybodaeth am amgylchiadau lleol

4.278 Y fantais a nodwyd amlaf mewn perthynas â rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol oedd y gallu i ddefnyddio gwybodaeth am y cyd-destun lleol. Yn benodol, crybwyllodd ymatebwyr fod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth ddofn o'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol a thwristaidd sy'n gyffredin yn yr ardal. Nododd yr ymatebion fod yr amgylchiadau hyn yn amrywio ledled awdurdodau lleol, ac mai dim ond sefydliadau lleol sy'n eu deall. O ganlyniad, ystyriwyd y byddai rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'r wybodaeth honno.

> *“Byddai staff lleol yn fwy ymwybodol o elfennau sensitif lleol ac felly gallent fod mewn sefyllfa well i esbonio'r ardoll a rhoi cymorth i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr yn eu hardal.” (Corff o'r diwydiant treth)*

### Cynyddu dealltwriaeth ac atebolrwydd

4.279 Yr ail fantais a nodwyd amlaf oedd y farn bod yr opsiwn hwn yn ddull gweithredu clir a syml, a fydd yn hwyluso atebolrwydd. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr hyn y byddai'r system hon yn symlach i ddarparwyr ac ymwelwyr, ac y byddent yn gallu dilyn y canllawiau yn well.

> *“Hwn yw'r model mwyaf eglur gydag atebolrwydd llawn ac eglurder i'r cwsmer. Mae'n lleihau'r risg o ddryswch ac yn sicrhau bod y broses weinyddu yn syml ac wedi'i chysylltu'n glir ag ardal yr awdurdod lleol a'r cynllun." (Awdurdod lleol)*

### Cynyddu ymgysylltiad lleol a gwella canfyddiad y cyhoedd

4.280 Y fantais gyffredin olaf a nodwyd mewn perthynas â'r opsiwn hwn oedd y posibilrwydd o gynyddu cefnogaeth leol. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol yn helpu preswylwyr, ymwelwyr a darparwyr llety i ddeall gwerth yr ardoll ac yn eu gwneud yn fwy parod i hwyluso'r broses o'i roi ar waith.

*“Ymrwymiad da yn lleol […]” (Sefydliad rheoli tir)*

*“mae angen rhannu'r un neges ledled Cymru felly mae angen i gyfathrebu, proses, gwybodaeth am y polisi fod yn rhan ganolog o gynlluniau lleol, gan gynnwys cynhyrchu incwm, cynlluniau gwariant a phrosesau cyfathrebu/ymgysylltu” (Ymateb dienw)*

*“Tryloywder, adrodd ac, o ganlyniad, fwy o ymddiriedaeth yn y broses. Atebolrwydd lleol i'r bobl sy'n ymwneud â'r cynllun." (Ymateb dienw)*

## Themâu ynghylch anfanteision

### Cynyddu'r baich gweinyddol

4.281 Yr anfantais fwyaf cyffredin a godwyd mewn perthynas â'r opsiwn hwn oedd y cynnydd posibl mewn gwaith gweinyddol i awdurdodau lleol a darparwyr. Yn benodol, ystyriwyd y byddai cryn gostau yn gysylltiedig â rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl leol a hynny o ran cydgysylltu, amser staff a phrosesau monitro.

*“Mae'r anfanteision yn cynnwys llwyth gwaith cynyddol ar adeg brysur o'r flwyddyn.” (Awdurdod lleol)*

*“Gallai hyn fod yn gymhleth iawn i fusnesau ei roi ar waith a hefyd yn anodd i westeion ei ddeall.” (Elusen)*

### Effaith andwyol ar ddarparwyr sy'n gweithredu ar draws awdurdodau lleol

4.282 Yr ail anfantais a godwyd amlaf mewn perthynas â'r opsiwn hwn oedd yr effaith ar ddarparwyr llety sy'n gweithredu mewn sawl awdurdod lleol. Yn hyn o beth, mynegodd ymatebwyr bryderon y byddai rhoi'r ardoll ar waith yn lleol yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr ddilyn gweithdrefnau a chanllawiau gwahanol mewn awdurdodau lleol gwahanol, gan arwain at ddryswch a chostau gweinyddol.

*"Nid yw hyn yn ddelfrydol oherwydd ei fod yn cynyddu'r baich o ran cydymffurfio ar y rheini sy'n gweithredu mewn mwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

**Diffyg eglurder ymhlith rhanddeiliaid**

4.283 Y drydedd anfantais a godwyd amlaf oedd y byddai'r opsiwn hwn yn ddryslyd i ymwelwyr a darparwyr llety. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr hyn y gallai'r broses weithredu fod yn sylweddol wahanol neu'n anghyson rhwng awdurdodau lleol yn aml, gan felly amharu ar ddealltwriaeth.

*“Gallai hyn fod yn gymhleth iawn i fusnesau ei roi ar waith a hefyd yn anodd i westeion ei ddeall.” (Corff o'r diwydiant llety)*

*“[…] credwn fod posibilrwydd y gallai rhoi'r ardoll ar waith yn lleol, mewn 22 o awdurdodau, beri dryswch ac arwain at gamgymeriadau a cholli treth. Mae dull gweithredu canoledig yn llawer symlach i'w roi ar waith i bob rhanddeiliad." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

---

b. **Ei roi ar waith a'i weinyddu'n gwbl ganoledig**

---

## Themâu ynghylch manteision

**Costeffeithiolrwydd**

4.284 Y rheswm mwyaf cyffredin o blaid rhoi'r ardoll ar waith a'i weinyddu'n gwbl ganoledig oedd y farn y byddai'n lleihau costau yn sylweddol. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod cost sylweddol o ran gweinyddu, cysgysylltu a staffio yn gysylltiedig â rhoi'r ardoll ar waith. O ganlyniad, byddai dull gweithredu canoledig yn golygu y byddai'r baich hwn ar Lywodraeth Cymru. At hynny, crybwyllodd rhai ymatebwyr y gallai dull gweithredu canoledig arwain at greu arbedion maint hefyd, a thrwy hynny, leihau cost gyffredinol codi'r ardoll.

*“Credwn y dylai hwn fod yn ddull gweithredu Cymru gyfan, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru drwy Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn creu arbedion maint, na fyddent yn bodoli pe bai'r cynllun yn cael ei weinyddu gan 22 o gynghorau ar wahân.” (Awdurdod lleol)*

*"Fel awdurdod lleol bach, credwn y gallai cyflawni hyn yn rhanbarthol neu o fewn clwstwr lleol arwain at arbedion maint." (Awdurdod lleol)*

### Cysondeb a symlrwydd

4.285 Yr ail fantais a nodwyd amlaf oedd cysondeb a symlrwydd dull gweithredu canoledig. Yn benodol, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r broses o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu fod mor glir â phosibl er mwyn ennyn cymaint o gefnogaeth â phosibl. Ystyriwyd bod cysondeb cenedlaethol yn fuddiol yn hyn o beth.

*"Clir a chyson ledled y wlad" (Darparwr llety)*

*"er mwyn cael dull gweithredu cyson ac eglurder i'r defnyddiwr" (Darparwr llety)*

### Effaith gadarnhaol ar ddarparwyr sy'n gweithredu ar draws awdurdodau lleol

4.286 Y drydedd fantais a godwyd amlaf oedd yr effaith bosibl ar ddarparwyr llety sy'n gweithredu ar draws awdurdodau lleol. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn mai rhoi'r ardoll ar waith yn ganoledig fyddai'r dull gweithredu symlaf i ddarparwyr sy'n gweithredu mewn sawl awdurdod, gan y byddai'r ardoll yn cael ei roi ar waith yn yr un ffordd. Byddai hyn yn lleihau costau gorfod deall y dulliau gweithredu gwahanol a sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cydymffurfio.

*"Mae hyn yn ddelfrydol gan fod llawer o weithredwyr yn gweithredu mewn llawer o awdurdodau lleol. Dull talu canoledig fyddai fwyaf effeithlon." (Llwyfan archebu llety ar-lein)*

## Themâu ynghylch anfanteision

### Methu diwallu anghenion lleol

4.287 Y rheswm mwyaf cyffredin yn erbyn rhoi'r ardoll ar waith mewn ffordd gwbl ganoledig oedd pryder na fyddai'n gallu diwallu anghenion lleol. Yn benodol, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod gan bob awdurdod lleol anghenion, blaenoriaethau ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gwahanol, ac na all dull gweithredu canoledig cyffredin ymdrin â'r materion hyn yn effeithiol felly.

*"Mae risg y caiff cymhlethdod neu wahaniaethau bach ardaloedd lleol eu colli." (Sefydliad rheoli tir)*

**Oedi wrth dderbyn llifau refeniw**

4.288 Yr ail anfantais a godwyd amlaf oedd yr oedi posibl cyn i'r refeniw gyrraedd awdurdodau lleol. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus pe bai'r ardoll yn cael ei roi ar waith a'i weinyddu'n ganolog, yna byddai'r refeniw yn cael ei gasglu'n ganolog hefyd, ac yna byddai angen ei ailddosbarthu i bob awdurdod lleol. O ganlyniad, nododd yr ymatebwyr hyn y gallai fod cryn oedi rhwng casglu'r ardoll ac ailfuddsoddi'r refeniw a godir.

> *“[…] cymhleth os bydd y dreth yn cael ei chasglu ac yna ei hailddosbarthu'n ôl i 22 o awdurdodau lleol.” (Awdurdod lleol)*

**Lleihau ymgysylltu lleol**

4.289 Yr anfantais gyffredin olaf a nodwyd oedd y posibilrwydd y byddai llai o gefnogaeth gan randdeiliaid lleol. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn yn bryderus y byddai rhoi'r ardoll ar waith yn ganoledig yn cynyddu'r bwlch rhwng randdeiliaid a'r ardoll, gan eu datgymell rhag ei roi ar waith a chydymffurfio ag ef.

> *“Diffyg cefnogaeth leol a sensitifrwydd i anghenion/galw lleol.” (Sefydliad rheoli tir)*

> *“Gall hyn leihau ymgysylltiad lleol a dealltwriaeth o'r ardoll, ac mae risg y byddai'n cynyddu achosion o ddiffyg cydymffurfio gan ddarparwyr llety ymwelwyr.” (Corff o'r diwydiant treth)*

---

a. **Cymysgedd o'i roi ar waith a'i weinyddu'n lleol ac yn ganoledig**

---

## Themâu ynghylch manteision

**Dull gweithredu cytbwys**

4.290 Y fantais fwyaf cyffredin mewn perthynas â dull gweithredu cymysg oedd y gallu i gydbwyso agweddau cadarnhaol y ddau opsiwn arall. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr y byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu rhywfaint o gysondeb ac yn lleihau'r baich gweinyddol, wrth gynnig rhywfaint o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol hefyd.

*“[…] mae angen rhoi unrhyw dreth ar waith mewn modd cyson, yn amodol ar annibyniaeth leol a gyfyngir yn llym i amgylchiadau eithriadol,[...]” (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

*“Y gallu i sicrhau cysondeb wrth sicrhau cefnogaeth leol hefyd.” (Sefydliad rheoli tir)*

**Osgoi cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol**

4.291 Yr ail fantais fwyaf cyffredin a godwyd oedd y posibilrwydd i osgoi cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol. Fel rheol, nododd yr ymatebwyr hyn y byddai dull gweithredu cymysg yn caniatáu digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol, ond y byddai hefyd yn cynnal safon gyson yn genedlaethol. Ystyriwyd y byddai hyn yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i drin y broses o roi'r ardoll ar waith er mwyn denu ymwelwyr a darparwyr o awdurdodau cyfagos.

*“[…], mae angen cael rheolaeth ganolog dros brotocol a chanllawiau'r Ardoll Ymwelwyr er mwyn sicrhau […] nad oes cystadleuaeth annheg rhwng awdurdodau lleol drwy drin y canllawiau a fydd yn llywodraethu'r ardoll yn fwriadol.” (Corff o'r diwydiant llety)*

## Themâu ynghylch anfanteision

**Dull gweithredu cymhleth**

4.292 Yr anfantais a godwyd amlaf mewn perthynas â'r dull gweithredu hwn oedd cymhlethdod y broses o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu. Mynegodd ymatebwyr a gododd y thema hon, ac awdurdodau lleol yn arbennig, bryderon y byddai cydbwyso rhywfaint o hyblygrwydd â safonau cenedlaethol yn ddryslyd i ddarparwyr llety ac y gallai arwain at gamgymeriadau.

*“Byddai model mwy cymhleth yn creu mwy o ddryswch ac ni fyddai'n helpu i sicrhau tryloywder nac atebolrwydd.” (Awdurdod lleol)*

**Diffyg atebolrwydd**

4.293 Yr ail thema fwyaf cyffredin mewn perthynas ag anfanteision yr opsiwn hwn oedd diffyg atebolrwydd. Yn benodol, roedd pryderon y byddai dull gweithredu cymysg yn arwain at ddau gorff yn rhoi'r ardoll ar waith ac yn ei

fonitro ar yr un pryd. Ystyriwyd y byddai hyn yn dyblygu ymdrechion ac yn arwain at gostau diangen a diffyg atebolrwydd.

> *“Byddai diffyg un corff atebol yn arwain at ddryswch; dyblygu gwaith a dyblu costau." (Awdurdod lleol)*

## Y Gymraeg

4.294 Mae'r bennod hon yn dadansoddi barn ymatebwyr ar effeithiau posibl y cynnig ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru rhai negyddol.

---

**Cwestiwn 41:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**a. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?**

---

### Dim effeithiau amlwg

4.295 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn na fyddai'r cynnig i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn cael effaith amlwg ar y Gymraeg.

> *"Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau uniongyrchol (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn sgil cyflwyno ardoll ymwelwyr ynddo'i hun." (Sefydliad rheoli tir)*

> *"Nid yw'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn credu y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn cael effaith ar allu busnes i weithredu gan ddefnyddio'r Gymraeg ar yr amod y gellid cyflwyno unrhyw adroddiadau yn Gymraeg." (Corff o'r diwydiant llety)*

### Cynnal asesiad effaith

4.296 Yr ail thema fwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd y farn nad oes digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i asesu'r effeithiau posibl. Yn benodol, awgrymwyd y dylid cynnal asesiad effaith cyn rhoi'r ardoll ar waith er mwyn deall sut y gallai'r cynllun effeithio ar y Gymraeg. Roedd yr awgrym hwn yn arbennig o gyffredin ymhlith awdurdodau lleol.

> *"Nid ydym yn glir sut y byddai unrhyw ardoll o'r fath yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg, ond tybiwn y caiff asesiad effaith ei gynnal cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i roi unrhyw gynllun ar waith" (Awdurdod lleol)*

**Canfyddiad negyddol o'r Gymraeg**

4.297 Y drydedd thema a godwyd amlaf oedd y farn y byddai ardoll ymwelwyr yn cael effaith anuniongyrchol ar y Gymraeg drwy ganfyddiad yr ymwelwyr o Gymru. Yn benodol, mynegodd yr ymatebwyr bryderon na fyddai ymwelwyr yn fodlon ar gyflwyno'r ardoll gan y byddai'n cynyddu cost llety, gan arwain at farn negyddol am Gymru a'r Gymraeg o ganlyniad i hynny.

> *"Ni allaf weld sut y bydd cyflwyno treth dwristiaeth yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar farn ymwelwyr am Gymru, pobl Cymru a/neu'r Gymraeg. Yn wir, gallai arwain at ganfyddiad negyddol […]." (Preswylydd)*

> *"Ni allaf ddychmygu y bydd treth annheg ar dwristiaid sy'n dymuno ymweld â Chymru a gwario arian yma yn debygol o wella barn pobl am Gymru a'r Gymraeg" (Darparwr llety)*

**Ni fydd teuluoedd sydd wedi'u dadleoli yn dysgu Cymraeg**

4.298 Y thema gyffredin olaf a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd pryderon y byddai teuluoedd o Gymru'n cael eu dadleoli, gan olygu y byddai llai o bobl yn dysgu ac yn siarad Cymraeg. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr y byddai cyflwyno'r ardoll yn cael effeithiau andwyol ar economïau lleol ac ar ddarparwyr llety yn benodol, gan beri i lawer o deuluoedd adleoli i wledydd eraill. Yna awgrymodd yr ymatebion hyn y bydd teuluoedd yn mynychu ysgolion nad ydynt yn dysgu Cymraeg ac felly na fydd ganddynt lawer o gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg.

> *"Mae angen ystyried pa waith amgen sydd ar gael pe bai swyddi sylfaenol ac eilaidd yn yr economi ymwelwyr yn diflannu neu'n lleihau o ran gwerth. […]. Mae hynny'n broblem i siaradwyr Cymraeg neu, yn wir, i siaradwyr Saesneg y byddai eu teuluoedd ifanc eu hunain wedi bod yn mynychu ysgolion Cymraeg pe na byddent wedi gorfod gadael er mwyn dod o hyd i waith. Mae prinder gwaith ynddo'i hun yn ddiffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg bob diwrnod" (Corff o'r diwydiant twristiaeth)*

> *"Bydd effaith gyffredinol treth dwristiaeth yn golygu y bydd llai o dwristiaid yng Nghymru, sy'n golygu llai o incwm i fusnesau lleol ac felly gallai pobl golli eu gwaith. Oherwydd bod diffyg swyddi amgen, ni fydd gan bobl sy'n*

*siarad Cymraeg ar hyn o bryd waith a byddant yn symud i ffwrdd er mwyn chwilio am swydd. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a llai o blant yn dysgu Cymraeg mewn ysgolion." (Awdurdod lleol)*

**b. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol?**

**Hyrwyddo twristiaeth**

4.299 Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd oedd sicrhau y byddai'r ardoll yn cefnogi'r sector twristiaeth. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu bod darparwyr llety yn rhan hanfodol o gynnal a lledaenu'r Gymraeg, ac felly y dylid eu cefnogi.

*"Ailwampio'r cynnig mewn ffordd sy'n cefnogi'r diwydiant twristiaeth sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd" (Awdurdod lleol)*

**Defnyddio deunyddiau dwyieithog**

4.300 Yr awgrym nesaf a godwyd amlaf oedd defnyddio deunyddiau dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn benodol, cynigiwyd y dylai unrhyw ddeunyddiau a roddir i ymwelwyr, a'r holl waith adrodd a wneir fel rhan o'r ardoll, ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

*"Dylai deunyddiau cyfathrebu fod yn ddwyieithog" (Awdurdod lleol)*

*"Rhagor o arwyddion dwyieithog mewn llety, mae'r rhan fwyaf yn Saesneg yn unig. Perchnogion llety i hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy." (Ymateb dienw)*

**Defnyddio'r refeniw a godir i hwyluso'r effeithiau cadarnhaol**

4.301 Yr awgrym cyffredin olaf oedd defnyddio'r refeniw a godir drwy'r ardoll i hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol. Awgrymodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y dylai'r refeniw a godir, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau lleol a thwristiaeth, gael ei fuddsoddi mewn sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

*"defnyddio'r ardoll i gynyddu cyllid ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru" (Awdurdod lleol)*

*"Rydym yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau y byddai'r refeniw o'r ardoll yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn rhoi budd economaidd i gymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gyfrannu at greu swyddi da". (Ymateb dienw)*

---

**c. Sut y gellid lliniaru'r effeithiau negyddol?**

---

4.302 Ychydig o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn ar y cyfan. Cyflwynir y themâu a godwyd gan y rhai a ymatebodd isod.

**Hyrwyddo twristiaeth**

4.303 Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer lliniaru'r effeithiau negyddol a nodwyd oedd sicrhau y byddai'r ardoll yn cefnogi'r sector twristiaeth. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y sector twristiaeth yn rhan hanfodol o gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn awgrymu y byddai hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth yn lliniaru'r effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Hefyd, rhoddodd un ymatebydd awgrymiadau penodol ar gyfer sut y gellid cefnogi'r sector twristiaeth.

*"Creu diwydiant twristiaeth a hamdden am 52 o wythnosau'r flwyddyn gyda gostyngiadau ychwanegol mewn trethi ar gyfer buddsoddi a fydd, yn ei dro, yn creu incwm y pen mawr ei angen ac yn gwella cynnyrch domestig gros Cymru." (Preswylydd)*

---

**Cwestiwn 42:** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer cyflwyno ardoll ymwelwyr gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

---

4.304 Ychydig iawn o ymatebion manwl a gafwyd i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn fwyaf tebygol o ddweud nad oeddent yn sicr sut i ateb y cwestiwn am nad oedd yn eglur sut y byddai'r ardoll yn cael effeithiau uniongyrchol ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd yr awgrymiadau a gynigiwyd gan ymaterbwyr yn cynnwys y canlynol:

- Gwneud ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn flaenoriaeth gwariant er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr neu gydberthnasau â chymunedau sy'n eu lletya.
- Cynnal ymgyrchoedd dwyieithog er mwyn hyrwyddo, marchnata neu godi ymwybyddiaeth, ar y cyd â chyflwyno ardoll ymwelwyr.
- Buddsoddi mewn atyniadau i ymwelwyr sy'n canolbwyntio ar hanes Cymru neu'r Gymraeg.
- Ad-daliadau i ymwelwyr a oedd yn cadw lle ar gyrsiau dysgu Cymraeg.
- Cefnogi ymyriadau sy'n datblygu'r economi ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth lleol (megis rhaglen Arfor 2).
- Galluogi pobl leol i sicrhau tai fforddiadwy mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, drwy eu prynu neu eu rhentu (megis y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg).

---

**Cwestiwn 43:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol drwy'r ymgynghoriad hwn. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

---

4.305 Adlewyrchir y themâu a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn y dadansoddiad o gwestiynau blaenorol.

# 5. Atodiadau

## Atodiad 1 – Dadansoddiad o'r fersiwn Gymunedol ac Ieuenctid o'r arolwg

| Cwestiwn | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1:** Rydym ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu codi ardoll os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny a defnyddio'r arian yn eu hardal leol. Ydych chi'n cytuno? | 41% | 57% | 2% | 126 |
| **Cwestiwn 2:** Rydyn ni'n meddwl y dylai ymwelwyr sy'n aros dros nos orfod talu'r ardoll. Ydych chi'n cytuno? | 42% | 56% | 2% | 125 |
| **Cwestiwn 3:** Rydyn ni'n meddwl mai 3 (fframwaith Cymru gyfan y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei dilyn) yw'r syniad gorau. Ydych chi'n cytuno? | 42% | 48% | 10% | 122 |
| **Cwestiwn 4:** Credwn y dylai darparwyr llety gasglu'r ardoll. Ydych chi'n cytuno? | 36% | 56% | 8% | 123 |
| **Cwestiwn 5:** Rydym ni'n credu y dylai fod yn rhaid i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety dalu'r ardoll ymwelwyr. Ydych chi'n cytuno? | 34% | 64% | 2% | 124 |
| **Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno gyda hyn [rhestr o esemptiadau arfaethedig]? | 37% | 54% | 9% | 124 |
| **Cwestiwn 8:** Rydym ni'n credu y dylai pob darparwr llety godi ardoll ymwelwyr. Ydych chi'n cytuno? | 41% | 56% | 2% | 124 |
| **Cwestiwn 9:** Ni waeth beth fyddwn ni'n ei benderfynu, rydym ni'n credu y dylai [math o gyfradd ar gyfer ardoll] | 53% | 37% | 10% | 118 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fod yr un peth ledled Cymru. Ydych chi’n cytuno? | | | | |
| **Cwestiwn 10:** Rydym ni’n credu y dylid gosod yr ardoll yr un pris i ymwelwyr ar draws Cymru gyfan. Ydych chi’n cytuno? | 49% | 39% | 12% | 124 |
| **Cwestiwn 11:** Rydym ni’n meddwl y dylai awdurdodau lleol wario’r arian ar beth bynnag sydd orau yn eu barn nhw. Ydych chi’n cytuno? | 31% | 61% | 8% | 123 |
| **Cwestiwn 13:** Rydym ni’n meddwl y dylai awdurdodau lleol benderfynu a ddylid defnyddio’r ardoll ac y dylent gynnwys y gymuned yn eu penderfyniad. Ydych chi’n cytuno? | 55% | 30% | 15% | 116 |